360 degree safe Cymru

# Polisi Templed e-Ddiogelwch Ysgolion



SOUTH WEST GRID FOR LEARNING

UK Safer Internet Centre

Un o fentrau Llywodraeth Cymru
Welsh Government Initiative

# Cynnwys


## Cyflwyniad

## Polisi Templed e-Ddiogelwch Ysgolion

## Datblygiad, monitro ac adolygiad o'r Polisi

## Amserlen ar gyfer datblygiad, monitro ac adolygiad

## Rolau a Chyfrifoldebau

- Llywodraethwyr
- Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr
- Cydlynydd / Swyddog e-Ddiogelwch
- Rheolwr Rhwydwaith / Staff Technegol
- Staff Dysgu a Chymorth
- Person / Swyddog Diogelu Dynodedig
- Pwyllgor e-Ddiogelwch
- Myfyrwyr / Disgyblion
- Rhieni / Gofalwyr
- Defnyddwyr Cymunedol

## Datganiadau Polisi

- Addysg - Myfyrwyr / Disgyblion
- Addysg - Rhieni / Gofalwyr
- Addysg - Y Gymuned Ehangach
- Addysg a hyfforddiant - Staff / Gwirfoddolwyr
- Hyfforddiant - Llywodraethwyr
- Technegol - isadeiledd / offer, hidlo a monitro
- Dewch â'ch dyfais eich hun (BYOD)
- Defnydd o ddelweddau digidol a fideo
- Amddiffyn Data
- Cyfathrebiadau
- Cyfryngau Cymdeithasol - Amddiffyn Hunaniaeth Broffesiynol
- Gweithrediadau Defnyddwyr - gweithgareddau anaddas / amhriodol
- Ymateb i ddigwyddiadau o gamddefnydd

## Atodiadau

- A1 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Myfyriwr / Disgybl (plant iau)
- A2 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Myfyriwr / Disgybl (plant hŷn)
- A3 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Staff a Gwirfoddolwyr
- A4 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Rhieni / Gofalwyr
- A5 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Defnyddwyr Cymunedol
- B1 Templed Polisi Diogelwch Technegol Ysgol
- B2 Templed Polisi Data Personol Ysgol
- B3 Polisi Templed Dewch â'ch dyfais eich hun (BYOD)
- B4 Cylch Gorchwyl Pwyllgor e-Ddiogelwch Ysgol
- C1 Ymateb i ddigwyddiadau camddefnydd - siart llif
- C2 Cofnod o wefannau adolygu (ar gyfer camddefnydd o'r rhyngrwyd)
- C3 Templed Log Adrodd Ysgol
- C4 Templed Archwiliad Anghenion Hyfforddiant Ysgol
- C5 Crynodeb o Ddeddfwriaeth
- C6 Office 365 - manylion pellach
- C7 Cysylltiadau i sefydliadau a dogfennau eraill
- C8 Rhestr termau


# Cyflwyniad


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## Polisïau Templed e-Ddiogelwch

Bwriad y polisïau templed e-Ddiogelwch yma ydy i helpu arweinwyr ysgol i gynhyrchu dogfen polisi e-Ddiogelwch addas fydd yn ystyried yr holl faterion cyfoes a pherthnasol, yng nghyd-destun ysgol gyfan, yn cysylltu gyda pholisïau perthnasol eraill, fel polisïau Diogelu, Ymddygiad a Gwrth-fwlio.

Mae'n cyfeirio at yr angen i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau cyfathrebu perthnasol yn briodol ac yn ddiogel fel rhan o'r ddyletswydd gofal ehangach mae pob un sy'n gweithio mewn ysgol yn rhwym iddynt. Mae'n rhaid i ysgolion, trwy'r polisi e-Ddiogelwch, sicrhau eu bod yn cyrraedd dyletswyddau statudol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel ac wedi'u hamddiffyn o unrhyw niwed bosib, y tu fewn a'r tu allan i'r ysgol. Bydd y polisi hefyd yn ffurfio rhan o amddiffyniad yr ysgol o fygythiadau cyfreithiol, yn ymwneud â'r defnydd o dechnolegau digidol.

Bydd y polisïau templed yma yn awgrymu datganiadau polisi fydd, ym marn Llywodraeth Cymru, yn hanfodol mewn unrhyw Bolisi e-Ddiogelwch ysgol, wedi'i selio ar ymarfer da. Yn ogystal â hyn mae yna amrywiaeth o ddatganiadau eraill dylai'r ysgol eu hystyried a dewis y rhai sydd fwyaf addas i'w hamgylchiadau penodol nhw.

Mae'n rhaid i Bolisi e-Ddiogelwch Ysgol gael ei deilwra i anghenion pob ysgol yn unigol a bydd y drafodaeth a'r ymgynghoriad sydd yn digwydd yn ystod ysgrifennu neu adolygu'r polisi yn rhan bwysig o'r broses. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y polisi yn cael ei berchen a'i dderbyn gan gymuned gyfan yr ysgol.

Awgrymir dylai ymgynghoriad yn y cynhyrchiad o'r polisi yma gynnwys:

- Llywodraethwyr
- Staff Technegol a Staff Cymorth
- Myfyrwyr / disgyblion
- Rhieni
- Defnyddwyr cymunedol ac unrhyw grwpiau perthnasol.

Oherwydd natur newidiol barhaol technolegau digidol, mae'n ymarfer gorau bod yr ysgol yn adolygu'r Polisi e-Ddiogelwch o leiaf unwaith y flwyddyn, ac yn fwy aml os oes angen, i ymateb i unrhyw ddatblygiadau newydd arwyddocaol yn y defnydd o'r technolegau, bygythiadau newydd i e-Ddiogelwch neu unrhyw ddigwyddiadau sydd wedi bod.

O ystyried yr amrywiaeth o ddatganiadau dewisol cynigir a'r nodiadau arweiniad darparir, mae'r ddogfen templed yma yn debygol o fod yn llawer mwy na fydd y polisi ysgol ganlyniadol. Y bwriad ydy, wrth ymdrin ag agwedd gymhleth o waith yr ysgol sydd yn newid yn gyson, dylai'r polisi sydd i ddilyn fod yn gryno ac yn hawdd i'w ddeall os yw am fod yn effeithiol a chael ei fabwysiadu gan bawb.

Mae'r templed yn defnyddio nifer o dermau amgen ee. Pennaeth; Llywodraethwyr; myfyrwyr / disgyblion; awdurdod lleol / corff cyfrifol arall. Bydd yn rhaid i ysgolion ddewis pa derm sydd yn berthnasol iddynt a dileu'r eraill yn unol â hynny.

Yn y templed yma bydd adrannau sydd yn cynnwys gwybodaeth neu arweiniad yn cael eu dangos mewn **GLAS**. Rhagwelir bydd ysgolion yn tynnu'r adrannau yma o'r ddogfen polisi gorffenedig, er bydd hyn yn benderfyniad i'r grŵp sydd yn cynhyrchu'r polisi.

**Ble mae'r adrannau wedi'u hamlygu gyda thestun TRWM, awgrymir yn gryf y dylai'r rhain fod yn rhan hanfodol o bolisi e-Ddiogelwch ysgol.**

*Ble mae adrannau yn y templed wedi'u hysgrifennu mewn italig rhagwelir bydd yr ysgolion eisiau ystyried yn ofalus pa un ai ydynt am gynnwys yr adran neu'r datganiad yna yn eu polisi gorffenedig neu beidio.*

Mae rhan gyntaf y ddogfen yma (tua 23 tudalen yn fras) yn darparu templed ar gyfer Polisi e-Ddiogelwch cyffredinol ar gyfer yr ysgol. Mae'r atodiadau yn cynnwys templedi Cytundeb Defnydd Derbyniol a thempledi polisi penodol mwy manwl. Penderfyniad yr ysgol ydy pa rai o'r dogfennau yma maent yn dewis eu diwygio a'u mabwysiadu.


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

# YGG Pontybrenin

# Polisi
# e-Ddiogelwch

Mae'r polisi yma yn berthnasol i holl aelodau cymuned yr ysgol (gan gynnwys staff, myfyrwyr / disgyblion, gwirfoddolwyr, rhieni / gofalwyr, ymwelwyr, defnyddwyr cymunedol) sydd â mynediad i ac yn defnyddio'r systemau TGCh, yn yr ysgol a'r tu allan.


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## Datblygiad / Monitro / Adolygu'r Polisi yma

Mae'r polisi e-Ddiogelwch yma wedi cael ei ddatblygu gan weithgor sydd yn cynnwys:

- *Pennaeth ac Uwcharweinwyr - Mr Ceri Scourfield*
- *Cydlynydd e-Ddiogelwch - Mrs Elsbeth Fewings*
- *Staff - gan gynnwys Athrawon, Staff Cymorth, Staff Technegol – Mrs Elsbeth Fewings, Miss Llinos Bowen, Miss Kassie Gwenter, Miss Sophie Dark a Mrs Rhian O'Brien.*
- *Llywodraethwyr*
- *Rhieni a Gofalwyr - (CRA)*
- *Cyngor Ysgol - Holl Aelodau*

Mae ymgynghoriad gyda chymuned yr ysgol gyfan wedi digwydd trwy amrywiaeth o gyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol.

## Amserlen ar gyfer Datblygiad / Monitro / Adolygu

| | |
|---|---|
| Cafodd y polisi e-Ddiogelwch yma ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethu ar: | *Ebrill/ May 2017* |
| Bydd gweithrediad o'r polisi e-Ddiogelwch yma yn cael ei fonitro gan y: | *Cydlynydd E-Ddiogelwch* |
| Bydd monitro yn digwydd ar gyfnodau rheolaidd: | *Unwaith pob Tymor – (Wele taflen Wirio y Polisi)* |
| Bydd y Corff Llywodraethu yn derbyn adroddiad ar gyfnodau rheolaidd am weithrediad y polisi e-Ddiogelwch wedi'i gynhyrchu gan y grŵp monitro (fydd yn cynnwys manylion dienw o ddigwyddiadau e-Ddiogelwch): | *Yn flynyddol – (Cyflwyno taflen Wirio y Polisi)* |
| Bydd y Polisi e-Ddiogelwch yn cael ei adolygu'n flynyddol, neu'n fwy rheolaidd os oes unrhyw ddatblygiadau newydd arwyddocaol yn y defnydd o'r technolegau, bygythiadau newydd i e-Ddiogelwch neu unrhyw ddigwyddiadau. Rhagwelir bydd y dyddiad adolygu nesaf ar: | *Mis Medi 2017 – Adolygu'r Polisi Llawn* |
| Os bydd digwyddiadau e-Ddiogelwch difrifol yn digwydd, dylai hysbysu'r personau / asiantaethau allanol yma: | *PC Bowen – Schoolbeat*<br>Childline – 0800 11 11<br>CEOP – Plant<br>NSPCC - 08085008000 |

Bydd yr ysgol yn monitro effaith y polisi gan ddefnyddio:

- *Logiau digwyddiadau wedi'u hadrodd* – Llyfryn yn y Swyddfa
- *Monitro logiau gweithgaredd ar y rhyngrwyd* – Trosolwg o Wefanau Ddefnyddir
- *Data monitro mewnol ar gyfer gweithgaredd rhwydwaith* – Trosolwg o Wefanau Ddefnyddir
- *Arolygon / holiaduron*
  - *rhieni / gofalwyr*
  - *Staff*
  - *fyfyrwyr / disgyblion*


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r adran ddilynol yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau unigolion a grwpiau o fewn yr ysgol:

### Llywodraethwyr:

Mae Llywodraethwyr yn gyfrifol am gymeradwyo'r Polisi e-Ddiogelwch ac am adolygu effeithiolrwydd y polisi. Bydd hyn yn cael ei gyflawni gan y *Corff Llywodraethu* yn derbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau e-Ddiogelwch ac adroddiadau monitro. Dylai aelod o'r Corff Llywodraethu fynd i'r afael â'r rôl o Lywodraethwr e-Ddiogelwch i gynnwys:

- *cyfarfodydd blynyddol gyda'r Swyddog e-Ddiogelwch* – Dyddiad Diweddaru Polisi
- *monitro rheolaidd o'r logiau digwyddiadau e-Ddiogelwch* – Llyfryn Swyddfa
- *monitro rheolaidd o logiau hidlo / newid rheolaeth (ble'n bosib)* – Data'r Sir

### Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr:

- **Mae gan y *Pennaeth* ddyletswydd gofal i sicrhau diogelwch (gan gynnwys e-Ddiogelwch) aelodau cymuned yr ysgol,** er caniateir i gyfrifoldeb e-Ddiogelwch o ddydd i ddydd gael ei ddirprwyo i'r Cydlynydd / Swyddog e-Ddiogelwch.
- **Dylai'r Pennaeth ac (o leiaf) un aelod arall o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Uwch Dîm Rheoli fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn digwyddiad o gyhuddiad e-Ddiogelwch difrifol yn erbyn aelod staff.**
- Mae'r Pennaeth / Uwch Arweinwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y Cydlynydd / Swyddog e-Ddiogelwch a staff eraill perthnasol yn derbyn hyfforddiant addas i'w galluogi i gyflawni'u rolau e-Ddiogelwch ac i hyfforddi cyd-weithwyr eraill, fel sy'n berthnasol.
- Bydd y Pennaeth / Uwch Arweinwyr yn sicrhau bod yna system mewn lle i ganiatáu monitro a chefnogaeth o'r rhai yn yr ysgol sydd yn cyflawni rôl monitro e-Ddiogelwch mewnol. Mae hyn er mwyn darparu rhwyd diogelwch a chefnogaeth i'r cydweithwyr sydd yn mynd i'r afael â'r rolau monitro pwysig.
- Bydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Uwch Dîm Rheoli yn derbyn adroddiadau monitro rheolaidd gan y Cydlynydd / Swyddog e-Ddiogelwch.

### Cydlynydd / Swyddog e-Ddiogelwch:

Mae'r Cydlynydd / Swyddog e-Ddiogelwch yn:

- arwain y gweithgor e-Ddiogelwch
- cymryd cyfrifoldeb am faterion e-Ddiogelwch o ddydd i ddydd ac efo rôl arweiniol mewn sefydlu ac adolygu polisïau / dogfennau e-Ddiogelwch yr ysgol
- sicrhau bod holl staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau rhaid dilyn mewn digwyddiad e-Ddiogelwch
- darparu (neu'n adnabod ffynhonnell) hyfforddiant a chyngor i staff
- cysylltu gyda'r Awdurdod Lleol / corff perthnasol
- cysylltu gyda staff technegol (yr ysgol)
- derbyn adroddiadau o ddigwyddiadau e-Ddiogelwch a chreu log o ddigwyddiadau i ddiweddaru datblygiadau e-Ddiogelwch y dyfodol
- cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwr e-Ddiogelwch i drafod materion cyfoes, adolygu logiau digwyddiadau ac, os yn bosib, logiau hidlo / newid rheolaeth
- mynychu cyfarfod / is-bwyllgor Llywodraethwyr perthnasol
- adrodd yn rheolaidd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth

### Rheolwr Rhwydwaith / Staff Technegol:

Mae'r *Rheolwr Rhwydwaith / Staff Technegol* (neu ddarparwr gwasanaeth rheoledig) yn gyfrifol am sicrhau:

- **bod isadeiledd technegol yr *ysgol* yn ddiogel a ddim yn agored i gamddefnydd neu ymosodiadau maleisus**

 © Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

- **bod yr ysgol yn cyfarfod (fel isafbwynt) y gofynion technegol e-Ddiogelwch gofynnol fel nodwyd gan yr *Awdurdod Lleol neu gorff perthnasol arall* a hefyd y Polisi / Arweiniad e-Ddiogelwch gallai fod yn weithredol**
- **bod defnyddwyr dim ond yn cael mynediad i'r rhwydweithiau a'r dyfeisiau trwy bolisi amddiffyn cyfrinair sydd yn cael ei orfodi yn gywir, ble mae'r cyfrineiriau yn cael eu newid yn rheolaidd**
- bod y polisi hidlo (os oes un yn bodoli), yn cael ei weithredu a'i ddiweddaru'n rheolaidd ac nad cyfrifoldeb un person yn unig yw ei weithrediad
- eu bod yn cael y wybodaeth dechnegol e-Ddiogelwch diweddaraf er mwyn cyflawni'u rôl e-Ddiogelwch yn effeithiol a diweddaru eraill fel sy'n berthnasol
- bod y defnydd o'r rhwydwaith / rhyngrwyd / Rhith Amgylchedd Dysgu / cyrchiad pell / e-bost yn cael ei fonitro yn rheolaidd fel bod unrhyw gamddefnydd / ymgais i gamddefnyddio yn gallu cael ei adrodd i'r Pennaeth / Uwch Arweinydd; Cydlynydd / Swyddog e-Ddiogelwch ar gyfer archwiliad / gweithrediad / ataliad
- bod (os yn bresennol) meddalwedd / systemau monitro yn cael eu gweithredu a diweddaru fel cytunwyd ym mholisïau'r ysgol

## Staff Dysgu a Chymorth

Yn gyfrifol am sicrhau:

- **bod ganddynt yr ymwybyddiaeth ddiweddaraf o faterion e-Ddiogelwch ac o'r polisi a'r arferion e-Ddiogelwch cyfoes.**
- **eu bod wedi darllen, deall ac arwyddo'r Polisi / Cytundeb Defnydd Derbyniol Staff (PDD / CDD)**
- **eu bod yn adrodd unrhyw gamddefnydd neu broblem amheuir i'r *Pennaeth / Uwch Arweinydd; Cydlynydd / Swyddog e-Ddiogelwch* er mwyn iddo gael ei ymchwilio / weithredu.**
- **bod holl gyfathrebiadau digidol gyda disgyblion / rhieni / gofalwyr yn cael ei wneud ar lefel broffesiynol** ac wrth ddefnyddio systemau swyddogol yr ysgol yn unig
- bod materion e-Ddiogelwch yn cael eu mewnblannu i holl agweddau o'r cwricwlwm a gweithgareddau eraill
- bod y disgyblion yn deall ac yn dilyn y *cytundebau / polisïau* e-Ddiogelwch a defnydd derbyniol
- bod gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o sgiliau ymchwil a'r angen i osgoi llên-ladrad a chadw i reolau hawlfraint
- eu bod yn monitro'r defnydd o dechnolegau digidol, dyfeisiau symudol, camerâu ayb mewn gwersi a gweithgareddau eraill yr ysgol (ble caniateir) a gweithredu polisïau cyfoes sy'n ymwneud â'r dyfeisiau yma
- pan fydd gwersi sydd yn defnyddio'r rhyngrwyd wedi'u cynllunio cynt, dylai'r disgyblion gael eu cyfeirio at wefannau sydd wedi'u gwirio fel rhai addas i ddefnyddio a bod proses yno i ddelio gydag unrhyw ddeunydd anaddas sydd yn cael ei ddarganfod wrth chwilio'r we

### Person Diogelu Dynodedig

NODYN: Mae'n bwysig pwysleisio mai **materion diogelu** ydy'r rhain, nid materion technegol; mae'r dechnoleg yn darparu ffordd ychwanegol i faterion diogelu ddatblygu. Efallai bydd rhai ysgolion yn dewis cyfuno'r rôl o Swyddog Amddiffyn Plant / Swyddog Diogelu a Swyddog e-Ddiogelwch.

Dylai'r *Person Dynodedig Diogelu* cael ei hyfforddi ar faterion e-Ddiogelwch a bod yn ymwybodol o'r materion diogelu difrifol gallai godi o:

- rannu data personol (Atodia B2)
- mynediad i ddeunydd anghyfreithlon / amhriodol
- cyswllt amhriodol ar-lein gydag oedolion / dieithrion
- posib neu wir ddigwyddiadau o baratoi plant at bwrpas rhyw (grooming)


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

- seibr-fwlio

## Grŵp e-Ddiogelwch

Mae'r Grŵp e-Ddiogelwch yn darparu grŵp ymgynghorol sydd yn gynrychiolaeth eang o gymuned yr ysgol, gyda chyfrifoldeb dros faterion sy'n ymwneud â e-Ddiogelwch a monitro'r polisi e-Ddiogelwch gan gynnwys effaith cynlluniau. Yn ddibynnol ar faint neu strwythur yr ysgol gall y pwyllgor yma fod yn rhan o'r grŵp diogelu. Bydd y grŵp hefyd yn gyfrifol am adrodd rheolaidd i'r Corff Llywodraethu.

Bydd aelodau'r Grŵp e-Ddiogelwch yn cynorthwyo gyda:

- cynhyrchu / adolygu / monitro polisi / dogfennau e-Ddiogelwch yr ysgol
- mapio ac adolygu'r ddarpariaeth cwricwlwm e-Ddiogelwch - yn sicrhau perthnasedd, ehangder a dilyniant
- monitro'r rhwydwaith / rhyngrwyd / logiau digwyddiadau lle'n bosib
- ymgynghori â'r rhanddeiliaid - gan gynnwys rhieni / gofalwyr a'r myfyrwyr / disgyblion, am y ddarpariaeth e-Ddiogelwch
- monitro gweithrediadau gwelliant sydd yn cael eu hadnabod trwy ddefnyddio'r teclyn hunan adolygu 360 degree safe Cymru

Gall ddarganfod Templed Cylch Gorchwyl Grŵp e-Ddiogelwch yn yr atodiadau (B4)

## Myfyrwyr / disgyblion:

- **yn gyfrifol am ddefnyddio systemau technoleg ddigidol yr ysgol yn unol â'r Cytundeb Defnydd Derbyniol Myfyriwr / Disgybl**
- efo dealltwriaeth dda o sgiliau ymchwil a'r angen i osgoi llên-ladrad a chadw at reolau hawlfraint
- angen deall y pwysigrwydd o adrodd camdriniaeth, camddefnydd neu fynediad i ddeunydd amhriodol ac yn gwybod sut i wneud hynny
- disgwylir eu bod yn gwybod ac yn deall polisïau ar y defnydd o ddyfeisiau symudol a chamerâu digidol. Dylent hefyd fod yn ymwybodol ac yn deall polisïau am gymryd / defnyddio delweddau ac seibr-fwlio
- dylai fod dealltwriaeth o'r pwysigrwydd o fabwysiadu ymarfer e-Ddiogelwch dda wrth ddefnyddio technolegau digidol y tu allan i'r ysgol a sylweddoli bod Polisi e-Ddiogelwch yr ysgol yn berthnasol y tu allan i'r ysgol, os yw'n ymwneud â'u haelodaeth o'r ysgol

## Rheini / Gofalwyr

Mae rhieni / gofalwyr yn chwarae rhan hanfodol mewn sicrhau bod plant yn deall yr angen i ddefnyddio'r rhyngrwyd / dyfeisiau symudol mewn ffordd briodol. Bydd yr ysgol yn cymryd pob cyfle i helpu rhieni i ddeall y materion yma gyda nosweithiau rhieni, cylchlythyrau, gwefannau / RhAD a gwybodaeth am ymgyrchoedd / llenyddiaeth e-Ddiogelwch cenedlaethol / lleol. Bydd anogaeth i rieni a gofalwyr gefnogi'r ysgol i hyrwyddo ymarfer e-Ddiogelwch da ac i ddilyn canllawiau ar y defnydd priodol o:

- ddelweddau digidol a fideo wedi'u tynnu mewn digwyddiadau'r ysgol
- mynediad i adrannau rhieni'r wefan / RhAD a chofnodion ar-lein myfyriwr / disgybl
- dyfeisiau personol eu plant yn yr ysgol (ble caniateir hyn)

## Defnyddwyr Cymunedol

Bydd disgwyl i Ddefnyddwyr Cymunedol sydd yn cael mynediad i systemau / gwefan / RhAD yr ysgol fel rhan o ddarpariaeth ehangach yr ysgol, arwyddo Cytundeb Defnydd Derbyniol Defnyddiwr Cymunedol cyn cael mynediad i systemau'r ysgol.

# Datganiadau Polisi

## Addysg - myfyrwyr / disgyblion

Tra bod rheoliad ac atebion technegol yn bwysig iawn, mae'n rhaid cydbwyso'r defnydd ohonynt gydag addysgu myfyrwyr / disgyblion i ddefnyddio dull cyfrifol. Felly mae addysgu myfyrwyr / disgyblion mewn e-Ddiogelwch yn rhan hanfodol o ddarpariaeth e-Ddiogelwch yr ysgol. Mae plant a phobl ifanc angen cymorth a chefnogaeth yr ysgol i adnabod ac osgoi risgiau e-Ddiogelwch a chynyddu gwydnwch.


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

**Dylai e-Ddiogelwch fod yn ganolbwynt ymhob ardal o'r cwricwlwm a dylai staff atgyfnerthu'r negeseuon e-Ddiogelwch ar draws y cwricwlwm. Dylai'r cwricwlwm e-Ddiogelwch fod yn llydan, yn berthnasol ac yn darparu dilyniant, gyda chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau creadigol fydd yn cael ei ddarparu yn y ffyrdd canlynol:**

- **Dylai darparu cwricwlwm e-Ddiogelwch cynlluniedig fel rhan o wersi Cyfrifiaduro / ABCh / Llythrennedd Digidol neu wersi eraill a dylai ailymweld â rhain yn aml**
- **Dylai atgyfnerthu negeseuon e-Ddiogelwch allweddol fel rhan o raglen gynlluniedig o wasanaethau boreol a gweithgareddau tiwtorial / bugeiliol**
- **Ymhob gwers, dylai dysgu myfyrwyr / disgyblion i fod yn ymwybodol iawn o'r deunydd / cynnwys maent yn cael mynediad iddo ar-lein a'u hannog i ddilysu cywirdeb gwybodaeth**
- **Dylai dysgu pob myfyriwr / disgybl i gydnabod ffynhonnell y wybodaeth defnyddir ac i barchu hawlfraint wrth ddefnyddio deunydd sydd wedi'i gyrchu ar-lein**
- Dylai helpu myfyrwyr / disgyblion i ddeall yr angen am Gytundeb Defnydd Derbyniol Myfyriwr / Disgybl a'u hannog i fabwysiadu defnydd diogel a chyfrifol yn yr ysgol, a'r tu allan.
- Dylai staff ymddwyn fel delfryd ymddwyn dda yn eu defnydd o dechnolegau digidol, y rhyngrwyd a dyfeisiau symudol
- Pan fydd gwersi sydd yn defnyddio'r rhyngrwyd wedi'u cynllunio cynt, fel ymarfer gorau dylai myfyrwyr / disgyblion gel eu cyfeirio at wefannau sydd wedi'u gwirio fel eu bod yn addas i'w defnyddio a bod proses yno i ddelio gydag unrhyw ddeunydd anaddas sydd yn cael ei ddarganfod wrth chwilio'r we

## Addysg - rhieni / gofalwyr

Dim ond dealltwriaeth cyfyng iawn o risgiau a materion e-Ddiogelwch sydd gan lawer o rieni a gofalwyr, ond maent yn chwarae rhan hanfodol yn addysg eu plant a'r monitro / rheoliad o ymddygiad ar-lein eu plant. Efallai bydd rhieni yn amcangyfrif yn rhy isel pa mor aml mae plant a phobl ifanc yn dod ar draws deunydd amhriodol gallai fod yn niweidiol ar-lein, ac efallai ddim yn siŵr sut i ymateb.

Felly bydd yr ysgol yn chwilio i ddarparu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth i rieni a gofalwyr trwy:

- Gweithgareddau cwricwlwm
- Llythyrau, cylchlythyrau, gwefan, RhAD
- Nosweithiau / sesiynau rhieni / gofalwyr
- Digwyddiadau / ymgyrchoedd amlwg ee Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel
- Cyfeirio at y gwefannau / cyhoeddiadau perthnasol ee https://hwb.wales.gov.uk/ http://www.saferinternet.org.uk/ http://www.childnet.com/parents-and-carers

## Addysg - Y Gymuned Ehangach

Bydd yr ysgol yn darparu cyfleoedd i grwpiau cymunedol lleol / aelodau o'r gymuned i elwa o wybodaeth a phrofiad e-Ddiogelwch yr ysgol. Gall hyn gael ei gynnig trwy:

- Ddarparu cyrsiau i deuluoedd i ddysgu defnyddio technolegau digidol newydd, llythrennedd digidol ac e-Ddiogelwch (I’w ddatblygu gyda’r clwb digidol)
- Bydd RhAD / gwefan yr ysgol yn darparu gwybodaeth e-Ddiogelwch i'r gymuned ehangach
- Cefnogi grwpiau cymunedol ee Gosodiad Blynyddoedd Cynnar, gwarchodwyr plant, grwpiau ieuenctid / chwaraeon / gwirfoddol i ehangu darpariaeth e-Ddiogelwch (efallai'n cefnogi'r grŵp i ddefnyddio Online Compass, teclyn hunan adolygu diogelwch ar-lein - http://www.onlinecompass.org.uk)

## Addysg a Hyfforddiant - Staff / Gwirfoddolwyr

Mae'n hanfodol bod holl staff yn derbyn hyfforddiant e-Ddiogelwch ac yn deall eu cyfrifoldebau, fel amlinellir yn y polisi yma. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig fel hyn:

- **Bydd hyfforddiant cynlluniedig o hyfforddiant e-Ddiogelwch ffurfiol ar gael i staff. Bydd hwn yn cael ei ddiweddaru a'i atgyfnerthu'n rheolaidd. Bydd archwiliad o anghenion hyfforddiant e-Ddiogelwch holl staff yn cael ei gyflawni'n rheolaidd.**
- **Dylai holl staff newydd dderbyn hyfforddiant e-Ddiogelwch fel rhan o'r rhaglen anwythiad, yn sicrhau eu bod yn deall polisi e-Ddiogelwch a Chytundebau Defnydd Derbyniol yr ysgol yn llawn.**


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

- Bydd y Cydlynydd / Swyddog e-Ddiogelwch (neu berson penodedig arall) yn derbyn diweddariadau rheolaidd wrth fod yn bresennol mewn digwyddiadau hyfforddiant allanol (ee Consortiwm / SWGfL / ALI / sefydliadau perthnasol eraill) ac wrth adolygu dogfennau arweiniad gan sefydliadau perthnasol.
- Bydd y polisi e-Ddiogelwch a'i ddiweddariadau yn cael ei gyflwyno i, a'i drafod gan, staff mewn cyfarfodydd staff / tîm neu ddiwrnodau HMS.
- Bydd y Cydlynydd / Swyddog e-Ddiogelwch (neu berson penodedig arall) yn darparu cyngor / arweiniad / hyfforddiant i unigolion fel sydd angen.

### Hyfforddiant - Llywodraethwyr

**Dylai llywodraethwyr gymryd rhan mewn hyfforddiant / sesiynau ymwybyddiaeth e-Ddiogelwch,** gyda phwysigrwydd penodol i'r rhai sydd yn aelodau o unrhyw is-bwyllgor / grŵp sy'n ymglymedig â thechnoleg / e-Ddiogelwch / iechyd a diogelwch / diogelu. Gall hyn gael ei gynnig mewn sawl ffordd:

- Presenoldeb mewn hyfforddiant darparir gan yr Awdurdod Lleol / Cymdeithas Llywodraethwyr Cenedlaethol / neu sefydliad perthnasol arall (ee SWGfL).
- Cyfranogiad mewn sesiynau hyfforddiant / gwybodaeth ysgol i staff neu rieni

## Technegol - isadeiledd / offer, hidlo a monitro

Os oes gan yr ysgol wasanaeth TGCh wedi'i reoli yn cael ei ddarparu gan gontractwr allanol, cyfrifoldeb yr ysgol ydy sicrhau bod y darparwr gwasanaeth rheoledig yn cyflawni'r holl fesuriadau e-Ddiogelwch fydda, fel arall, yn gyfrifoldeb yr ysgol, fel awgrymir isod. Mae hefyd yn bwysig bod y darparwr gwasanaeth rheoledig yn gwbl ymwybodol o Bolisi e-Ddiogelwch / Cytundebau Defnydd Derbyniol yr ysgol. Dylai'r ysgol hefyd wirio polisïau Awdurdod Lleol / corff perthnasol arall ar y materion technegol yma os nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod.

Bydd yr ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod isadeiledd / rhwydwaith yr ysgol mor ddiogel ag sy'n rhesymol bosib a bod y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n cael eu cymeradwyo yn y polisi yma yn cael eu gweithredu. Bydd angen sicrhau hefyd bod y bobl berthnasol a enwir yn yr adrannau uchod yn effeithiol wrth gyflawni'u cyfrifoldebau e-Ddiogelwch:

- **Bydd systemau technegol ysgolion yn cael ei reoli mewn ffyrdd sydd yn sicrhau bod yr ysgol yn cyfarfod gofynion technegol argymelledig**
- **Bydd adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd o ddiogelwch systemau technegol yr ysgol.**
- **Mae'n rhaid i weinyddwyr, systemau diwifr a cheblau gael eu lleoli'n ddiogel a chyfyngiad ar fynediad corfforol.**
- **Bydd yr holl ddefnyddwyr efo hawliau mynediad i systemau a dyfeisiau technegol ysgol sydd wedi'u diffinio'n glir.**
- **Bydd holl ddefnyddwyr yn cael enw defnyddiwr a chyfrinair diogel gan** yr athro **fydd yn cadw cofnod cyfoes o ddefnyddwyr a'u henwau defnyddwyr. Mae defnyddwyr yn gyfrifol am ddiogelwch eu henw defnyddiwr a'u cyfrinair a bydd angen iddynt newid eu cyfrinair pob blwyddyn**
- **Bydd yn rhaid i'r "prif" gyfrineiriau, neu gyfrineiriau "gweinyddwr", defnyddir gan Reolwr y Rhwydwaith (neu berson arall) ar gyfer system TGCh yr ysgol, fod ar gael i'r Pennaeth neu uwch arweinydd penodedig arall hefyd a chael ei gadw mewn lleoliad diogel (ee sêff yr ysgol)**
- **Mae** EF **yn gyfrifol am sicrhau bod logiau trwydded meddalwedd yn gywir ac yn gyfoes a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu gwneud i ailgymodi'r nifer o drwyddedi wedi'u prynu yn erbyn y nifer o osodiadau meddalwedd**
- **Mae mynediad i'r rhyngrwyd yn cael ei hidlo i holl ddefnyddwyr.** Mae cynnwys anghyfreithlon (delweddau camdriniaeth rywiol plant) yn cael ei hidlo gan y darparwr band eang neu hidlo gan ddefnyddio rhestr CAIC yr Internet Watch Foundation. Mae'r rhestrau cynnwys yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac mae defnydd o'r rhyngrwyd yn cael ei logio a'i fonitro'n rheolaidd. Mae yna broses clir yn cael ei weithredu i ddelio â cheisiadau am newidiadau hidlo
- Mae'r ysgol wedi (os yn bosib) darparu hidlo lefel-defnyddiwr uwch / gwahaniaethol
- Ble'n bosib, mae staff technegol ysgol yn monitro ac yn cofnodi gweithgaredd defnyddwyr ar systemau technegol yr ysgol yn rheolaidd ac mae defnyddwyr yn cael gwybod am hyn yn y Cytundeb Defnydd Derbyniol


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

- Mae system briodol wedi'i sefydlu i ddefnyddwyr adrodd unrhyw wir / posib ddigwyddiad technegol / tor-diogelwch i'r person perthnasol, fel cytunwyd.
- Mae mesuriadau diogelwch wedi'u sefydlu i amddiffyn y gweinyddwyr, muriau gwarchod, llwybryddion, systemau diwifr, gweithfannau, dyfeisiau symudol ayb oddi wrth geisiadau damweiniol neu faleisus gallai fygwth diogelwch systemau a data'r ysgol. Mae'r rhain yn cael eu profi yn rheolaidd. Mae isadeiledd a gweithfannau unigol yr ysgol yn cael eu hamddiffyn gan feddalwedd firws cyfoes.
- Mae polisi wedi'i gytuno yn weithredol ar gyfer darpariaeth mynediad dros dro i "westai" (ee athrawon dan hyfforddiant, athrawon llanw, ymwelwyr) ar systemau'r ysgol.
- Mae polisi wedi'i gytuno yn weithredol yn ymwneud â faint o ddefnydd personol mae defnyddwyr (staff / myfyrwyr / disgyblion / defnyddwyr cymunedol) ac aelodau'r teulu yn ei gael ar ddyfeisiau'r ysgol gall eu defnyddio y tu allan i'r ysgol.
- Mae polisi cytunedig yn weithredol sydd yn caniatáu staff i / yn gwahardd staff rhag lawrlwytho ffeiliau gweithredadwy a gosod rhaglenni ar ddyfeisiau'r ysgol.
- Mae polisi cytunedig yn weithredol yn ymwneud â'r defnydd o gyfryngau symudadwy (ee cof bach / CDs / DVDs) gan ddefnyddwyr ar ddyfeisiau'r ysgol. Nid oes posib gyrru data personol dros y rhyngrwyd na'i dynnu oddi ar wefan yr ysgol os nad yw wedi'i amgryptio'n ddiogel neu wedi'i ddiogelu mewn ffordd arall.

## Dewch â'ch dyfais eich hun (BYOD)

Mae'r cyfleoedd addysgiadol cynigir gan dechnolegau symudol yn cael eu hehangu wrth i amrywiaeth eang o ddyfeisiau, meddalwedd a gwasanaethau ar-lein ymddangos ar gyfer addysgu a dysgu, o fewn a thu hwnt i'r dosbarth. Mae hyn wedi arwain at ysgolion yn archwilio defnyddwyr yn dod â thechnolegau eu hunain er mwyn darparu mwy o ryddid dewis a defnyddioldeb. Ond, mae yna nifer o ystyriaethau e-Ddiogelwch BYOD sydd angen eu hadolygu cyn gweithredu'r fath bolisi. Dylai'r defnydd o BYOD ddim cyflwyno gwendidau i mewn i amgylcheddau diogel presennol.

Gall dyfais fod yn ffôn clyfar, tabled, chyfrifiadur nodiadur / gliniadur neu dechnoleg newydd arall sy'n eiddo preifat, sydd fel arfer efo'r gallu i ddefnyddio rhwydwaith diwifr yr ysgol. Mae'r ddyfais wedyn efo mynediad i'r rhyngrwyd ehangach gan gynnwys llwyfan dysgu'r ysgol (Hwb+) a gwasanaethau yn y cwmwl fel e-bost a storfa data. Gall dyfeisiau hefyd, yn arferol, cael eu defnyddio i gymryd delweddau, recordio synau neu fideo a chynhyrchu a chadw amrywiaeth eang o fathau eraill o ddata (yn aml wrth ddefnyddio app).

Gyda BYOD y peth allweddol ydy bod myfyrwyr, staff a chymuned ehangach yr ysgol yn deall mai prif bwrpas cael eu dyfais bersonol yn yr ysgol yw addysg, ac mae hyn ar wahân i'r ffaith bod y ddyfais yn berchen i'r ysgol neu beidio. Felly mae'r ddealltwriaeth yma yn tanategu confensiwn pellach yn ymwneud â'r defnydd derbyniol o'r dyfeisiau a'r rhwydwaith ehangach.

### Buddion Posib BYOD

Mae ymchwil yn amlygu'r mewnlifiad eang o ddyfeisiau symudol, diwifr, electroneg ymysg oedolion a phlant o bob oedran. Mae'r dechnoleg yma yn bodoli fel rhan o'u bywyd digidol bob dydd ac wrth ganiatáu iddynt ddefnyddio'r dyfeisiau yma yn rhydd yn yr ysgol, mae'r ysgol yn cyflwyno'r bywyd digidol cyfarwydd i mewn i ddosbarth yr ysgol. Ni fydd yn rhaid i ddysgwyr 'gau i lawr' pan fyddant yn cerdded drwy ddrysau'r ysgol a byddant yn gallu cysylltu â bod yn berchen ar eu dysgu yn fwy effeithiol. Mae posib gall BYOD uchafu'r buddsoddiad enfawr sydd wedi cael ei wneud i rwydwaith mewnol ysgolion a chaniatáu cyfleoedd gwell i gysylltu gyda thechnolegau dysgu.

### Ystyriaeth

Mae angen i ysgolion fod yn ymwybodol nad yw mynediad i'r fath ddyfeisiau yn hollbresennol eto, a bod angen i unrhyw weithredu BYOD gyfeirio at faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb mynediad i holl ddysgwyr.

Mae BYOD yn cyflwyno gwir fuddiannau a heriau ar gyfer cymuned lawn yr ysgol - gan gynnwys athrawon - a'r unig ffordd effeithiol i ysgol allu gweithredu BYOD yn llwyddiannus ydy i gynnwys y gymuned ysgol gyfan o'r cychwyn cyntaf. Cyn i'r ysgol gychwyn ar y llwybr hwn, mae angen adnabod yn glir y risgiau a'r buddiannau a'u rhannu gyda holl rhanddeiliaid.

Mae'n rhaid i'r ysgol ddatblygu Cytundeb Defnydd Derbyniol newydd ar y lleiaf, wedi'i gryfhau i staff, myfyrwyr a rhieni/gofalwyr (gellir darganfod templedi datganiadau polisi isod), a bydd angen cefnogi staff addysgu, dysgwyr a rhieni trwy'r newid dull yma.


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

Mae egwyddor hanfodol defnydd diogel a chyfrifol o'r rhyngrwyd a thechnolegau dysgu yn eistedd gyda'r ddealltwriaeth bod y dechnoleg hon yn cael ei ganiatáu ar gyfer pwrpas addysgiadol yn y lle cyntaf. Dylai diogelwch ar-lein fod yn rhan o raglenni ymwybyddiaeth e-Ddiogelwch a dogfennaeth Defnydd Derbyniol presennol yr ysgol yn barod.

Dylai'r polisi BYOD eistedd ochr yn ochr ag amrywiaeth o bolisïau gan gynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i, y Polisi Diogelu, Polisi Bwlio, Polisi Defnydd Derbyniol (o'r rhyngrwyd), polisïau yn ymwneud â lladrad neu niwed maleisus a'r Polisi Ymddygiad.

Yn eu hadroddiad ar 'TGCh yng nghyfnod allweddol 3: Effaith TGCh ar ddysgu disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 mewn ysgolion uwchradd' (Gorffennaf 2014) mae Estyn wedi dynodi Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre ym Merthyr Tudful fel astudiaeth achos BYOD.

Yn yr ysgol, mae yna reolau clir am bryd gellir defnyddio dyfeisiau symudol yn ystod gwersi:

- **Coch –** nid oes caniatâd i ddefnyddio dyfeisiau symudol yn ystod y wers yma;
- **Ambr –** gellir defnyddio dyfeisiau symudol yn ystod y wers yma ond mae'n rhaid iddynt aros ym mag y dysgwr nes bydd yr athro yn caniatáu eu defnydd; ac
- **Gwyrdd** – gall dynnu dyfeisiau symudol allan a'u gosod ar y ddesg.

Efallai bydd y rheolau ymarferol dilynol yn rhywbeth hoffech ei ddatblygu ymhellach os oes caniatâd i osod dyfeisiau symudol ar y ddesg:

- Mae'n rhaid gallu gweld y sgrin drwy'r adeg h.y. wyneb i fyny ar y ddesg.
- Mae'n rhaid caniatáu i athrawon ac/neu fyfyrwyr gael gweld dyfais unrhyw fyfyriwr.
- Nid all cymryd lluniau nac fideos heb awdurdodiad yr athro.
- Bydd unrhyw doriad o'r ffydd sydd yn cael ei roi ar y myfyrwyr yn cael ei drin yn ôl y sancsiynau nodwyd mewn 'Polisi Defnydd Cyfrifol' (PDC) - fydd, mewn ymarfer da, wedi cael ei ddylunio gydag ymglymiad y myfyrwyr / disgyblion neu grŵp e-Ddiogelwch yr ysgol.

## Defnydd delweddau digidol a fideo

Mae'r datblygiad o dechnolegau delweddu digidol wedi creu buddion sylweddol i ddysgu, yn caniatáu i staff a myfyrwyr / disgyblion gael defnydd cyflym o ddelweddau maent wedi recordio eu hunain neu wedi lawrlwytho o'r rhyngrwyd. Ond, mae angen i staff, rhieni / gofalwyr a myfyrwyr / disgyblion fod yn ymwybodol o'r peryglon sy'n gysylltiedig â chyhoeddi delweddau digidol ar y rhyngrwyd. Gall y fath ddelweddau ddarparu cyfleoedd i seibrfwlio ddigwydd. Gall delweddau digidol aros ar y rhyngrwyd am byth a gallant achosi niwed neu gywilydd i unigolion yn y byrdymor neu'r hirdymor. Mae'n gyffredin i gyflogwyr gynnal chwiliadau ar y rhyngrwyd am wybodaeth am gyflogwyr posib neu bresennol. Bydd yr ysgol yn hysbysu ac yn addysgu defnyddwyr am y peryglon yma ac yn gweithredu polisïau i leihau'r tebygrwydd o botensial o niwed:

- **Wrth ddefnyddio delweddau digidol, dylai staff hysbysu ac addysgu myfyrwyr / disgyblion am y peryglon sy'n gysylltiedig â thynnu, defnyddio, rhannu, cyhoeddi a dosbarthu delweddau. Yn benodol, dylent adnabod y peryglon sydd yn gysylltiedig â chyhoeddi delweddau eu hunain ar y rhyngrwyd ee ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol.**
- Mewn cytundeb ag arweiniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae croeso i rieni / gofalwyr i gymryd fideos a delweddau digidol o'u plant mewn digwyddiadau'r ysgol ar gyfer defnydd personol (gan nad yw'r fath ddefnydd yn cael ei grybwyll yn y Ddeddf Amddiffyn Data). I barchu preifatrwydd pawb, ac mewn rhai achosion i ddiogelu, ni ddylai cyhoeddi / eu gwneud yn gyhoeddus ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol, a ni ddylai rhieni / gofalwyr wneud sylwad ar unrhyw weithgareddau sy'n cynnwys myfyrwyr / disgyblion eraill yn y delweddau digidol / fideo.
- Mae caniatâd i staff a gwirfoddolwyr i dynnu lluniau digidol / fideo i gefnogi nod addysgiadol, ond rhaid dilyn polisïau'r ysgol yn ymwneud â rhannu, dosbarthu a chyhoeddi'r delweddau yna. Dim ond ar offer yr ysgol dylid tynnu'r delweddau yma, ni ddylid defnyddio offer personol staff i'r fath bwrpas.
- Dylid cymryd gofal wrth dynnu delweddau digidol / fideo bod myfyrwyr / disgyblion wedi'u gwisgo'n addas a ddim yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gall ddwyn anfri ar unigolyn neu'r ysgol.
- Ni ddylai myfyrwyr / disgyblion dynnu, defnyddio, rhannu, cyhoeddi nac dosbarthu delweddau o eraill heb ganiatâd.

- Bydd lluniau sy'n cynnwys myfyrwyr / disgyblion, sy'n cael eu cyhoeddi ar y wefan, neu mewn man arall yn cael eu dewis yn ofalus ac yn cydymffurfio ag arweiniad ymarfer da ar y defnydd o'r fath ddelweddau.
- Ni ddefnyddir enwau llawn myfyrwyr / disgyblion ar wefan nac blog, yn enwedig wedi'i gysylltu i luniau.
- Bydd caniatâd ysgrifenedig gan rieni yn cael ei sicrhau cyn i luniau'r myfyrwyr / disgyblion gael eu cyhoeddi ar wefan yr ysgol
- Dim ond gyda chaniatâd y myfyriwr / disgybl a rhieni neu ofalwyr gall cyhoeddi gwaith myfyriwr / disgybl.

## Amddiffyniad Data

Bydd data personol yn cael ei gofnodi, ei brosesu, ei drosglwyddo ac ar gael yn ôl y Ddeddf Amddiffyn Data 1998 sydd yn datgan bod rhaid i ddata personol:

- Cael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithiol
- Cael ei brosesu ar gyfer pwrpas cyfyngedig
- Bod yn ddigonol, yn berthnasol a ddim yn ormodol
- Bod yn gywir
- Peidio cael ei gadw am hirach nag sydd angen
- Cael ei brosesu mewn cytundeb â hawliau'r pwnc data
- Bod yn ddiogel
- Dim ond i gael ei drosglwyddo i eraill sydd ag amddiffyniad digonol.

**Mae'n rhaid i'r ysgol sicrhau:**

- **Ei fod yn cadw'r isafswm lleiaf o ddata personol sydd ei angen i gyflawni'r swyddogaeth orau ac i beidio cadw 'r data yn hirach nag sydd angen ar gyfer y pwrpas cafodd ei gasglu**
- **Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod data sy'n cael ei gadw yn gywir, yn gyfoes a bod unrhyw anghywirdeb yn cael ei gywiro heb oedi diangen.**
- **Bydd dod o hyd i ddata personol yn cael ei wneud yn deg ac mewn cytundeb â'r "Rhybudd Preifatrwydd" ac yn cael ei brosesu yn gyfreithiol mewn cytundeb â'r "Amodau ar gyfer Prosesu".**
- **Bod ganddo Bolisi Amddiffyn Data**
- **Ei fod wedi cofrestru fel Rheolwr Data ar gyfer pwrpas y Ddeddf Amddiffyn Data**
- Bod personau cyfrifol yn cael eu penodi / adnabod - Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth a Pherchnogion Ased Gwybodaeth
- Bod asesiadau risg yn cael eu cyflawni
- Bod ganddo drefniadau clir a dealladwy ar gyfer diogelwch, cadw a throsglwyddo data personol
- Bod gan destun data hawl mynediad a bod gweithdrefn glir er mwyn cael hyn
- Bod yna bolisïau clir a dealladwy a llwybrau ar gyfer dileu a gwaredu data
- Bod yna bolisi ar gyfer adrodd, cofnodi, rheoli ac adfer digwyddiadau risg gwybodaeth
- Bod yna gymal Amddiffyn Data clir ymhob cytundeb ble gall data personol gael ei basio i drydydd parti.
- Bod polisïau clir am y defnydd o storfa cwmwl / cyfrifiaduro cwmwl sydd yn sicrhau bod cadw data yn y ffordd yma yn cyfarfod gofynion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Mae angen i staff sicrhau eu bod nhw'n:**

- **Cymryd gofal i sicrhau cadw diogel o ddata personol trwy'r adeg, yn lleihau'r risg o'i golli neu ei gamddefnyddio.**
- **Defnyddio data personol ar gyfrifiaduron a dyfeisiau eraill diogel sydd wedi'u hamddiffyn gan gyfrinair yn unig, yn sicrhau eu bod wedi "allgofnodi" ar ddiwedd unrhyw sesiwn ble maent yn defnyddio data personol.**
- **Trosglwyddo data gan ddefnyddio amgryptio a dyfeisiau sydd wedi'u hamddiffyn gyda chyfrinair diogel.**

Pan fydd data personol yn cael ei gadw ar unrhyw system gyfrifiadurol gludadwy, cof bach neu unrhyw gyfryngau symudadwy arall:

- mae'n rhaid i'r data fod wedi'i amgryptio ac wedi'i amddiffyn gyda chyfrinair
- mae'n rhaid i'r ddyfais fod wedi'i amddiffyn gyda chyfrinair
- mae'n rhaid i'r ddyfais gynnig meddalwedd gwirio firws a maleiswedd sydd wedi'i gymeradwyo
- mae'n rhaid i'r data gael ei ddileu yn ddiogel oddi ar y ddyfais, yn unol â pholisi ysgol (isod) unwaith iddo gael ei drosglwyddo neu nad oes defnydd iddo bellach.

 © Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## Cyfathrebu

Mae cyfathrebu yn bwnc ble mae technolegau a'u defnydd yn datblygu'n sydyn iawn. Bydd angen i ysgolion drafod a chytuno sut maent yn bwriadu gweithredu a defnyddio'r technolegau yma ee mae rhai ysgolion yn caniatáu i fyfyrwyr / disgyblion i ddefnyddio ffonau symudol mewn gwersi, tra bod eraill yn adnabod potensial addysgiadol ac yn caniatáu eu defnydd. Gall yr adran hon gael ei dylanwadu gan oedran y myfyrwyr / disgyblion hefyd. Mae'r tabl wedi cael ei chadw'n wag i ysgolion ddewis ymateb eu hunain.

Mae amrywiaeth eang o dechnolegau cyfathrebu sydd yn datblygu'n sydyn iawn efo'r potensial i fwyhau dysgu. Mae'r tabl dilynol yn dangos sut mae'r ysgol yn ystyried os yw buddion defnyddio'r technolegau yma ar gyfer addysg yn gorbwyso'r risgiau / anfanteision.

| | Staff ac oedolion eraill | | | Myfyrwyr / Disgyblion | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Technolegau Cyfathrebu | Caniateir | Caniateir ar amseroedd | Caniateir i staff penodol | Ni chaniateir | Caniateir | Caniateir ar amseroedd penodol | Caniateir gyda chaniatâd staff | Ni chaniateir |
| Dod â ffonau symudol i'r ysgol | * | | | | | | | * |
| Defnyddio ffonau symudol mewn gwersi | | * | | | | | | * |
| Defnyddio ffonau symudol mewn cyfnodau cymdeithasol | * | | | | | | | * |
| Tynnu lluniau ar ffonau symudol / camerâu | | | | * | | | | * |
| Defnyddio dyfeisiau symudol eraill ee tabledi, dyfeisiau chwarae gemau | * | | | | | * | | |
| Defnyddio cyfeiriadau e-bost personol yn yr ysgol, neu ar rwydwaith yr ysgol | | | | * | | | | * |
| Defnyddio e-bost yr ysgol ar gyfer e-byst personol. | | | | * | | | | * |
| Defnyddio apiau negeseuo yn yr ysgol | | | | * | | | | * |
| Defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn yr ysgol. | | | | * | | | | * |
| Defnyddio blogiau yn yr ysgol | | | | * | | | | * |

Efallai bydd yr ysgol hefyd eisiau ychwanegu rhai o'r datganiadau polisi canlynol am y defnydd o dechnolegau cyfathrebu, yn lle, neu yn ychwanegol i'r tabl uchod:

Wrth ddefnyddio technolegau cyfathrebu mae'r ysgol yn ystyried y canlynol fel ymarfer da:

- **Gall gwasanaeth e-bost swyddogol yr ysgol gael ei ystyried yn ddiogel ac mae'n cael ei fonitro. Dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol bod cyfathrebiadau e-bost yn cael eu monitro.**


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

Felly dylai staff a myfyrwyr / disgyblion ddefnyddio gwasanaeth e-bost yr ysgol i gyfathrebu gydag eraill pan yn yr ysgol, neu ar systemau'r ysgol (ee drwy fynediad o bell) yn unig.

- **Dylai defnyddwyr adrodd i'r person enwebedig yn syth - mewn cytundeb â pholisi'r ysgol - os ydynt yn derbyn unrhyw gyfathrebiad sydd yn gwneud iddynt deimlo'n anghyffyrddus, os yw'n natur sarhaus, gwahaniaethol, bygythiol neu'n bwlio, ni ddylid ymateb i'r fath gyfathrebiad.**
- **Mae'n rhaid i unrhyw gyfathrebiad digidol rhwng staff a myfyrwyr / disgyblion neu rieni / gofalwyr (e-bost, sgwrsio, RhAD ayb) fod yn broffesiynol yn ei naws a'i gynnwys.** Dim ond ar systemau swyddogol yr ysgol (wedi'i fonitro) caniateir y cyfathrebiadau yma. Ni ddylid defnyddio cyfeiriadau e-bost personol, negeseuo testun na chyfryngau cymdeithasol ar gyfer y cyfathrebiadau yma.
- Gall ddefnyddio cyfeiriadau e-bost dosbarth / grŵp yn CA1, tra bydd myfyrwyr / disgyblion CA2 ac uwch yn cael cyfeiriadau e-bost ysgol unigol ar gyfer defnydd addysgiadol.
- Dylai dysgu myfyrwyr / disgyblion am faterion e-Ddiogelwch, fel y peryglon sydd yn gysylltiedig â rhannu manylion personol. Dylai dysgu strategaethau iddynt hefyd am sut i ddelio â chyfathrebiadau amhriodol a'u hatgoffa o'r angen i gyfathrebu yn briodol wrth ddefnyddio technolegau digidol.
- Ni ddylid postio gwybodaeth bersonol ar wefan yr ysgol a dim ond cyfeiriadau e-bost swyddogol dylid defnyddio i adnabod aelodau staff.

## Cyfryngau Cymdeithasol - Amddiffyn Hunaniaeth Broffesiynol

Gyda'r cynyddiad yn y defnydd o holl fathau o gyfryngau cymdeithasol i bwrpas proffesiynol a phersonol mae'n hanfodol cael polisi sydd yn gosod arweiniad clir i staff i reoli risg ac ymddygiad ar-lein. Dylai negeseuon craidd gynnwys amddiffyniad disgyblion, yr ysgol a'r unigolyn wrth gyhoeddi unrhyw ddeunydd ar-lein. Mae disgwyliadau ymddygiad proffesiynol yn cael eu gosod gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) ond mae angen i bob oedolyn sydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ddeall bod natur a chyfrifoldebau eu gwaith yn eu rhoi mewn safle o ffydd a dylai eu hymddygiad adlewyrchu hynny.

Mae gan holl ysgolion ac awdurdodau lleol ddyletswydd gofal i ddarparu amgylchedd dysgu diogel i ddisgyblion a staff. Gall ysgolion ac awdurdodau lleol cael eu dal yn gyfrifol, yn anuniongyrchol, am weithrediadau gweithwyr yn eu cyflogaeth. Gall aelodau staff sydd yn poeni, seibrfwlio, gwahaniaethu ar sail rhyw, hil neu anabledd, neu sydd yn difenwi trydydd parti, achosi'r ysgol neu'r awdurdod lleol i fod yn atebol i'r dioddefwr. Rhaid cael camau rhesymol mewn lle i atal niwed rhagfynegadwy. Mae disgwyl i holl staff sydd yn gweithio mewn unrhyw sefydliad addysgiadol fedru dangos dull proffesiynol a pharch tuag at ddisgyblion a'u teuluoedd ac i gyd-weithwyr a'r gosodiad dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu'r mesuriadau canlynol i sicrhau bod camau rhesymol mewn lle i leihau'r perygl o niwed i ddisgyblion, staff a'r ysgol wrth gyfyngu mynediad i wybodaeth bersonol:

- Hyfforddiant i gynnwys: defnydd derbyniol; peryglon cyfryngau cymdeithasol; gwirio gosodiadau; amddiffyn data; adrodd materion.
- Arweiniad adrodd clir, gan gynnwys cyfrifoldebau, trefn a sancsiynau
- Asesiad Risg, gan gynnwys risg cyfreithiol

Dylai staff ysgol sicrhau:

- Nad oes unrhyw gyfeiriad tuag at fyfyrwyr / disgyblion, rhieni / gofalwyr nac staff ysgol mewn cyfryngau cymdeithasol
- Nad ydynt yn cysylltu mewn trafodaeth ar-lein ar faterion personol yn ymwneud ag aelodau cymuned yr ysgol
- Nad yw barn bersonol yn cael ei briodoli i'r ysgol neu'r awdurdod lleol
- Bod gosodiadau diogelwch ar broffiliau cyfryngau cymdeithasol personol yn cael eu gwirio'n aml i leihau'r perygl o golli gwybodaeth bersonol

Bydd defnydd yr ysgol o gyfryngau cymdeithasol ar gyfer pwrpas proffesiynol yn cael ei wirio yn rheolaidd gan y uwch swyddog risg a'r pwyllgor e-Ddiogelwch i sicrhau cydymffurfiad â Pholisïau Cyfryngau Cymdeithasol. Amddiffyn Data, Cyfathrebu, Delwedd Ddigidol a Fideo.

## Gweithgareddau anaddas / amhriodol


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

Mae yna weithgareddau ar-lein sydd yn anghyfreithlon ee cyrchu delweddau camdriniaeth plant neu rannu deunydd hiliol ac yn amlwg bydd hyn yn cael ei wahardd o'r ysgol a phob system dechnegol arall. Bydd gweithgareddau eraill ee seibrfwlio yn cael ei wahardd a gallai arwain at erlyniad troseddol. Ond mae yna amrywiaeth o weithgareddau sydd efallai, yn gyfreithiol yn gyffredinol, ond fydda'n amhriodol mewn cyd-destun ysgol, oherwydd oedran y defnyddwyr neu natur y gweithgareddau yma.

Mae'r ysgol yn credu bydda'r gweithgareddau yn yr adran ganlynol yn amhriodol yng nghyd-destun yr ysgol ac na ddylai defnyddwyr, fel diffiniwyd isod, gymryd rhan yn y gweithgareddau yma yn yr ysgol nac y tu allan i'r ysgol wrth ddefnyddio offer neu systemau'r ysgol. Mae polisi'r ysgol yn cyfyngu defnydd fel y canlyn:

## Gweithrediadau Defnyddwyr

| | | Derbyniol | Derbyniol ar adegau penodol | Derbyniol i ddefnyddwyr enwebedig | Annerbyniol | Annerbyniol ac anghyfreithlon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ni fydd defnyddwyr yn ymweld â gwefannau, yn creu, postio, lawrlwytho, llwytho i fyny, trosglwyddo data, cyfathrebu na phasio, deunydd, cynigion nac sylwadau sydd yn cynnwys neu'n cysylltu i:** | Delweddau camdriniaeth rywiol plant - Creu, cynhyrchu neu ddosbarthu delweddau anweddus o blant. Yn groes i'r Ddeddf Amddiffyn Plant 1978 | | | | | X |
| | Paratoi (grooming), anogaeth, trefnu neu hwyluso gweithrediadau rhywiol yn erbyn plant. Yn groes i'r Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 | | | | | X |
| | Meddiannu ar ddelwedd bornograffig eithafol (hynod sarhaus, ffiaidd neu fel arall o gymeriad brwnt). Yn groes i'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 | | | | | X |
| | Deunydd hiliol troseddol yn y DU - i ysgogi casineb crefyddol (neu gasineb ar sail tueddfryd rhywiol) - yn groes i'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 | | | | | X |
| | Pornograffi | | | | X | |
| | Hyrwyddo unrhyw fath o wahaniaethu | | | | X | |
| | Ymddygiad bygythiol, gan gynnwys hyrwyddo trais corfforol neu niwed meddyliol | | | | X | |
| | Unrhyw wybodaeth arall gallai fod yn sarhaus i gyd-weithwyr neu'n torri cyfanrwydd ethos yr ysgol neu'n dwyn anfri ar yr ysgol. | | | | X | |
| Defnyddio systemau'r ysgol i redeg busnes preifat | | | | | X | |
| Defnyddio systemau, apiau, gwefannau neu fecanweithiau eraill sydd yn osgoi'r hidlo neu ddiogelu arall sydd yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgol | | | | | X | |
| Torri hawlfraint | | | | | X | |
| Amlygu neu gyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol neu berchnogol (ee gwybodaeth gyllidol / personol, cronfeydd data, codau mynediad a chyfrineiriau cyfrifiadur / rhwydwaith) | | | | | X | |
| Creu neu ledaenu firysau cyfrifiadurol neu ffeiliau niweidiol eraill | | | | | X | |
| Defnydd annheg (lawrlwytho / llwytho i fyny ffeiliau mawr sydd yn rhwystro eraill yn eu defnydd o'r rhyngrwyd) | | | | | X | |
| Chwarae gemau ar-lein (addysgiadol) | | X | | | | |
| Chwarae gemau ar-lein (ddim yn addysgiadol) | | | X | | | |
| Gamblo ar-lein | | | | | X | |
| Siopa ar-lein / masnach | | | | X | | |
| Rhannu ffeiliau | | X | | | | |


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Defnydd o gyfryngau cymdeithasol | | X | | | |
| Defnydd o apiau negeseuo | | | X | | |
| Defnydd o ddarlledu fideo ee YouTube | | X | | | |

(Bydd angen i'r ysgol gytuno ar atebion ei hun a gosod y ticiau yn y colofnau perthnasol. Efallai byddant hefyd eisiau ychwanegu testun ychwanegol i'r colofn(au) ar y chwith i loywi materion. Mae'r adran ddiwethaf o'r tabl wedi cael ei gadael yn wag i ysgolion benderfynu ymateb eu hunain)


## Ymateb i ddigwyddiadau o gamddefnydd

Bwriadir i'r arweiniad yma cael ei ddefnyddio pan fydd staff angen rheoli digwyddiadau sydd yn cynnwys y defnydd o wasanaethau ar-lein. Mae'n annog triniaeth ddiogel i reoli'r digwyddiad. Gall ddigwyddiadau gynnwys gweithgareddau anghyfreithlon neu anaddas (gweler "Gweithrediadau Defnyddwyr" uchod).

### Digwyddiadau  Anghyfreithlon

**Os oes unrhyw amheuaeth bod y gwefan(nau) dan sylw yn cynnwys delweddau camdriniaeth plant, neu os oes amheuaeth o unrhyw weithgaredd anghyfreithlon fel arall, cyfeiriwch at ochr dde'r Siart Llif (isoac atodiadau) ar gyfer ymatebiad i ddigwyddiadau diogelwch ar-lein ac adrodd i'r heddlu yn syth.**


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014





© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## Digwyddiadau Erail

Gobeithir bod holl aelodau cymuned yr ysgol yn ddefnyddwyr cyfrifol o dechnolegau digidol, fydd yn deall ac yn dilyn polisi'r ysgol. Ond, efallai bydd adegau pan fydd tor polisi yn digwydd, trwy gamddefnydd esgeulus, anghyfrifol ac, yn brin iawn, bwriadol.

**Mewn digwyddiad o amheuaeth, dylid dilyn yr holl gamau yn y weithdrefn hon:**

- Cael mwy nag un aelod uwch o staff / gwirfoddolwyr yn cymryd rhan yn y broses hon. Mae'n hanfodol i amddiffyn unigolion os yw cyhuddiadau yn cael eu hadrodd wedyn.
- Cynnal y weithdrefn gan ddefnyddio cyfrifiadur dynodedig fydd ddim yn cael ei ddefnyddio gan bobl ifanc ac, os oes angen, gall ei gymryd oddi ar y safle gan yr heddlu. Defnyddiwch yr un cyfrifiadur am gyfnod y weithdrefn.
- Mae'n bwysig sicrhau dylid staff perthnasol gael mynediad addas i'r rhyngrwyd i gynnal y weithdrefn, ond bod y gwefannau a'r cynnwys ymwelir â nhw yn cael eu monitro'n agos a'u cofnodi (i roi amddiffyniad pellach).
- Cofnodwch URL unrhyw wefan sydd yn cynnwys y camddefnydd honedig a disgrifio natur y cynnwys sydd yn achosi pryder. Efallai bydd yn rhaid cofnodi a chadw sgrin luniau o'r cynnwys ar y peiriant sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr ymchwiliad hefyd. Gall y rhain cael eu hargraffu, arwyddo a'u hatodi i'r ffurflen (ac eithrio achosion o ddelweddau camdriniaeth rywiol plentyn - gweler isod)
- Unwaith bydd hyn wedi'i gwblhau a'i archwilio'n llawn bydd angen i'r grŵp farnu os oes sylwedd i'r pryder yma neu beidio. Os oes, yna bydd angen gweithredu'n briodol a gall hyn gynnwys y canlynol:
- Ymateb mewnol neu weithdrefnau disgyblaeth
- Cyfranogiad gan yr Awdurdod Lleol neu sefydliad cenedlaethol / lleol (fel sy'n berthnasol).
- Cyfranogiad yr heddlu ac / neu weithrediad
- **Os yw cynnwys yn cael ei adolygu sydd yn cynnwys delweddau o gamdriniaeth Plentyn yna dylai stopio'r monitro a chyfeirio'r peth at yr Heddlu'n syth. Bydda enghreifftiau eraill i adrodd at yr heddlu yn cynnwys:**

    - digwyddiadau o ymddygiad 'paratoi' (grooming)
    - gyrru deunydd brwnt i blentyn
    - deunydd i oedolion sydd â'r potensial i dorri'r Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus
    - deunydd hiliol troseddol
    - ymddygiad, gweithgaredd neu ddeunydd troseddol fel arall

- **Ynysu'r cyfrifiadur dan sylw gorau bosib. Bydd unrhyw newid i'w gyflwr yn gallu niweidio ymchwiliadau hwyrach yr heddlu.**

Mae'n bwysig bod yr holl gamau uchod yn cael eu dilyn gan y byddant yn darparu llwybr tystiolaeth i'r ysgol ac efallai'r heddlu ac yn dangos bod ymweliadau i'r gwefannau yma wedi'u gwneud er pwrpas diogelu. Dylai'r grŵp gadw'r ffurflen wedi'i llenwi fel tystiolaeth ac er pwrpas cyfeirio.

## Gweithrediadau'r Ysgol

Mae'n fwy tebygol bydd yr ysgol angen delio â digwyddiadau sydd yn cynnwys camddefnydd amhriodol yn hytrach nag anghyfreithlon. Mae'n bwysig bod ymateb sydyn i unrhyw ddigwyddiadau mewn modd cyfatebol, a bod aelodau cymuned yr ysgol yn ymwybodol bod ymateb wedi bod i ddigwyddiadau. Y bwriad ydy bod ymdriniaeth i ddigwyddiadau o gamddefnydd yn cael ei wneud trwy weithdrefnau ymddygiad / disgyblaeth arferol fel canlyn:

 © Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## Myfyrwyr / Disgyblion **Gweithrediadau**

| Digwyddiadau: | Cyfeirio at athro / tiwtor dosbarth | Cyfeirio at Bennaeth Adran / Pennaeth Blwyddyn / arall | Cyfeirio at y Pennaeth | Cyfeirio at yr Heddlu | Cyfeirio at staff cefnogi technegol ar gyfer gweithrediad hidlo / diogelwch ayb | Hysbysu rhieni / gofalwyr | Tynnu hawliau mynediad i'r rhwydwaith / rhyngrwyd | Rhybudd | Cosb bellach ee cadw yn ôl / gwahardd o'r ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyrchu neu geisio cael mynediad i ddeunydd gall ei ystyried yn anghyfreithlon ar bwrpas (gweler y rhestr mewn adran gynharach ar weithgareddau anaddas / amhriodol).** | | X | X | X | | | | | |
| Defnydd o wefannau sydd ddim yn addysgiadol yn ystod gwersi heb awdurdod | X | | | | | | | | |
| Defnydd o ffonau symudol / camera digidol / dyfeisiau symudol eraill heb awdurdod | X | | | | | X | | | |
| Defnydd o gyfryngau cymdeithasol / apiau negeseuo / e-bost personol heb awdurdod | X | | | | X | | | | |
| Lawrlwytho neu lwytho ffeiliau i fyny heb awdurdod | X | | | | | | | | |
| Caniatáu eraill i gael mynediad i rwydwaith yr ysgol wrth rannu enw defnyddiwr a chyfrineiriau | | X | | | X | | | | |
| Ceisio, neu gael mynediad i rwydwaith yr ysgol gan ddefnyddio cyfrif myfyriwr / disgybl arall | X | | | | | | | | |
| Ceisio, neu gael mynediad i rwydwaith yr ysgol gan ddefnyddio cyfrif aelod o staff | X | X | | | X | X | | | X |
| Llygru neu ddinistrio data defnyddwyr eraill | X | | | | X | | | | X |
| Gyrru e-bost, testun neu neges sydd yn cael ei ystyried yn sarhaus, yn aflonyddu neu'n bwlio yn ei natur | X | X | X | | X | X | | | X |
| Torri parhaus o'r uchod, yn dilyn rhybuddion neu sancsiynau blaenorol | | | X | | X | X | | | X |
| Gweithrediadau gall ddwyn anfri ar yr ysgol neu dorri cyfanrwydd ethos yr ysgol. | | | X | | | X | | X | X |
| Defnyddio gwefannau procsi neu fodd arall i wyrdroi system hidlo'r ysgol | | | X | | X | X | X | X | |
| Cael mynediad i ddeunydd sarhaus neu bornograffig ar ddamwain a ddim yn adrodd y digwyddiad | | | X | X | X | X | X | | |
| Cael, neu geisio cael mynediad i ddeunydd sarhaus neu bornograffig | | | X | X | X | X | X | | |
| Derbyn neu drosglwyddo deunydd sydd yn torri hawlfraint person arall neu'n torri'r Ddeddf Amddiffyn Data | | | X | X | X | X | X | | |


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## Staff — Gweithrediadau

| Digwyddiadau: | Cyfeirio at y rheolwr | Cyfeirio at y Pennaeth | Cyfeirio at yr Awdurdod Lleol / Adnoddau Dynol | Cyfeirio at yr heddlu | Cyfeirio at Staff Cefnogi Technegol ar gyfer gweithrediad | Rhybudd | Gwaharddiad | Gweithred Ddisgyblaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyrchu neu geisio cael mynediad i ddeunydd gall ei ystyried yn anghyfreithlon yn bwrpasol (gweler y rhestr mewn adran gynharach ar weithgareddau anaddas / amhriodol).** | | X | X | X | | | | |
| Defnydd personol anaddas o'r rhyngrwyd / cyfryngau cymdeithasol / e-bost personol | | X | | | | | | |
| Lawrlwytho neu lwytho ffeiliau i fyny heb awdurdod | X | | | | | | | |
| Caniatáu eraill i gael mynediad i rwydwaith yr ysgol wrth rannu enw defnyddiwr a chyfrineiriau neu geisio, neu gael mynediad i rwydwaith yr ysgol gan ddefnyddio cyfrif person arall | X | X | | | X | | | |
| Defnydd anghyfrifol o ddata personol ee cadw neu drosglwyddo data mewn modd anniogel | X | X | | | X | X | | |
| Gweithrediadau bwriadol i dorri amddiffyniad data neu reolau diogelwch rhwydwaith | | X | X | | X | X | | |
| Llygru neu ddinistrio data defnyddwyr eraill neu achosi niwed bwriadol i galedwedd neu feddalwedd | | X | X | | X | X | | |
| Gyrru e-bost, testun neu neges sydd yn cael ei ystyried yn sarhaus, yn aflonyddu neu'n bwlio yn ei natur | | X | X | | | X | | |
| Defnyddio e-bost personol/ rhwydweithio cymdeithasol / negeseuo sydyn / negeseuo testun i gyfathrebu'n ddigidol gyda myfyrwyr / disgyblion | | X | X | | | X | | |
| Gweithrediadau gallai beryglu safle proffesiynol yr aelod staff | | X | X | | | X | | |
| Gweithrediadau gall ddwyn anfri ar yr ysgol neu dorri cyfanrwydd ethos yr ysgol. | | X | X | | | X | | |
| Defnyddio gwefannau procsi neu fodd arall i wyrdroi system hidlo'r ysgol | | X | X | | | X | | |
| Cael mynediad i ddeunydd sarhaus neu bornograffig ar ddamwain a ddim yn adrodd y digwyddiad | | X | | | | X | | |
| Cael, neu geisio cael mynediad i ddeunydd sarhaus neu bornograffig yn bwrpasol | | X | X | | | | X | X |
| Torri hawlfraint neu reolau trwyddedu | | X | | | | X | | |
| Torri parhaus o'r uchod, yn dilyn rhybuddion neu sancsiynau blaenorol | | X | X | | | | X | |


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## Atodiadau

Mae copïau mwy manwl o'r polisïau a chytundebau templed, sydd yn yr atodiadau, yn gallu cael ei lawrlwytho o:

https://hwb.wales.gov.uk

## Cydnabyddiaeth

Hoffai LIC a SWGfL gydnabod amrywiaeth o unigolion a sefydliadau ble mae eu polisïau, dogfennau, cyngor ac arweiniad wedi cyfrannu at ddatblygiad y Templed Polisi e-Ddiogelwch Ysgol yma a'r Teclyn Hunan Adolygu e-Ddiogelwch 360 degree safe Cymru:

- Aelodau Grŵp e-Ddiogelwch SWGfL
- Cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol y De Orllewin
- Cynrychiolwyr amrywiaeth o ysgolion Cymraeg sydd wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriadau a grwpiau peilot
- Diogelwch Ar-lein Prifysgol Plymouth
- NEN / Gridiau Band Llydan Rhanbarthol

SWGfL sy'n berchen ar hawlfraint y Polisïau Templed yma. Caniateir i ysgolion a sefydliadau addysgiadol eraill i ddefnyddio'r Polisïau Templed yma am ddim er mwyn adolygu a datblygu polisi. Dylai unrhyw berson neu sefydliad sydd eisiau defnyddio'r ddogfen i bwrpas arall ofyn am ganiatâd gan SWGfL (esafety@swgfl.org.uk) a chydnabod ei ddefnydd.

Mae pob ymdrech wedi cael ei wneud i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir, ar ddyddiad cyhoeddi Hydref 2014. Ond, nid all SWGfL warantu ei gywirdeb, nac yn derbyn cyfrifoldeb pan ddaw at ddefnyddio'r deunydd.

© SWGfL 2014

## Atodiadau – Adran A - Cytundeb Defnydd Derbyniol

- A1 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Myfyrwyr / Disgyblion (plant iau)
- A2 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Myfyrwyr / Disgyblion (plant hŷn)
- A3 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Staff a Gwirfoddolwyr
- A4 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Rhieni / Gofalwyr
- A5 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Defnyddwyr Cymunedol

## Atodiadau - Adran B - Polisïau Penodol

- B1 Templed Polisi Diogelwch Technegol Ysgol
- B2 Templed Polisi Data Personol Ysgol
- B3 Templed Polisi Dewch â'ch dyfais eich hun (BYOD)
- B4 Cylch Gorchwyl Pwyllgor e-Ddiogelwch Ysgol

## Atodiadau - Adran C - Dogfennau a Dolenni Cefnogol

- C1 Ymateb i ddigwyddiadau camddefnydd - siart llif
- C2 Cofnod o wefannau adolygu (ar gyfer camddefnydd o'r rhyngrwyd)
- C3 Templed Log Adrodd Ysgol
- C4 Templed Archwiliad Anghenion Hyfforddiant Ysgol
- C5 Crynodeb o Ddeddfwriaeth
- C6 Office 365 - manylion pellach
- C7 Cysylltiadau i sefydliadau a dogfennau eraill
- C8 Rhestr termau


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## A1 Templed Polisi Defnydd Derbyniol Myfyrwyr / Disgyblion – ar gyfer disgyblion iau (Sylfaen / CA1)

### ma sut byddwn yn cadw'n ddiogel pan fyddwn yn defnyddio cyfrifiaduron:

Byddaf yn gofyn i athro neu oedolyn arall o’r ysgol os byddaf yn dymuno defnyddio’r cyfrifiaduron.

Byddaf yn defnyddio gweithgareddau y mae athro neu oedolyn arall o’r ysgol wedi dweud wrthyf amdanynt neu wedi rhoi caniatâd i mi eu defnyddio yn unig.

Byddaf yn gofalu am y cyfrifiadur ac offer arall.

Byddaf yn gofyn am help gan athro neu oedolyn arall yn yr ysgol os na fyddaf yn sicr beth ddylwn ei wneud neu os byddaf yn meddwl fy mod wedi gwneud rhywbeth anghywir.

Byddaf yn dweud wrth athro neu oedolyn arall o’r ysgol os byddaf yn gweld rhywbeth sy’n fy ngofidio ar y sgrin.

Rwy’n gwybod efallai na chaf ddefnyddio cyfrifiadur os byddaf yn torri'r rheolau.

Llofnod (plentyn):……………………………………………

Llofnod (rhiant): ……………………………………………..

 © Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

# A2 Templed Polisi Defnydd Derbyniol Myfyrwyr / Disgyblion – ar gyfer disgyblion / myfyrwyr hŷn

## Polisi'r Ysgol

Mae technolegau digidol wedi dod yn rhan anhepgor o fywydau plant a phobl ifanc, yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol. Mae'r technolegau hyn yn arfau grymus sy'n cynnig cyfleoedd newydd i bawb. Gellir defnyddio'r technolegau hyn i sbarduno trafodaeth, hybu creadigrwydd a gwella ymwybyddiaeth o gyd-destun i annog dysgu effeithiol. Dylai pobl ifanc fod â'r hawl i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel bob amser.

### Diben y Cytundeb Defnydd Derbyniol yw sicrhau'r canlynol:

- y bydd pobl ifanc yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol eraill at ddibenion addysgol, personol a hamdden.
- y caiff systemau a defnyddwyr yr ysgol eu gwarchod rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai beryglu diogelwch y systemau a'r defnyddwyr.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau fod gan *fyfyrwyr / disgyblion* fynediad da at dechnolegau i wella eu profiad dysgu, ac yn sgil hynny, bydd yr ysgol yn disgwyl i'r *myfyrwyr / disgyblion* gytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol.

## Cytundeb Defnydd Derbyniol

Deallaf fod rhaid i mi ddefnyddio systemau TGCh yr ysgol yn gyfrifol, i sicrhau na chaiff fy niogelwch i na diogelwch y systemau TGCh a defnyddwyr eraill eu peryglu.

### I sicrhau fy niogelwch personol i:

- Deallaf y bydd yr ysgol yn monitro fy nefnydd o systemau TG, dyfeisiau a chyfathrebu digidol.
- Byddaf yn cadw fy enw defnyddiwr a fy nghyfrinair yn ddiogel - ni wnaf eu rhannu ag eraill, ac ni wnaf geisio defnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair rhywun arall. Deallaf na ddylwn ysgrifennu na storio cyfrinair yn rhywle ble gallai rhywun arall ei ddwyn.
- Byddaf yn ymwybodol o "beryglon dieithriaid" pan fyddaf yn cyfathrebu ar-lein.
- Ni wnaf ddatgelu na rhannu gwybodaeth bersonol amdanaf i nac eraill pan fyddaf ar-lein (gallai hyn gynnwys enwau, cyfeiriadau, cyfeiriadau e-byst, rhifau ffôn, oedran, rhyw, manylion addysgol, manylion ariannol ac ati).
- Os byddaf yn trefnu i gwrdd â phobl rwyf wedi cyfathrebu â hwy ar-lein yn y byd all-lein, byddaf yn trefnu i wneud hynny mewn lle cyhoeddus a bydd oedolyn yn mynd gyda fi.
- Byddaf yn rhoi gwybod yn syth am unrhyw ddeunyddiau neu negeseuon annymunol neu anaddas neu unrhyw beth sy'n gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus wrth ei weld ar-lein.

### Deallaf fod gan bawb hawliau cyfartal i ddefnyddio technoleg fel adnodd ac:

- Rwy'n deall mai defnydd addysgol yw prif ddiben systemau a dyfeisiau'r ysgol, ac ni wnaf eu defnyddio at ddibenion personol neu hamdden oni fyddaf wedi cael caniatâd.
- Ni wnaf geisio (oni byddaf wedi cael caniatâd) lawrlwytho neu lanlwytho ffeiliau mawr a allai arafu'r rhyngrwyd ac atal defnyddwyr eraill rhag gwneud eu gwaith.
- Ni wnaf ddefnyddio systemau na dyfeisiau'r ysgol i chwarae gemau ar-lein, gamblo ar-lein, siopa ar-lein, rhannu ffeiliau neu ddarlledu fideos (e.e. Youtube), oni fyddaf wedi cael caniatâd gan aelod o staff i wneud hynny.
-

### Byddaf yn ymddwyn fel rwyf yn disgwyl i eraill ymddwyn tuag ataf i:

Byddaf yn parchu gwaith ac eiddo pobl eraill ac ni wnaf gyrchu, copïo, symud na newid ffeiliau unrhyw ddefnyddiwr arall, oni fydd y perchennog yn gwybod am hynny ac wedi rhoi caniatâd i mi.
Byddaf yn gwrtais ac yn gyfrifol pan fyddaf yn cyfathrebu ag eraill, ni wnaf ddefnyddio iaith gref, ymosodol nac anaddas, ac rwy'n gwerthfawrogi fod gan bobl eraill safbwyntiau gwahanol.
Ni wnaf dynnu lluniau o neb na'u dosbarthu heb eu caniatâd.


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

### Rwy'n cydnabod fod gan yr ysgol gyfrifoldeb i gynnal diogelwch ac integredd y dechnoleg y mae'n ei chynnig i mi ac i sicrhau fod yr ysgol yn rhedeg yn effeithiol:

- Ni wnaf ddefnyddio fy nyfais/nyfeisiau personol fy hun yn yr ysgol oni byddaf wedi cael caniatâd i wneud hynny Os byddaf yn defnyddio fy nyfais/nyfeisiau fy hun yn yr ysgol, rwy'n deall y bydd rhaid i mi ddilyn y rheolau sydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb hwn, yn union fel pe bawn yn defnyddio offer yr ysgol.
- Rwy'n deall y peryglon ac ni wnaf geisio lanlwytho, lawrlwytho na chyrchu unrhyw ddeunyddiau sy'n anghyfreithlon neu'n anaddas neu rai a allai niweidio pobl eraill neu beri gofid iddyn nhw, ac ni wnaf geisio defnyddio unrhyw raglenni neu feddalwedd a allai ganiatáu i mi osgoi'r systemau hidlo / diogelwch sydd yn eu lle i atal mynediad at ddeunyddiau o'r fath.
- Byddaf yn rhoi gwybod yn syth am unrhyw ddifrod neu namau yn ymwneud ag offer neu feddalwedd, waeth beth fydd wedi achosi hynny.
- Ni wnaf agor unrhyw hypergysylltiadau mewn e-byst nac unrhyw atodiadau sydd ynghlwm wrth e-byst onid wyf yn adnabod ac yn ymddiried yn yr unigol / sefydliad sy'n anfon yr e-byst hynny, neu os bydd gennyf bryder am ddilysrwydd yr e-bost (oherwydd y perygl fod firysau neu raglenni peryglus eraill yn yr atodiad).
- Ni wnaf osod na cheisio gosod na storio rhaglenni o unrhyw fath ar ddyfeisiau'r ysgol, ac ni wnaf geisio newid gosodiadau cyfrifiaduron.
- Byddaf yn defnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol â chaniatâd yn unig ac ar yr adegau y caniateir i mi wneud hynny

### Wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd at ddibenion ymchwil neu hamdden, rwy'n cydnabod y canlynol:

- Dylaf sicrhau fod gennyf ganiatâd i gynnwys gwaith gwreiddiol pobl eraill yn fy ngwaith fy hun
- Lle mae'r gwaith o dan hawlfraint, ni wnaf geisio lawrlwytho copïau (yn cynnwys cerddoriaeth a fideos)
- Pan fyddaf yn defnyddio'r rhyngrwyd i ganfod gwybodaeth, dylaf ofalu fy mod yn sicrhau fod yr wybodaeth y byddaf yn ei chyrchu yn gywir, oherwydd rwy'n deall y gall gwaith pobl eraill fod yn wallus, a gallai fod yn ymgais bwriadol i fy nghamarwain.

### Rwy'n deall fy mod yn atebol am fy ngweithredoedd, yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol:

- Rwy'n deall fod gan yr ysgol hawl i gymryd camau yn fy erbyn os byddaf yn rhan o ddigwyddiadau o ymddygiad annerbyniol sydd wedi'u cwmpasu gan y cytundeb hwn, pan fyddaf yn yr ysgol a phan fydd y digwyddiadau hynny yn gysylltiedig â fy aelodaeth o gymuned yr ysgol (byddai enghreifftiau yn cynnwys seibrfwlio, defnyddio delweddau neu wybodaeth bersonol).
- Rwy'n deall y byddaf yn wynebu camau disgyblu os na fyddaf yn cydymffurfio â'r Cytundeb Defnydd Derbyniol hwn.  Gall hyn gynnwys colli'r hawl i ddefnyddio rhwydwaith yr ysgol / y rhyngrwyd, cyfnodau cosb, gwaharddiadau dros dro, cysylltu â fy rhieni, ac mewn achos o weithgareddau anghyfreithlon, ymyriad yr heddlu.

**Llenwch yr adrannau ar y dudalen nesaf os gwelwch yn dda i nodi eich bod wedi darllen a deall ac yn cytuno â'r adrannau sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Defnydd Derbyniol. Os na fyddwch yn llofnodi a dychwelyd y cytundeb hwn, ni chaniateir i chi ddefnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol.**

## Ffurflen Defnydd Derbyniol Myfyrwyr / Disgyblion

Mae'r ffurflen hon yn gysylltiedig â'r Cytundeb Defnydd Derbyniol *myfyrwyr / disgyblion,* ac mae wedi'i hatodi wrth y ddogfen honno.
Llenwch yr adrannau isod os gwelwch yn dda i nodi eich bod wedi darllen a deall ac yn cytuno â'r adrannau sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Defnydd Derbyniol. Os na fyddwch yn llofnodi a dychwelyd y cytundeb hwn, ni chaniateir i chi ddefnyddio systemau a TGCh yr  ysgol.

Rwyf wedi darllen ac rwy'n deall yr uchod ac rwy'n cytuno i ddilyn y canllawiau hyn:

- Pan fyddaf yn defnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol (yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol)


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

- Pan fyddaf yn defnyddio fy nyfeisiau fy hun yn yr ysgol (pan ganiateir i mi wneud hynny) e.e. ffônau symudol, dyfeisiau chwarae gemau, camerâu ac ati
- Byddaf yn defnyddio fy offer fy hun oddi allan i'r ysgol mewn modd sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r *ysgol* hon, e.e. cyfathrebu ag aelodau eraill yr ysgol, defnyddio system e-bost, rhith-amgylchedd dysgu neu wefan yr ysgol, ac ati.

| | |
|---|---|
| Enw'r Myfyriwr / Disgybl | |
| Grŵp / Dosbarth | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

## Cydlofnod Rhiant / Gofalwr (dewisol)

Sylwer: Dewis yr ysgol yw gofyn i rieni / gofalwyr gydlofnodi'r Cytundeb Defnydd Derbyniol Rhieni / Gofalwyr (gweler y templed yn ddiweddarach yn y ddogfen hon). Mae hyn yn cynnwys nifer o ffurflenni caniatád eraill (yn cynnwys rhai yn ymwneud â delweddau digidol a fideo, caniatád i ddefnyddio systemau biometrig / caniatád i ddefnyddio systemau cyfrifiadura cwmwl).


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

# A3 Templed Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol Staff (a Gwirfoddolwyr)

## Polisi'r Ysgol

Mae technolegau newydd wedi dod yn rhan anhepgor o fywydau plant a phobl ifanc yn y gymdeithas sydd ohoni, yn yr ysgol ac yn eu bywyd oddi allan i'r ysgol. Mae'r rhyngrwyd a thechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu digidol eraill yn arfau grymus sy'n cynnig cyfleoedd newydd i bawb. Gellir defnyddio'r technolegau hyn i sbarduno trafodaeth, hybu creadigrwydd a gwella ymwybyddiaeth o gyd-destun i annog dysgu effeithiol. Maen nhw hefyd yn cynnig cyfleoedd i staff weithio'n fwy creadigol a chynhyrchiol. Dylai pob defnyddiwr fod â'r hawl i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel bob amser.

### Bwriad y Cytundeb Defnydd Derbyniol hwn yw sicrhau'r canlynol:

- y bydd staff a gwirfoddolwyr eraill yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol eraill at ddibenion addysgol, personol a hamdden.
- y caiff systemau a defnyddwyr TGCh yr ysgol eu gwarchod rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai beryglu diogelwch y systemau a'r defnyddwyr.
- y caiff staff eu gwarchod rhag peryglon posibl wrth ddefnyddio TGCh wrth eu gwaith beunyddiol.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau fod staff a gwirfoddolwyr yn cael mynediad da at TGCh i wella eu gwaith, i wella cyfleoedd dysgu a gynigir i *fyfyrwyr / disgyblion*, ac yn sgil hynny, bydd yr ysgol yn disgwyl i staff a gwirfoddolwyr gytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol.

## Cytundebau Polisi Defnydd Derbyniol

Deallaf fod rhaid i mi ddefnyddio systemau TGCh yr ysgol mewn ffordd gyfrifol, i sicrhau na chaiff fy niogelwch i na diogelwch y systemau TGCh a defnyddwyr eraill eu peryglu. Rwyf yn cydnabod gwerth y defnydd o TGCh i wella dysgu a byddaf yn sicrhau fod myfyrwyr / disgyblion yn cael cyfleoedd i elwa ar y defnydd o TGCh. Byddaf, lle gallaf wneud hynny, yn addysgu'r bobl ifanc sydd dan fy ngofal i ddefnyddio TGCh yn ddiogel a byddaf yn sicrhau fod e-Ddiogelwch yn rhan annatod o fy ngwaith gyda phobl ifanc.

### Er lles fy niogelwch proffesiynol a phersonol:

- Deallaf y bydd yr ysgol yn monitro fy nefnydd o systemau TGCh, e-bost a dulliau cyfathrebu digidol eraill.
- Deallaf fod y rheolau a amlinellir yn y cytundeb hwn hefyd yn berthnasol i'r defnydd o systemau TGCh yr ysgol (e.e. gliniaduron, e-byst, rhith-amgylcheddau dysgu ac ati) oddi allan i'r ysgol, ac i drosglwyddo data personol (digidol neu ar bapur) oddi allan i'r ysgol
- Deallaf fod systemau TGCh yr ysgol wedi'u bwriadu'n bennaf i'w defnyddio at ddibenion addysgol, a byddaf yn defnyddio'r systemau at ddibenion personol neu hamdden yn unol â'r polisïau a'r rheolau a bennwyd gan yr ysgol. (dylai ysgolion addasu'r adran hon yn unol â'u polisïau sy'n ymwneud â defnydd personol o'u systemau gan staff a gwirfoddolwyr)
- Ni wnaf ddatgelu fy enw defnyddiwr na fy nghyfrinair i neb arall, ac ni wnaf geisio defnyddio enw defnyddiwr na chyfrinair neb arall. Deallaf na ddylwn ysgrifennu neu storio cyfrinair yn rhywle ble gallai rhywun ei ddwyn.
- Byddaf yn hysbysu'r unigolyn priodol yn syth am unrhyw ddeunyddiau anghyfreithlon, anaddas neu niweidiol, neu unrhyw ddigwyddiad, os dof yn ymwybodol ohonynt.

### Byddaf yn cyfathrebu ac yn gweithredu'n broffesiynol wrth ddefnyddio systemau TGCh yr ysgol:

- Ni wnaf gyrchu, copïo, symud na newid ffeiliau unrhyw ddefnyddiwr arall, heb gael ei ganiatâd penodol.
- Byddaf yn cyfathrebu'n broffesiynol ag eraill, ni wnaf ddefnyddio iaith ymosodol nac amhriodol, ac rwy'n gwerthfawrogi fod gan bobl eraill safbwyntiau gwahanol.
- Pan fyddaf yn tynnu lluniau ac / neu yn cyhoeddi delweddau o bobl eraill, byddaf yn gwneud hynny â'u caniatâd ac yn unol â pholisi'r ysgol ar y defnydd o ddelweddau digidol / fideo. Ni wnaf ddefnyddio fy offer personol i gofnodi'r delweddau hyn, oni byddaf wedi cael caniatâd i wneud hynny. Pan gyhoeddir y delweddau hyn (e.e. ar wefan / rhith-amgylchedd dysgu yr ysgol), ni fydd yn bosibl adnabod y sawl sydd yn y delweddau hyn wrth eu henw, nac adnabod unrhyw wybodaeth bersonol arall amdanynt.

 © Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

- Byddaf yn defnyddio safleoedd sgwrsio a rhwydweithio cymdeithasol pan fyddaf yn yr ysgol yn unol â pholisïau'r ysgol yn unig. (dylai ysgolion addasu'r adran hon yn unol â'u polisi ar gyrchu rhwydweithiau cymdeithasol a safleoedd tebyg)
- Byddaf yn cyfathrebu â myfyrwyr / disgyblion a rhieni / gofalwyr gan ddefnyddio systemau swyddogol yr ysgol yn unig. Bydd unrhyw gyfathrebu o'r fath yn broffesiynol o ran ei naws a'i ddull. (dylai ysgolion addasu'r adran hon yn unol â'u polisi ynghylch cyfathrebu â myfyrwyr / disgyblion a rhieni / gofalwyr. Dylai staff gael eu hysbysu am y peryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio eu cyfeiriad e-bost / ffonau symudol / proffiliau rhwydweithiau cymdeithasol personol at ddibenion cyfathrebu o'r fath)
- Ni wnaf wneud unrhyw weithgareddau ar-lein a allai beryglu fy nghyfrifoldebau proffesiynol.

## Mae gan yr ysgol a'r awdurdod lleol gyfrifoldeb i ddarparu mynediad diogel at dechnolegau a sicrhau fod yr ysgol yn rhedeg yn esmwyth:

- Pan fyddaf yn defnyddio fy nyfeisiau symudol (PDA / gliniaduron / ffônau symudol / dyfeisiau USB ac ati) yn yr ysgol, byddaf yn dilyn y rheolau a amlinellir yn y cytundeb hwn, yn yr un modd â phe bawn yn defnyddio offer yr ysgol.  Byddaf hefyd yn dilyn unrhyw reolau ychwanegol a bennir gan yr ysgol ynghylch defnydd o'r fath. Byddaf yn sicrhau fod unrhyw ddyfeisiau o'r fath wedi'u gwarchod gan y fersiwn diweddaraf o feddalwedd gwrthfeirysau ac nad ydynt yn cynnwys unrhyw feirysau.
- Ni fyddaf yn defnyddio cyfeiriadau e-bost personol ar systemau TGCh yr ysgol.
- Ni wnaf agor unrhyw hypergysylltiadau mewn e-byst nac unrhyw atodiadau sydd ynghlwm wrth negeseuon e-byst, oni byddaf yn adnabod ac yn ymddiried yn ffynhonnell y neges, neu os bydd gennyf unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd yr e-bost (oherwydd y perygl y gallai'r atodiad gynnwys feirysau neu raglenni niweidiol eraill)
- Byddaf yn gwneud copi wrth gefn o fy nata yn rheolaidd, yn unol â pholisïau perthnasol yr ysgol.
- Ni wnaf geisio lanlwytho, lawrlwytho na chyrchu unrhyw ddeunyddiau anghyfreithlon (delweddau sy'n dangos cam-drin plant yn rhywiol, deunydd hiliol anghyfreithlon, a phornograffi oedolion sydd wedi'i gwmpasu gan y Ddeddf Cyhoeddiadau Anllad) neu anaddas neu ddeunyddiau a allai achosi niwed neu drallod i bobl eraill. Ni wnaf geisio defnyddio unrhyw raglenni na meddalwedd a allai ganiatáu i mi osgoi'r systemau hidlo / diogelwch sydd yn eu lle i atal mynediad at ddeunyddiau o'r fath.
- Ni wnaf geisio (oni byddaf wedi cael caniatâd) lawrlwytho neu lanlwytho ffeiliau mawr a allai arafu'r rhyngrwyd ac atal defnyddwyr eraill rhag gwneud eu gwaith.
- Ni wnaf osod na cheisio gosod rhaglenni ar unrhyw fath o beiriant, na storio rhaglenni ar gyfrifiadur, ac ni wnaf geisio newid gosodiadau cyfrifiaduron, oni fydd polisïau'r ysgol yn caniatáu hynny. (dylai ysgolion / academïau addasu'r adran hon yn unol â'u polisïau ynghylch gosod rhaglenni / newid gosodiadau)
- Ni wnaf analluogi nac achosi niwed i offer yr ysgol, nac offer sy'n eiddo i bobl eraill.
- Ni wnaf symud, cadw, datgelu na rhannu gwybodaeth amdanaf i fy hun ac eraill, ac eithrio yn unol â Pholisi Data Personol yr Ysgol / Awdurdod Lleol (neu bolisi perthnasol arall). Lle caiff data personol digidol eu symud oddi allan i'r rhwydwaith lleol diogel, rhaid eu hamgryptio. Rhaid cadw data Gwarchodedig a Chyfyngedig sydd wedi'u hargraffu ar bapur o dan glo.
- Deallaf fod y polisi diogelu data yn golygu fod rhaid cadw unrhyw ddata ynghylch staff neu fyfyrwyr / disgyblion y mae gennyf fynediad atynt yn breifat a chyfrinachol, oni fydd y gyfraith neu'r ysgol yn mynnu fy mod yn datgelu gwybodaeth o'r fath i awdurdod priodol.
- Byddaf yn rhoi gwybod yn syth am unrhyw ddifrod neu namau ar offer neu feddalwedd, beth bynnag fydd wedi achosi hynny.

## Wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd at ddibenion fy ngwaith neu ddefnydd personol a gymeradwyir gan yr ysgol:

- Byddaf yn sicrhau fod gennyf ganiatâd i gynnwys gwaith gwreiddiol pobl eraill yn fy ngwaith fy hun
- Lle bydd y gwaith o dan hawlfraint, ni wnaf  lawrlwytho na dosbarthu copïau (yn cynnwys cerddoriaeth a fideos)

## Rwy'n deall fy mod yn atebol am fy ngweithredoedd, yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol:

- Deallaf fod y Cytundeb Defnydd Derbyniol hwn yn ymwneud â fy ngwaith a fy nefnydd o offer TGCh yr ysgol yn yr ysgol, a hefyd â fy nefnydd o systemau TGCh ac offer yr ysgol oddi allan i safle'r ysgol, a fy nefnydd o fy offer personol ar y safle neu o dan amgylchiadau sy'n gysylltiedig â chael fy nghyflogi gan yr ysgol.


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

- Rwy’n deall y gallaf wynebu camau disgyblu os na fyddaf yn cydymffurfio â’r Cytundeb Defnydd Derbyniol hwn. Gallai hynny gynnwys (dylai ysgolion addasu’r adran hon i ddarparu cosbau perthnasol yn unol â’u polisïau ymddygiad) rhybudd, fy atal o’r gwaith dros dro, cyfeirio’r mater at y Llywodraethwyr a / neu’r Awdurdod Lleol, ac mewn achos o weithgareddau anghyfreithlon, ymyrraeth yr heddlu.

Rwyf wedi darllen yr uchod ac rwy’n ei ddeall, a chytunaf i ddefnyddio systemau TGCh yr ysgol (yn yr ysgol ac oddi allan i’r ysgol) a fy nyfeisiau fy hun (yn yr ysgol ac wrth wneud unrhyw gyfathrebu mewn perthynas â’r ysgol) yn unol â’r canllawiau hyn.

Enw’r Aelod Staff / Gwirfoddolwr

Llofnod

Dyddiad


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## A4 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Rhieni / Gofalwyr

Mae technolegau digidol wedi dod yn rhan anhepgor o fywydau plant a phobl ifanc, o fewn yr ysgol a'r tu allan. Mae'r technolegau yma yn darparu teclynnau pwerus, sydd yn rhoi cyfleoedd newydd i bawb. Gallant ysgogi trafodaeth, hyrwyddo creadigrwydd ac ysgogi ymwybyddiaeth o gyd-destun i hyrwyddo dysgu effeithiol. Dylai pobl ifanc gael hawl i fynediad diogel i'r rhyngrwyd drwy'r adeg.

### Diben y Polisi Defnydd Derbyniol yma ydy i sicrhau:

- bod pobl ifanc yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau cyfathrebu fel arall ar gyfer defnydd addysgiadol, personol a hamddenol.
- bod systemau'r ysgol a'r defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn o gamddefnydd damweiniol neu bwrpasol gall roi diogelwch y systemau a'r defnyddwyr mewn perygl.
- bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd e-Ddiogelwch ac yn cymryd rhan yn addysgu ac arwain pobl ifanc yn eu hymddygiad ar-lein.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod myfyrwyr / disgyblion yn cael mynediad da i dechnolegau digidol i fwyhau eu dysgu a fydd, yn ei dro, yn disgwyl i'r myfyrwyr / disgyblion i gytuno bod yn ddefnyddwyr cyfrifol. Mae copi o Gytundeb Defnydd Derbyniol Myfyriwr / Disgybl wedi'i atodi i'r ffurflen ganiatâd yma, fel bod rhieni / gofalwyr yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r ysgol o bobl ifanc yn eu gofal.

Mae disgwyl i rieni arwyddo'r ffurflen ganiatâd isod i ddangos eu cefnogaeth o'r ysgol yn yr agwedd bwysig yma o'u gwaith.

## Ffurflen Caniatâd

Enw Rhiant / Gofalwr [ ] Enw Myfyriwr / Disgybl [ ]

Fel rhiant / gofalwr o'r *myfyriwr / disgybl* uchod, rwyf yn rhoi caniatâd i'm mab / merch gael mynediad i'r rhyngrwyd ac i systemau TGCh yn yr ysgol

Naill ai: (CA2 ac uchod)
Rwyf yn gwybod bod fy mab / merch wedi arwyddo Cytundeb Defnydd Derbyniol ac wedi derbyn, neu am dderbyn, addysg e-Ddiogelwch i'w helpu i ddeall pwysigrwydd defnydd diogel o dechnoleg a'r rhyngrwyd - y tu mewn ac oddi allan i'r ysgol.

Neu: (CA1)
Rwyf yn deall bod yr ysgol wedi trafod y Cytundeb Defnydd Derbyniol gyda'm mab / merch a'u bod wedi derbyn, neu am dderbyn, addysg e-Ddiogelwch i'w helpu i ddeall pwysigrwydd defnydd diogel o dechnoleg a'r rhyngrwyd - y tu mewn ac oddi allan i'r ysgol.

Rwyf yn deall bydd yr ysgol yn cymryd pob rhagofal diogelwch rhesymol, gan gynnwys defnyddio systemau monitro a hidlo, i sicrhau bod pobl ifanc yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a'r systemau TGCh. Rwyf hefyd yn deall nad yw'r ysgol yn gallu cael eu dal yn gyfrifol yn y pen draw am natur a chynnwys unrhyw ddeunydd canfuwyd ar y rhyngrwyd ac wrth ddefnyddio technolegau symudol.

Rwyf yn deall bydd gweithgaredd fy mab / merch ar y systemau TGCh yn cael ei fonitro a bydd yr ysgol yn cysylltu os oes unrhyw bryderon o dramgwyddo posib o'r Cytundeb Defnydd Derbyniol.

Byddaf yn annog fy mhlentyn i fabwysiadu defnydd diogel o'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol gartref a byddaf yn hysbysu'r ysgol os oes gennyf unrhyw bryderon am e-Ddiogelwch fy mhlentyn.

Arwyddwyd [ ] Dyddiad [ ]


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## Defnydd Delweddau Digidol / Fideo

Efallai bydd delweddau hefyd yn cael eu defnyddio i ddathlu llwyddiannau wrth gyhoeddi hynny mewn cylchlythyrau, ar wefan yr ysgol ac, ar brydiau, yn y cyfryngau cyhoeddus.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Diogelu Data ac yn gofyn caniatâd rhieni / gofalwyr cyn tynnu lluniau o aelodau'r ysgol. Byddem hefyd yn sicrhau pan fydd delweddau yn cael eu cyhoeddi, nad all adnabod y bobl ifanc wrth ddefnyddio eu henwau.

Mewn cytundeb ag arweiniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae croeso i rieni / gofalwyr dynnu delweddau fideo a digidol o'u plant mewn digwyddiadau'r ysgol ar gyfer defnydd personol (gan nad yw'r fath ddefnydd yn cael ei grybwyll yn y Ddeddf Diogelu Data). I barchu preifatrwydd pawb, ac mewn rhai achosion i amddiffyn, ni ddylai'r delweddau yma gael eu cyhoeddi / gwneud yn gyhoeddus ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol, ac ni ddylai rhieni / gofalwyr wneud sylwad ar unrhyw weithgareddau sy'n cynnwys *myfyrwyr / disgyblion* yn y delweddau digidol / fideo.

Gofynnir i rieni / gofalwyr arwyddo'r ffurflen caniatâd isod i ganiatáu'r ysgol i gymryd a thynnu delweddau o'u plant ac i'r rhieni / gofalwyr gytuno.

## Ffurflen Caniatâd Delweddau Digidol / Fideo

| | |
|---|---|
| Enw Rhiant / Gofalwr | |
| Enw Myfyriwr / Disgybl | |
| Fel rhiant / gofalwr y *myfyriwr / disgybl* uchod, rwyf yn cytuno i'r ysgol gymryd a defnyddio delweddau digidol / fideo o'm mhlentyn / plant. Rwyf yn deall mai dim ond i gefnogi gweithgareddau dysgu neu mewn cyhoeddusrwydd sydd yn dathlu llwyddiant ac yn hyrwyddo gwaith yr ysgol yn rhesymol defnyddir y delweddau yma. | Ydw/ Nac ydw |
| Os ydw i'n tynnu delweddau digidol neu fideo mewn, neu o, - ddigwyddiadau'r ysgol sydd yn cynnwys delweddau o blant, heblaw am rai fi, rwyf yn cytuno byddaf yn cadw i'r canllawiau yma wrth ddefnyddio'r delweddau. | Ydw/ Nac ydw |
| Arwyddwyd | |
| Dyddiad | |

## Defnyddio Systemau Biometrig

Mae'r ysgol yn defnyddio systemau biometrig i adnabod plant unigol trwy'r dulliau canlynol

Mae gan dechnolegau biometrig fanteision penodol dros systemau adnabod awtomatig eraill, oherwydd nid oes angen i ddisgyblion ddod ag unrhyw beth felly ni ellir colli dim byd, megis cerdyn allwedd.

Mae'r ysgol wedi cwblhau asesiad o'r effaith ar breifatrwydd ac mae'n hyderus fod y defnydd o dechnolegau o'r fath yn effeithiol ac wedi'i gyfiawnhau yng nghyd-destun yr ysgol.

Ni chaiff delweddau cyflawn o olion dwylo eu storio, ac ni ellir ail-greu'r ddelwedd wreiddiol o'r data. Hynny yw, ni ellir ail-greu ôl bys disgybl neu hyd yn oed darlun o ôl bys gan ddefnyddio'r hyn sydd yn ei hanfod yn rhes o rifau.


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

Gofynnir i rieni / gofalwyr am ganiatâd fel gall eu plentyn ddefnyddio’r technolegau biometrig hyn.

| | |
|---|---|
| Enw Rhiant / Gofalwr | |
| Enw Myfyriwr / Disgybl | |

Fel rhiant / gofalwr y *disgybl / myfyriwr* uchod, rwy’n cytuno y gall yr ysgol ddefnyddio’r systemau adnabod biometrig a ddisgrifir uchod. Deallaf na ellir defnyddio’r delweddau hyn i greu print ôl bys / cledr llaw cyflawn fy mhlentyn, ac ni chaiff y delweddau hyn eu rhannu ag unrhyw un y tu allan i'r ysgol.

Ydw / Nac ydw

| | |
|---|---|
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

## Cytundeb Defnydd Derbyniol Myfyriwr / Disgybl

Ar y tudalennau dilynol rydym wedi copïo, er gwybodaeth rhieni a gofalwyr, y Cytundeb Defnydd Derbyniol Myfyriwr / Disgybl.


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

# A5 Templed Cytundeb Defnydd Derbyniol Defnyddwyr Cymunedol

## Diben y Cytundeb Defnydd Derbyniol yma ydy i sicrhau:

- bod defnyddwyr cymunedol o dechnolegau digidol ysgolion yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r systemau a'r dyfeisiau yma.
- bod systemau'r ysgol, dyfeisiau a defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn o gamddefnydd damweiniol neu fwriadol gall roi diogelwch y systemau a'r defnyddwyr mewn perygl.
- bod defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn o'r peryglon posib yn y defnydd o'r systemau a'r dyfeisiau yma.

## Cytundeb Defnydd Derbyniol

Rwyf yn deall bod rhaid i mi ddefnyddio systemau a dyfeisiau'r ysgol mewn ffordd gyfrifol, i sicrhau nad oes perygl i'm niogelwch nac i ddiogelwch y systemau, dyfeisiau a defnyddwyr eraill. Bydd y cytundeb yma hefyd yn wir i unrhyw ddyfeisiau personol rwyf yn dod i'r ysgol.

- Rwyf yn deall bod fy nefnydd o systemau a dyfeisiau'r ysgol a chyfathrebu digidol yn cael ei fonitro.
- Ni fyddaf yn defnyddio dyfais bersonol rwyf wedi dod i'r ysgol am unrhyw weithgaredd fydda'n anaddas mewn gosodiad ysgol.
- Ni fyddaf yn ceisio lanlwytho, lawrlwytho na chael mynediad i unrhyw ddeunydd sydd yn anghyfreithlon (delweddau camdriniaeth rywiol plant, deunydd hiliol troseddol, pornograffi oedolion sydd yn dod o dan y Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus) neu'n anaddas neu gall achosi niwed neu drallod i eraill. Ni fyddaf yn ceisio defnyddio unrhyw raglenni neu feddalwedd gall ganiatáu i mi osgoi'r systemau hidlo / diogelwch sydd mewn lle i atal mynediad i'r fath ddeunydd.
- Byddaf yn adrodd unrhyw ddeunydd neu ddigwyddiad anghyfreithlon, anaddas neu niweidiol cyn gynted ag yr wyf yn dod yn ymwybodol ohono, i'r person priodol.
- Ni fyddaf yn cael mynediad, yn copïo, tynnu neu altro fel arall, ffeiliau defnyddwyr eraill heb ganiatâd.
- Byddaf yn sicrhau fy mod i'n cael caniatâd cyn cymryd ac / neu gyhoeddi delweddau o bobl eraill. Ni wnaf ddefnyddio fy offer personol i gofnodi'r delweddau hyn, oni byddaf wedi cael caniatâd i wneud hynny. Os cyhoeddir y delweddau hyn, ni fydd yn bosibl adnabod y sawl sydd yn y delweddau hyn wrth eu henw, nac adnabod unrhyw wybodaeth bersonol arall amdanynt.
- Ni fyddaf yn cyhoeddi nac yn rhannu unrhyw wybodaeth rwyf wedi'i gael tra yn yr ysgol neu ar unrhyw wefan personol, gwefan rhwydweithio cymdeithasol neu unrhyw fodd arall, os nad wyf yn cael caniatâd yr ysgol.
- Ni fyddaf, heb ganiatâd, yn gwneud lawrlwythiadau mawr nac yn llwytho pethau i fyny gall ddefnyddio gormod o gynhwysedd y rhyngrwyd ac atal defnyddwyr eraill rhag gallu gwneud eu gwaith.
- Ni fyddaf yn gosod nac yn ceisio gosod rhaglenni o unrhyw fath ar ddyfais ysgol, ni fyddaf chwaith yn ceisio altro gosodiadau cyfrifiadur, os nad oes gennyf ganiatâd i wneud hynny.
- Ni fyddaf yn analluogi nac yn achosi unrhyw ddifrod i offer yr ysgol, nac offer sy'n eiddio i bobl eraill.
- Byddaf yn adrodd unrhyw niwed neu namau sy'n ymwneud ag offer neu feddalwedd yn syth, yn ddifater i sut mae hyn wedi digwydd.
- Byddaf yn sicrhau fod gennyf ganiatâd i ddefnyddio gwaith gwreiddiol eraill yng ngwaith fy hun.
- Ble mae gwaith yn cael ei warchod gan hawlfraint, ni fyddaf yn lawrlwytho nac yn dosbarthu copïau (gan gynnwys cerddoriaeth a fideos).
- Rwyf yn deall, os nad allaf gadw at y Cytundeb Defnydd Derbyniol yma, bod gan yr ysgol yr hawl i dynnu mynediad i systemau / dyfeisiau'r ysgol.

Rwyf wedi darllen ac wedi deall yr uchod ac rwyf yn cytuno defnyddio systemau TGCh yr ysgol (y tu mewn ac oddi allan i'r ysgol) a dyfeisiau fy hun (yn yr ysgol ac mewn cyfathrebiadau sy'n ymwneud â'r ysgol) yn unol â'r canllawiau yma.

Enw ____________________

Arwyddwyd ____________________ Dyddiad ____________________


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

# B1 Templed Polisi Diogelwch Technegol Ysgol (yn cynnwys hidlo a chyfrineiriau)

## Awgrymiadau ynghylch defnyddio'r templed

*Lle mae adrannau wedi'u hysgrifennu mewn llythrennau italig, rhagwelir y byddai ysgolion yn dymuno ystyried cynnwys yr adran honno neu'r datganiad hwnnw yn eu polisi terfynol neu beidio.*

**Mae'r adrannau wedi'u cynnwys mewn teip TRWM yn y ddogfen yn rhai y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn rhan hanfodol o bolisi e-Ddiogelwch ysgolion.**

Mae'r templed hwn yn defnyddio termau amrywiol megis ysgol; myfyrwyr / disgyblion. Dylai defnyddwyr ddewis y term sy'n fwyaf addas i'w cyd-destun hwy a dileu'r term arall.

## Cyflwyniad

Yn ogystal â mesurau technegol, mae diogelwch technegol effeithiol yn dibynnu ar bolisïau a gweithdrefnau ynghylch addysg a hyfforddiant da i ddefnyddwyr hefyd. Bydd yr ysgol yn gyfrifol am sicrhau fod *seilwaith yr ysgol / rhwydwaith yr ysgol* mor ddiogel ag y gall fod o fewn rheswm, a sicrhau'r canlynol:

- fod defnyddwyr yn gallu gweld y data y mae ganddyn nhw hawl i'w gweld yn unig
- ni ddylai unrhyw ddefnyddiwr allu gweld ffeiliau rhywun arall (ac eithrio'r hyn a ganiateir at ddibenion monitro gan bolisïau'r ysgol).
- caiff mynediad at ddata personol ei reoli'n ddiogel yn unol â pholisi data personol yr ysgol
- cynhelir cofnodion o ddefnydd gan ddefnyddwyr a'u gweithredoedd pan fyddan nhw'n defnyddio'r system
- mae canllawiau a hyfforddiant effeithiol ar gael i ddefnyddwyr
- mae adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd yn digwydd o ddiogelwch systemau cyfrifiadurol yr ysgol
- bydd uwch reolwyr yn arolygu ac maen nhw'n dylanwadu ar bolisi ac arfer.

## Cyfrifoldebau

Bydd EF/RhO`B/CS yn gyfrifol am reoli diogelwch technegol.

## Diogelwch Technegol

### Datganiadau polisi

Bydd yr ysgol yn gyfrifol am sicrhau fod seilwaith yr ysgol / rhwydwaith yr ysgol mor ddiogel ag y gall fod o fewn rheswm, a sicrhau fod y polisïau a'r gweithdrefnau a gymeradwyir yn y polisi hwnnw yn cael eu gweithredu: Bydd angen iddi hefyd sicrhau fod y bobl berthnasol yn cael canllawiau a hyfforddiant ac yn gallu cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol:

- **Caiff systemau technegol yr ysgol eu rheoli mewn modd sy'n sicrhau fod yr ysgol yn cyflawni gofynion technegol argymelledig**
- **Bydd adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd yn digwydd o ddiogelwch systemau cyfrifiadurol yr ysgol**
- **Rhaid cadw gweinyddion, systemau diwifr a cheblau mewn lle diogel a dylid cyfyngu ar fynediad pobl atynt**
- **Mae systemau diogelwch priodol yn eu lle i warchod gweinyddion, muriau cadarn, switshis, llwybryddion, systemau diwifr, gweithfannau, dyfeisiau symudol ac ati rhag ymddygiad anfwriadol neu faleisus a allai fygwth diogelwch systemau a data'r ysgol.**
- **Mae cyfrifoldebau am reoli diogelwch technegol wedi'u clustnodi'n glir i staff priodol sydd wedi'u hyfforddi'n dda**
- **Bydd gan bob defnyddiwr hawliau wedi'u diffinio'n glir i gyrchu systemau technegol yr ysgol.** Caiff manylion yr hawliau mynediad sydd ar gael i grwpiau o ddefnyddwyr eu cofnodi gan Reolwr y Rhwydwaith

 © Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

/ Staff Technegol / Unigolyn Arall, a chânt eu hadolygu, o leiaf unwaith y flwyddyn, gan y Pwyllgor e-Ddiogelwch (neu grŵp arall).

- Bydd defnyddwyr yn gyfrifol am ddiogelu eu henw defnyddiwr a'u cyfrinair, ac ni ddylent adael i ddefnyddwyr eraill ddefnyddio'r systemau gan ddefnyddio eu manylion mewngofnodi, a dylent roi gwybod yn syth am unrhyw amheuon neu dystiolaeth o dramgwyddo diogelwch.
- Mae EF a RhOB yn gyfrifol am sicrhau fod cofnodion trwyddedau meddalwedd yn gywir ac wedi'u diweddaru ac y gwneir archwiliadau rheolaidd i sicrhau fod nifer y trwyddedau a brynwyd yr un fath â nifer y cyfrifiaduron y gosodwyd meddalwedd arnynt
- Mae gweithdrefnau diogelwch a rheoli dyfeisiau symudol yn eu lle
- Bydd staff technegol yr Ysgol / yr Awdurdod Lleol / Darparwr y Gwasanaeth Rheoledig yn monitro'n rheolaidd ac yn cofnodi gweithgarwch defnyddwyr pan fyddant yn defnyddio systemau technegol yr ysgol, ac mae defnyddwyr wedi cael eu hysbysu am hyn yn y Cytundeb Defnydd Derbyniol.
- Defnyddir pecynnau rheoli o bell gan staff i reoli gweithfannau a goruchwylio gweithgarwch defnyddwyr
- Mae system briodol yn ei lle sy'n caniatáu i ddefnyddwyr hysbysu'r Cydlynydd e-Ddiogelwch / Rheolwr y Rhwydwaith / Technegydd (neu unigolyn perthnasol arall, yn unol â'r hyn a gytunwyd) am unrhyw ddigwyddiad technegol gwirioneddol / posibl.
- Mae polisi cytûn yn ei le i ddarparu mynediad dros dro i system yr ysgol i "westeion" (e.e. athrawon dan hyfforddiant, athrawon llanw, ymwelwyr)
- Mae polisi cytûn yn ei le ynghylch defnyddwyr yn lawrlwytho ffeiliau gweithredadwy a gosod rhaglenni ar ddyfeisiau'r ysgol
- Mae polisi cytûn yn ei le ynghylch faint o ddefnydd personol y caniateir i ddefnyddwyr (staff / myfyrwyr / disgyblion / defnyddwyr cymuned) ac aelodau eu teulu ei wneud ar ddyfeisiau'r ysgol y gellir eu defnyddio oddi allan i'r ysgol.
- Mae polisi cytûn yn ei le ynghylch y defnydd o gyfryngau cludadwy (e.e. cof bach / CDs / DVDs) gan ddefnyddwyr ar ddyfeisiau'r ysgol.
- Caiff seilwaith yr ysgol a gweithfannau unigol eu gwarchod gan y feddalwedd ddiweddaraf rhag bygythiadau maleisus gan firysau, mwydod, Ceffyl Pren Troea ac ati.
- Ni ellir anfon data personol dros y rhyngrwyd na'u cludo oddi ar safle'r ysgol oni byddant wedi'u hamgryptio'n ddiogel neu eu diogelu trwy ddull arall.

## Diogelu Cyfrineiriau

Mae system enwau defnyddwyr / cyfrineiriau diogel yn hanfodol i alluogi i'r uchod gael ei sefydlu, a bydd yn gymwys i holl systemau technegol yr ysgol, yn cynnwys rhwydweithiau, dyfeisiau, systemau e-bost a Rhith-amgylchedd Dysgu.

### Datganiadau Polisi:

- Bydd gan bob defnyddiwr hawliau mynediad sydd wedi'u diffinio'n glir at systemau technegol a dyfeisiau'r ysgol. Caiff manylion yr hawliau mynediad sydd ar gael i grwpiau o ddefnyddwyr eu cofnodi gan Reolwr y Rhwydwaith (neu unigolyn arall, a chânt eu hadolygu, o leiaf unwaith y flwyddyn, gan y Pwyllgor e-Ddiogelwch (neu grŵp arall).
- **Caiff holl rwydweithiau a systemau'r ysgol eu gwarchod gan gyfrineiriau diogel a newidir yn rheolaidd**
- **Rhaid i gyfrineiriau "meistr / gweinyddwr" systemau'r ysgol a ddefnyddir gan staff technegol fod ar gael hefyd i'r Prifathro / Pennaeth neu arweinydd uwch dynodedig arall, a dylid eu cadw mewn lle diogel, e.e. sêff yr ysgol. Dylid hefyd ystyried defnyddio dull dilysu dau ffactor i gyrchu cyfrifon o'r fath.** (
- Caiff cyfrineiriau defnyddwyr newydd a chyfrineiriau newydd i ddefnyddwyr presennol eu clustnodi gan EF neu RhOB Rhaid hysbysu'r rheolwr am unrhyw newidiadau a wneir i'r polisi diogelu cyfrineiriau (uchod).
- Bydd defnyddwyr yn gyfrifol am ddiogelu eu henw defnyddiwr a'u cyfrinair, ac ni ddylent adael i ddefnyddwyr eraill ddefnyddio'r systemau gan ddefnyddio eu manylion mewngofnodi, a dylent roi gwybod yn syth am unrhyw amheuon neu dystiolaeth o dramgwyddo ddiogelwch.
- Rhaid i ddefnyddwyr newid eu cyfrineiriau yn rheolaidd – yn unol â'r hyn a ddisgrifir yn yr adrannau staff a myfyrwyr / disgyblion isod.
- Dylai ceisiadau am gyfrineiriau newydd gael eu dilysu gan (yr unigolyn cyfrifol) i sicrhau y gellir rhoi'r cyfrinair newydd i'r defnyddiwr dilys yn unig (bydd angen i'r ysgol benderfynu sut i reoli hyn - efallai bydd rheolwyr llinell yn awdurdodi ceisiadau gan aelodau staff, ac aelodau staff yn awdurdodi ceisiadau gan ddisgyblion / myfyrwyr)


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## Cyfrineiriau staff:

- **Bydd yr holl ddefnyddwyr sy'n aelodau staff yn cael enw defnyddiwr a chyfrinair** *gan* (nodwch enw neu deitl swydd) a fydd yn cadw cofnod diweddaredig o ddefnyddwyr a'u henw defnyddiwr.
- i sicrhau arfer gorau, dylai'r cyfrinair gynnwys 8 symbol o leiaf ac mae'n rhaid iddo gynnwys o leiaf un o bob un o'r canlynol – priflythyren, llythyren fach, rhif, symbol arbennig
- ni ddylai gynnwys enwau priod nac unrhyw wybodaeth arall am y defnyddiwr a allai fod yn hysbys i bobl eraill
- i sicrhau arfer  gorau, dylid "cloi" y cyfrif wedi chwe ymgais aflwyddiannus dilynol i fewngofnodi
- bydd rhaid newid cyfrineiriau dros dro yn syth y tro nesaf y bydd defnyddwyr yn mewngofnodi i'w cyfrif e.e. rhai a ddefnyddir pan agorir cyfrifon newydd i ddefnyddwyr neu phan fydd defnyddwyr wedi anghofio eu cyfrineiriau,
- ni ddylid arddangos cyfrineiriau ar y sgrin, a chânt eu stwnsio'n ddiogel (defnyddio amgryptio unffordd)
- dylai cyfrineiriau gwahanol gyfrifon fod yn wahanol, i sicrhau na chaiff systemau eraill eu peryglu os caiff un system ei thramgwyddo
- i sicrhau arfer gorau, dylid newid cyfrineiriau o leiaf bob 60 – 90 diwrnod
- ni ddylid ailddefnyddio cyfrineiriau o fewn 6 mis a dylent fod yn wahanol iawn i gyfrineiriau blaenorol a grëwyd gan yr un defnyddiwr - ni ellir defnyddio'r pedwar cyfrinair diwethaf.
- dylai cyfrineiriau gwahanol gyfrifon fod yn wahanol, i sicrhau na chaiff systemau eraill eu bygwth os caiff un system ei thramgwyddo
- dylai cyfrineiriau systemau a ddefnyddir yn yr ysgol a rhai a ddefnyddir oddi allan i'r ysgol fod yn wahanol

## Cyfrineiriau myfyrwyr / disgyblion:

- **Bydd yr holl ddefnyddwyr yn cael enw defnyddiwr a chyfrinair gan** *EF* **a fydd yn cadw cofnod diweddaredig o ddefnyddwyr a'u henw defnyddiwr.**
- Addysgir disgyblion / myfyrwyr am bwysigrwydd diogelu cyfrineiriau
- Caiff cymhlethdod (h.y. safonau gofynnol) cyfrineiriau ei bennu yn unol â gallu gwybyddol y plant.

## Hyfforddiant / Ymwybyddiaeth:

Hysbysir aelodau staff am bolisi'r ysgol ynghylch cyfrineiriau:

- ar adeg hyfforddiant sefydlu
- trwy bolisi e-Ddiogelwch a pholisi diogelu cyfrineiriau yr ysgol
- trwy'r Cytundeb Defnydd Derbyniol

Hysbysir disgyblion / myfyrwyr am bolisi'r ysgol ynghylch cyfrineiriau:

- mewn gwersi
- trwy'r Cytundeb Defnydd Derbyniol

## Archwilio / Monitro / Adroddiadau / Adolygu:

Bydd yr unigolyn cyfrifol (nodwch deitl ei swydd) yn sicrhau y cedwir cofnodion llawn o'r canlynol:

- Dynodiadau (ID) defnyddwyr a cheisiadau am gyfrineiriau newydd
- Mewngofnodion defnyddwyr
- Achosion sy'n ymwneud â diogelwch mewn perthynas â'r polisi hwn


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

# Hidlo

## Cyflwyniad

Mae'r hidlo o gynnwys y rhyngrwyd yn darparu modd pwysig o atal defnyddwyr rhag cael mynediad i ddeunydd sydd yn anghyfreithlon neu'n anaddas mewn cyd-destun addysgiadol. Ond nid all y system hidlo warantu 100% ei fod am wneud hyn, gan fod y cynnwys ar y we yn newid yn ddynamig ac mae technolegau newydd yn cael ei datblygu trwy'r adeg. Mae'n bwysig felly i ddeall mai dim ond un elfen ydy hidlo mewn strategaeth llawer mwy ar gyfer e-Ddiogelwch a defnydd derbyniol. Mae'n bwysig bod gan yr ysgol bolisi hidlo i reoli'r perygl cysylltiedig ac i ddarparu mesuriadau ataliol sydd yn berthnasol i'r sefyllfa yn yr ysgol yma.

## Cyfrifoldebau:

Bydd y cyfrifoldeb am reolaeth polisi hidlo'r ysgol yn cael ei ddal gan (mewnosod teitl). Byddant yn rheoli hidlo'r ysgol, yn unol â'r polisi yma ac yn cadw cofnodion / logiau o'r newidiadau ac o unrhyw dramgwyddau o'r systemau hidlo.

I sicrhau bod yna system o wiriadau a chydbwysedd, ac i amddiffyn y rhai sydd yn gyfrifol, mae'n rhaid i newidiadau i wasanaeth hidlo'r ysgol (dylai ysgolion ddewis ymatebion perthnasol):

- **cael ei gofnodi mewn cofnodion newid rheolaeth**
- **cael ei adrodd i ail berson cyfrifol** EF
- naill ai... cael ei adrodd i, a'i awdurdodi gan, ail berson cyfrifol cyn i'r newidiadau cael eu gwneud
- *neu... cael ei adrodd i ail berson cyfrifol EF bob 10 wythnos mewn ffurf archwiliad o'r cofnodion newid rheolaeth*
- *cael ei adrodd i'r Grŵp e-Ddiogelwch bob 3 MIS mewn ffurf archwiliad o'r cofnodion newid rheolaeth*

Mae cyfrifoldeb ar bob defnyddiwr i adrodd yn syth unrhyw drosedd o bolisi hidlo'r ysgol maent yn ymwybodol ohono, neu unrhyw wefannau dylai cael eu hidlo sydd ddim ar hyn o bryd, i'r (mewnosod teitl).

Ni ddylai defnyddwyr geisio defnyddio unrhyw raglenni neu feddalwedd gall alluogi nhw i osgoi'r systemau hidlo / diogelwch sydd yn weithredol i atal mynediad i'r fath ddeunydd.

## Datganiadau Polisi

Mae mynediad i'r rhyngrwyd yn cael ei hidlo i holl ddefnyddwyr. Mae mynediad gwahaniaethol i'r rhyngrwyd ar gael i staff a newidiadau hidlo unigol yn cael ei reoli gan yr ysgol. Mae cynnwys anghyfreithlon yn cael ei hidlo gan ddarparwr band llydan neu ddarparwr hidlo wrth ddefnyddio rhestr CAIC yr Internet Watch Foundation a rhestrau cynnwys anghyfreithlon eraill. Mae rhestrau hidlo cynnwys yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ac mae defnydd o'r rhyngrwyd yn cael ei gofnodi a'i fonitro'n aml. Yn ddelfrydol, mae'r broses monitro yn rhybuddio'r ysgol i doriadau'r polisi hidlo, a hyn yn cael ei weithredu arno wedyn. Mae yna lwybr clir ar gyfer adrodd a rheoli newidiadau i'r system hidlo. Pan fydd caniatâd i ddyfeisiau symudol personol gael mynediad i'r rhyngrwyd ar rwydwaith yr ysgol, bydd hidlo yn cael ei osod sydd yn gyson ag ymarferiadau'r ysgol.

- Naill ai - Mae'r ysgol yn cynnal ac yn cefnogi'r gwasanaeth hidlo rheoledig darparwyd gan y Darparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd
- Mae'r ysgol wedi darparu hidlo lefel-defnyddiwr gwell / gwahaniaethol trwy'r defnydd o'r rhaglen hidlo (
- Os bydd angen i'r staff technegol droi'r hidlo i ffwrdd am unrhyw reswm, neu i unrhyw ddefnyddiwr, mae'n rhaid i hyn gael ei gofnodi a'i wneud mewn proses sydd yn cael ei gytuno gan y Pennaeth (neu uwch arweinydd enwebedig arall)
- Mae dyfeisiau symudol sydd yn cael mynediad i gysylltiad rhyngrwyd yr ysgol (bod hyn yn ddyfeisiau'r ysgol neu'n rhai personol) yn amodol ar yr un safonau hidlo â dyfeisiau eraill ar systemau'r ysgol.
- Dylai unrhyw faterion hidlo gael eu hadrodd yn syth i'r darparwr hidlo.
- Bydd unrhyw gais gan staff i dynnu gwefannau o'r rhestr hidlo yn cael ei ystyried gan y staff technegol neu'r Darparwr Gwasanaeth Os yw'r cais yn cael ei gytuno, bydd y weithred yma yn

cael ei gofnodi a bydd cofnod o'r fath weithrediadau yn cael ei adolygu'n aml gan y Grŵp e-Ddiogelwch.

## Addysg / Hyfforddiant / Ymwybyddiaeth:

Bydd disgyblion / myfyrwyr yn cael gwybod am bwysigrwydd systemau hidlo trwy'r rhaglen addysg e-Ddiogelwch. Byddant hefyd yn cael eu rhybuddio am ganlyniadau ceisio gwyrdroi'r system hidlo.

Bydd defnyddwyr staff yn cael gwybod am y systemau hidlo trwy:

- y Cytundeb Defnydd Derbyniol
- hyfforddiant anwythiad
- cyfarfodydd staff, briffio, HMS

Bydd rhieni yn cael gwybod am bolisi hidlo'r ysgol drwy'r Cytundeb Defnydd Derbyniol a drwy sesiynau ymwybyddiaeth e-Ddiogelwch / cylchlythyr ayb.

## Newidiadau i'r System Hidlo:

Dylai defnyddwyr sydd yn cael mynediad, neu yn gwybod bod eraill yn gallu cael mynediad, i wefannau maent yn teimlo dylai cael eu hidlo (neu beidio cael eu hidlo) adrodd hynny i EF, a bydden nhw wedyn yn penderfynu gwneud newidiadau lefel ysgol neu beidio (fel uchod).

## Monitro:

Nid oes yr un system hidlo yn gallu gwarantu amddiffyniad 100% yn erbyn mynediad i wefannau anaddas, felly bydd yr ysgol yn monitro gweithgareddau defnyddwyr ar rwydwaith ac offer yr ysgol fel dangosir yn y Polisi e-Ddiogelwch a'r Cytundeb Defnydd Derbyniol.

## Archwiliad / Adrodd:

Bydd cofnodion o newidiadau rheoli ac o ddigwyddiadau hidlo ar gael i:

- Yr ail berson cyfrifol
- Grŵp e-Ddiogelwch
- Llywodraethwr e-Ddiogelwch / Pwyllgor Llywodraethwyr
- Darparwr hidlo allanol / Awdurdod Lleol / Heddlu ar gais

Bydd y polisi hidlo yn cael ei adolygu mewn ymateb i'r dystiolaeth darparir gan y cofnodion archwiliad o briodoldeb y ddarpariaeth bresennol.

## Arweiniad Pellach:

Efallai bydd ysgolion eisiau chwilio am arweiniad pellach. Awgrymir y canlynol:

- Arweiniad Technegol NEN: http://www.nen.gov.uk/advice/266/nen-guidance-notes.html
- Arweiniad Somerset i ysgolion - mae'r rhestr wirio hon yn arbennig o ddefnyddiol pan fydd ysgol yn defnyddio darparwr allanol ar gyfer ei gefnogaeth / diogelwch technegol: http://www.360safe.org.uk/Files/Documents/Questions-for-Technical-Support-Somerset.aspx


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## B2 Templed Polisi Trin Data Ysgol

### Awgrymiadau ynghylch defnyddio'r templed

## Templed Polisi Trin Data Ysgol

## Cyflwyniad

Dylai ysgolion a'u gweithwyr cyflogedig wneud popeth y gallant i sicrhau fod unrhyw ddeunydd o natur bersonol neu sensitif yn cael eu diogelu.

Mae holl aelodau cymuned yr ysgol yn gyfrifol am ofalu, pan fyddant yn trin, defnyddio neu drosglwyddo data personol, na ellir eu gweld gan unrhyw un:

- sydd heb gael caniatâd i weld y data hynny a / neu
- y sawl nad oes angen iddyn nhw weld y data hynny.

Gall tramgwyddau data effeithio'n ddifrifol ar yr unigolion a / neu'r sefydliadau sydd dan sylw, dwyn anfri ar yr ysgol, ac efallai arwain at gamau disgyblu, erlyniad troseddol a dirwyon gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, i'r ysgol a'r unigolion sy'n ymwneud â'r digwyddiadau hyn. Yn benodol, gall unrhyw achos o drosglwyddo data arwain at golli neu lygru data.

Mae'n rhaid i unrhyw un sydd â mynediad at ddata personol wybod, deall a chadw at y polisi hwn, sy'n cyfuno'r gofynion cyfreithiol a gynhwysir mewn deddfwriaeth diogelu data berthnasol a'r rheoliadau a'r canllawiau perthnasol (gan yr Awdurdod Lleol, lle bydd hynny'n berthnasol).

## Datganiadau polisi

Bydd yr ysgol yn cadw isafswm o ddata personol y bydd ei angen arni er mwyn gallu gwneud eu gwaith, ac ni fydd y cadw'r data hynny yn hwy na'r hyn sydd ei angen at ddibenion casglu'r data.

Ymdrechir i'r eithaf i sicrhau fod y data a gedwir yn gywir a chyfoes a bod anghywirdebau'n cael eu cywiro'n syth.

Caiff yr holl ddata personol eu caffael yn deg yn unol â'r "Hysbysiad Preifatrwydd" a'u prosesu'n gyfreithlon yn unol â'r "Amodau Prosesu".

## Data Personol

Bydd gan yr ysgol ac unigolion fynediad at ystod helaeth o wybodaeth a data personol. Gellir cadw'r data ar ffurf electronig neu ar bapur. Diffinnir data personol fel cyfuniad o eitemau data sy'n datgelu pwy yw unigolyn ac yn darparu gwybodaeth benodol amdano, ei deulu neu ei amgylchiadau. Bydd hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth bersonol am aelodau o gymuned yr ysgol - cynnwys *disgyblion / myfyrwyr*, aelodau staff a rhieni / gofalwyr e.e. enwau, cyfeiriadau, manylion cyswllt, manylion cyswllt gwarcheidwaeth gyfreithiol, cofnodion iechyd, cofnodion disgyblu
- Data cwricwlaidd / academaidd e.e. rhestrau dosbarthiadau, cofnodion cynnydd disgyblion / myfyrwyr, adroddiadau, geirdaon
- Cofnodion proffesiynol e.e. hanes cyflogaeth, cofnodion treth incwm ac yswiriant gwladol, cofnodion gwerthusiadau a geirdaon.
- Unrhyw wybodaeth arall y gellid ei datgelu gan rieni / gofalwyr neu gan asiantaethau sy'n gweithio gyda theuluoedd neu aelodau staff.

## Cyfrifoldebau

(nodwch enw neu deitl) yw'r Uwch Swyddog Risgiau Gwybodaeth Bydd yr unigolyn hwn yn sicrhau fod ganddo'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol a bydd yn:

- pennu a bod yn gyfrifol am bolisi risgiau gwybodaeth yr ysgol ac asesiadau risg
- penodi'r Perchnogion Asedau Gwybodaeth ( EF)


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

Bydd yr ysgol yn nodi'r Perchnogion Asedau Gwybodaeth (EF) mewn perthynas â'r mathau amrywiol o ddata a gedwir (e.e. manylion disgyblion / myfyrwyr / manylion staff / data asesu ac ati). Bydd EF yn rheoli ac yn mynd i'r afael â'r risgiau a all dramgwyddo'r wybodaeth a byddant yn deall:

- pa wybodaeth a gedwir, am faint caiff ei chadw, ac i ba ddiben
- sut mae gwybodaeth wedi cael ei haddasu neu sut ychwanegwyd ati dros gyfnod o amser, a
- phwy sydd â'r hawl i weld data gwarchodedig a pham.

Mae pawb yn yr ysgol yn gyfrifol am drin data gwarchodedig a sensitif yn ddiogel.

Bydd rhaid i Lywodraethwyr gydymffurfio'n llawn â'r polisi hwn pan fyddant yn gweld data personol wrth wneud eu dyletswyddau fel Llywodraethwyr.

## Cofrestru

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru fel Rheolydd Data ar y Rhestr Diogelu Data sydd gan y Comisiynydd Gwybodaeth. http://www.ico.gov.uk/what_we_cover/register_of_data_controllers.aspx

## Gwybodaeth i Rieni / Gofalwyr – yr "Hysbysiad Preifatrwydd"

Er mwyn cydymffurfio â gofynion prosesu teg y DDD, bydd yr ysgol yn hysbysu rhieni / gofalwyr pob disgybl / myfyriwr ynghylch y data a gesglir, a brosesir ac a gedwir ganddi ynghylch y disgyblion / myfyrwyr, dibenion cadw'r data hyn ac unrhyw drydydd parti (e.e. Awdurdod Lleol, Adran Addysg ayyb) y gellir trosglwyddo'r data iddo. Rhoddir yr hysbysiad preifatrwydd hwn i rieni / gofalwyr trwy SW Bydd rhieni / gofalwyr pobl ifanc sydd newydd gychwyn yn yr ysgol yn cael yr hysbysiad preifatrwydd trwy

## Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth

Bydd holl staff yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth trin data / diogelu data ac yn cael gwybod am eu cyfrifoldebau, fel disgrifiwyd yn y polisi yma trwy: (

- Hyfforddiant anwythiad i staff newydd
- Cyfarfodydd staff / briffio / HMS
- Cefnogaeth ac arweiniad o ddydd i ddydd gan Berchnogion Ased Gwybodaeth

## Asesiadau Risg

Bydd asesiadau risg gwybodaeth yn cael ei gynnal gan Berchnogion Ased Gwybodaeth i sefydlu'r mesuriadau diogelwch sydd eisoes mewn lle a phenderfynu os mai dyma'r rhai mwyaf addas a chost effeithiol. Bydd yr asesiad risg yn cynnwys:

- Adnabod y peryglon sydd yn bresennol;
- Barnu lefel y peryglon (y tebygrwydd a'r canlyniadau); ac
- Blaenoriaethu'r peryglon

Mae asesiadau risg yn broses cyfredol a dylai Ffurflen Gweithrediadau Risg Gwybodaeth gael ei lenwi (esiampl isod):

| ID Risg | Ased Gwybodaeth sy'n cael ei effeithio | Perchennog Ased Gwybodaeth | Marcio Amddiffynnol (Lefel Effaith) | Tebygrwydd | Lefel Risg Cyffredinol (isel, canolig, uchel) | Gweithred(iadau) i leihau risg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

## Lefelau Effaith a marcio amddiffynnol

| **Label Cynllun Marcio Amddiffynnol y Llywodraeth** | **Lefel Effaith (LE)** | **Yn berthnasol i ysgolion?** |
|---|---|---|
| HEB EI FARCIO'N WARCHODEDIG | 0 | Yn berthnasol i ysgolion |
| GWARCHODEDIG | 1 neu 2 | |
| CYFYNGEDIG | 3 | |
| CYFRINACHOL | 4 | Ddim yn berthnasol i ysgolion |
| CYFRINACHOL IAWN | 5 | |
| TRA CHYFRINACHOL | 6 | |

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod holl aelodau staff ysgol, contractwyr annibynnol sy'n gweithio iddynt, a phartneriaid cyflawni, yn cydymffurfio â chyfyngiadau sy'n berthnasol i'r mynediad, triniaeth a chadw o ddata cyfrinachol fel Gwarchodedig, Cyfyngedig neu'n uwch. Mae deunydd heb ei farcio yn cael ei ystyried yn 'annosbarthedig'. Efallai bydd y termau 'ANNOSBARTHEDIG' neu 'HEB' neu 'HEB EI FARCIO'N WARCHODEDIG yn cael eu defnyddio i ddangos yn gadarn nad oes angen marcio amddiffynnol.

Bydd yr holl ddogfennau (â llaw neu ddigidol) sydd yn cynnwys data gwarchodedig neu gyfyngedig, yn cael ei labelu'n gywir gyda'r Lefel Effaith yn cael ei ddangos yn y pennawd ac yn y dosbarthiad Rhyddhau a Dinistrio yn y troedyn.

Pan fydd data yn gyfanredol mae defnyddwyr angen bod yn ymwybodol gall y lefel effaith dilynol fod yn uwch nag lefelau effaith unigol y data gwreiddiol. Mae cyfuno mwy a mwy o elfennau data unigol gyda'i gilydd mewn adroddiad neu arolwg data yn cynyddu'r effaith o dramgwyddiad. Bydd tramgwyddo sydd yn rhoi myfyrwyr / disgyblion mewn perygl difrifol o niwed yn cael mwy o effaith nag perygl sydd yn eu rhoi mewn perygl isel o niwed. Bydd niwed sylweddol tymor hir i enw da unrhyw un yn cael mwy o effaith nag niwed gallai achosi embaras byrdymor.

Dylai dangos marciau rhyddhau a dinistrio yn y troedyn ee. "Dileu neu rwygo'r wybodaeth yma yn ddiogel ar ôl gorffen".

## Storio Diogel a mynediad i ddata

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod systemau TGCh yr ysgol wedi'u gosod fel bod bodolaeth ffeiliau sydd wedi'u hamddiffyn wedi'u cuddio oddi wrth ddefnyddwyr heb awdurdod a bod cliriad yn cael ei aseinio i ddefnyddwyr fydd yn pennu pa ffeiliau sydd yn agored iddyn nhw. Bydd mynediad i ddata gwarchodedig yn cael ei reoli yn ôl swydd y defnyddiwr. Ni fydd aelodau staff, fel mater o drefn, yn cael mynediad i'r system rheoli gwybodaeth gyfan.

Bydd holl ddefnyddwyr yn defnyddio cyfrineiriau cryf fydd yn gorfod cael eu newid yn rheolaidd. Ni ddylid byth rhannu cyfrineiriau defnyddwyr.

Dim ond ar beiriannau sydd wedi'u hamddiffyn yn ddiogel gyda chyfrinair caniateir mynediad i ddata personol. Bydd unrhyw ddyfais sydd yn gallu cael ei ddefnyddio i gael mynediad i ddata yn gorfod cael ei gloi os yw'n cael ei adael (hyd yn oed am gyfnodau byr iawn) a'i osod i gloi yn awtomatig os nad yw'n cael ei ddefnyddio am bum munud.

Bydd angen i holl gyfryngau storio gael eu cadw mewn amgylchedd diogel addas sydd yn osgoi perygl corfforol, colled neu ddirywiad electronig.

Dim ond ar offer yr ysgol (gan gynnwys cyfrifiaduron a chyfryngau storio symudol, ble caniateir) gall storio data personol. Ni chaniateir defnyddio offer preifat) i gadw data personol.

Pan fydd data personol yn cael ei storio ar unrhyw system gyfrifiadurol symudol, cof bach USB neu unrhyw gyfryngau symudadwy fel


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

arall:

- mae'n rhaid i'r data fod wedi cael ei amgryptio a'i amddiffyn gan gyfrinair,
- bydd angen i'r ddyfais gael ei amddiffyn â chyfrinair
- mae'n rhaid i'r ddyfais gynnig meddalwedd gwirio firws a maleiswedd wedi'i gymeradwyo ac
- bydd angen i'r data gael ei ddileu yn ddiogel o'r ddyfais, yn unol â pholisi'r ysgol (isod) unwaith iddo gael ei drosglwyddo neu nad oes defnydd iddo bellach.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau clir ar gyfer cadw wrth gefn, cael mynediad ac adfer holl ddata sy'n cael ei gadw ar systemau'r ysgol yn awtomatig, gan gynnwys cadw data wrth gefn oddi ar y safle.

The school has clear policy and procedures for the use of "Cloud Based Storage Systems" (for example Office365) and is aware that data held in remote and cloud storage is still required to be protected in line with the Data Protection Act. The school will ensure that it is satisfied with controls put in place by remote / cloud based data services providers to protect the data. (see appendix for further information and the ICO Guidance: http://www.ico.org.uk/for_organisations/guidance_index/~/media/documents/library/Data_Protection/Practical_application/cloud_computing_guidance_for_organisations.ashx)

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau clir ar gyfer defnyddio "Systemau Storio yn Seiliedig ar y Cwmwl" (er esiampl Office 365) ac mae'n ymwybodol bod data sy'n cael ei ddal mewn storfa bell ac yn y cwmwl hefyd angen cael ei amddiffyn yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Bydd angen i'r ysgol sicrhau ei fod yn hapus gyda'r rheolyddion sydd wedi'u gosod gan ddarparwyr gwasanaethau data pell / cwmwl. Bydd yr ysgol yn sicrhau ei fod yn hapus gyda'r rheolyddion sydd wedi'u gosod gan ddarparwyr gwasanaethau data pell/cwmwl i ddiogelu'r data. (gweler atodiad am fanylion pellach a Chanllawiau'r ICO: http://www.ico.org.uk/for_organisations/guidance_index/~/media/documents/library/Data_Protection/Practical_application/cloud_computing_guidance_for_organisations.ashx)

Fel Rheolydd Data, mae'r ysgol yn gyfrifol am ddiogelwch unrhyw ddata sy'n cael ei basio i "drydydd parti". Bydd cymalau Diogelu Data yn cael ei gynnwys ymhob cytundeb ble mae'n debyg bydd data yn cael ei basio i drydydd parti.

Rhaid cadw pob data Gwarchodedig a Chyfyngedig (neu'n uwch) sydd wedi'u hargraffu ar bapur o dan glo, bod hyn ar neu oddi ar y safle.

Mae'r ysgol yn adnabod fod gwrthrych data o dan Adran 7 o'r Ddeddf Diogelu Data http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/section/7 efo nifer o hawliau yn gysylltiol â'u data personol, a'r prif un ydy hawl mynediad. Mae trefn wedi'i osod i ymdopi â Cheisiadau Gwrthrych am Wybodaeth ee. Cais ysgrifenedig i weld holl, neu ran o, ddata personol dalir gan y rheolydd data mewn cysylltiad â'r gwrthrych data. Mae gan wrthrychau data'r hawl i wybod: os ydy'r rheolydd data yn dal data personol amdanynt; disgrifiad o'r data yma; pwrpas prosesu'r data yma; ffynonellau'r data yma; i bwy gall y data yma gael ei ddatgelu; a chopi o'r holl ddata personol sydd yn cael ei ddal amdanynt. Mewn amgylchiadau penodol gall y gwrthrych data hefyd arfer ei hawliau mewn cysylltiad â'r cywiriad; blocio; dilead a dinistrio o ddata.

## Trosglwyddiad diogel o ddata a mynediad oddi allan i'r ysgol

Mae'r ysgol yn cydnabod bod defnyddwyr oddi allan i'r ysgol yn gallu cael mynediad i ddata personol, neu'n gallu cael ei drosglwyddo i'r Awdurdod Lleol neu asiantaethau eraill. Yn yr amgylchiadau yma:

- Ni chaniateir i ddefnyddwyr dynnu na chopïo data personol, sydd yn gyfyngedig neu wedi'i amddiffyn, o'r ysgol neu adeilad awdurdodedig heb ganiatâd ac os nad yw'r cyfryngau wedi'i amgryptio a'i amddiffyn â chyfrinair ac yn cael ei drosglwyddo'n ddiogel i gael ei gadw mewn lleoliad diogel
- Mae'n rhaid i ddefnyddwyr gymryd gofal arbennig nad yw defnyddwyr eraill yn cael mynediad i gyfrifiaduron neu ddyfeisiau symudol sydd yn cynnwys data personol (ee aelodau teulu) pan oddi allan i'r ysgol
- Pan fydd defnyddiwr awdurdodedig eisiau mynediad i ddata personol cyfyngedig neu wedi'i amddiffyn oddi allan i adeilad y sefydliad (er esiampl, gan aelod o staff i weithio o gartref), dylai cael mynediad pell diogel i'r system rheoli gwybodaeth neu blatfform dysgu os oes modd.
- Os nad yw mynediad pell diogel yn bosib, dylai defnyddwyr ddim ond tynnu neu gopïo data personol neu sensitif o'r sefydliad neu adeilad awdurdodedig os yw'r cyfryngau storio, dyfais gludadwy neu symudol wedi'i amgryptio ac yn cael ei drawsgludo'n ddiogel ar gyfer ei storio mewn lleoliad diogel.

 © Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

- Dylai defnyddwyr amddiffyn holl ddyfeisiau cludadwy a symudol, gan gynnwys cyfryngau, sy'n cael ei ddefnyddio i storio a throsglwyddo gwybodaeth bersonol gan ddefnyddio meddalwedd amgryptio cymeradwy; ac
- Dylai cymryd gofal arbennig os yw data 0yn cael ei gymryd neu ei drosglwyddo i wlad arall, yn enwedig y tu allan i Ewrop, a dylai cael cyngor gan yr awdurdod lleol yn y digwyddiad yma.

## Gwaredu data

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio gyda'r gofynion ar gyfer dinistrio diogel o ddata personol pan nad oes defnydd iddo bellach.

Mae'n rhaid gwaredu data personol, ar ffurf electroneg neu ar bapur, mewn ffordd sydd yn gwneud ail-lunio yn annhebygol iawn. Dylai ffeiliau electroneg gael eu trosysgrifo yn ddiogel, mewn cytundeb â chyfarwyddyd y llywodraeth a dylai carpio, llosgi neu chwalu fel arall, data ar gyfryngau eraill.

Dylai cadw Cofnod Dinistrio o'r holl ddata sydd yn cael ei waredu. Dylai'r log gynnwys ID y ddogfen, dosbarthiad, dyddiad dinistrio, dull ac awdurdodiad.

## Cofnodi Archwiliad / Adrodd / Trin Digwyddiad

Mae'n ymarfer da, fel argymhellwyd yn y ddogfen "Trefn Trin Data mewn Llywodraeth", bod gweithgareddau defnyddwyr data, o ran data personol sy'n cael ei ddal yn electronig, yn cael ei logio a bod y cofnodion yma yn cael ei fonitro gan unigolion cyfrifol.

Bydd y cofnodion archwiliad yn cael eu cadw i ddarparu tystiolaeth o dramgwyddau diogelwch data ar ddamwain neu yn fwriadol - gan gynnwys colli data wedi'i amddiffyn neu dramgwyddau polisi defnydd derbyniol, er esiampl. Mae gan yr ysgol bolisi ar gyfer adrodd, rheoli ac adennill o ddigwyddiadau perygl gwybodaeth, sydd yn sefydlu:

- "person cyfrifol" ar gyfer pob digwyddiad;
- cynllun cyfathrebu, gan gynnwys trefn cynnydd;
- sy'n arwain at gynllun gweithredu ar gyfer datrysiad sydyn; a
- chynllun gweithredu i beidio dychwelyd a chodi ymwybyddiaeth bellach.

Bydd angen adrodd holl ddigwyddiadau diogelu data arwyddocaol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth trwy'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth ar sail y polisi trin digwyddiadau a chynllun cyfathrebu lleol.

## Defnydd o dechnolegau a Marcio Amddiffynnol

Mae'r canlynol yn darparu canllaw defnyddiol:

| | **Y wybodaeth** | **Y dechnoleg** | **Nodiadau ar Farciau Amddiffynnol (Lefel Effaith)** |
|---|---|---|---|
| **Bywyd a digwyddiadau ysgol** | Mae tymhorau'r ysgol, gwyliau, diwrnodau hyfforddiant, y cwricwlwm, gweithgareddau allgyrsiol, digwyddiadau, arddangosfeydd o waith y disgyblion, bwydlenni cinio, gwasanaethau estynedig, digwyddiadau ymgynghoriad rhieni | Mae defnyddio technoleg gellir cael mynediad cyhoeddus iddo, fel gwefannau neu borth yr ysgol, cylchlythyrau e-bost, gwasanaethau tanysgrifiad testun, yn ymarferiad cyffredin | Bydd y mwyafrif o'r wybodaeth yma yn disgyn i'r categori HEB EI FARCIO'N WARCHODEDIG (Lefel Effaith 0) |


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dysgu a chyflawniad** | Cyflawniadau academaidd, cymdeithasol ac ymddygiadol disgybl / myfyriwr unigol, cynyddiad dysgu, ymddygiad dysgu, sut gall rhieni gefnogi dysgu eu plentyn, asesiadau, cyrhaeddiad, presenoldeb, cwricwlwm unigol a phersonol ac anghenion addysgiadol. | Fel arfer bydd ysgolion yn darparu gwybodaeth i rieni sy'n mewngofnodi i system sy'n eu darparu gyda mynediad diogel addas, fel Platfform neu Borth Dysgu, neu drwy gyfathrebiad i ddyfais bersonol neu gyfrif e-bost sy'n perthyn i'r rhiant. | Bydd y mwyafrif o'r wybodaeth yma yn dod o dan y categori (Lefel Effaith 2). Efallai bydd yna fyfyrwyr / disgyblion sydd angen marcio'u data personol gyda CHYFYNGEDIG (Lefel Effaith 3) neu'n uwch. Er esiampl, cyfeiriad cartref plentyn mewn perygl. Yn yr achos yma, efallai bydd yr ysgol yn penderfynu peidio darparu'r cofnod disgybl / myfyriwr yma yn y ffordd yma. |
| **Negeseuon a rhybuddion** | Presenoldeb, ymddygiad, cyflawniad, salwch, ysgol ar gau, trefniadau trafnidiaeth, a gwybodaeth arall gallai fod yn bwysig i hysbysu neu gysylltu gyda rhiant cyn gynted â phosib. Efallai bod hyn yn fwy pwysig pan fydd angen cysylltu gyda rhiant am wybodaeth gall ei ystyried yn rhy sensitif i'w ddarparu ar-lein fel arall. | Mae e-bost a negeseuo testun yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin gan ysgolion i gysylltu a chadw rhieni'n wybodus. Pan fydd rhieni yn cael mynediad i wybodaeth ar-lein yn aml yna efallai defnyddir systemau ee Platfformau neu Byrth Dysgu, i rybuddio rhieni am faterion trwy "ddangos-fyrddau" gwybodaeth, neu gael eu defnyddio i ddarparu manylion pellach a chyd-destun. | Bydd y mwyafrif o'r wybodaeth yma yn dod o dan y categori GWARCHODEDIG (Effaith Lefel 1). Ond, gan nad yw'n ymarferol i amgryptio e-byst neu negeseuon testun i rieni, ni ddylai ysgolion yrru gwybodaeth bersonol fanwl.<br>Bydd rhybuddion cyffredin, dienw, am yr ysgol yn cau neu drefniadau trafnidiaeth yn dod o dan y categori HEB EI FARCIO'N WARCHODEDIG (Lefel Effaith 0). |

# Atodiadau: Materion ychwanegol / dogfennau sy’n ymwneud â Thrin Data Personol mewn Ysgolion:

## Defnyddio Gwybodaeth Fiometrig

Mae Deddf Diogelu Rhyddid 2012 yn cynnwys mesurau a wnaiff effeithio ar ysgolion a cholegau sy’n defnyddio systemau adnabod biometrig, megis systemau adnabod olion bysedd a sganio wynebau:

- Yn achos pob disgybl ysgol a choleg sydd dan 18 oed, rhaid iddynt gael caniatâd ysgrifenedig rhiant cyn gallant gofnodi a phrosesu manylion biometrig ei blentyn.
- Rhaid iddynt drin y data â gofal priodol a chydymffurfio â’r egwyddorion diogelu data sydd wedi’u hamlinellu yn Neddf Diogelu Data 1998.
- Bydd rhaid iddynt ddarparu dull arall o gyrchu gwasanaethau os bydd rhiant neu ddisgybl yn gwrthod rhoi caniatâd.

Bellach, ni all ysgolion ddefnyddio data biometrig disgyblion heb ganiatâd rhiant. Daeth y cyngor hwn i rym ym Medi 2013. Efallai bydd ysgolion yn dymuno ystyried y newidiadau hyn wrth adolygu eu Templed Trin Data Personol. Efallai bydd ysgolion yn dymuno cynnwys y gweithdrefnau caniatâd rhieni mewn ffurflenni caniatâd rhieni presennol (e.e. ffurflen PDD / caniatâd i ddefnyddio Delweddau Digidol a Fideo).

## Defnyddio Gwasanaethau Cwmwl

Mae’r symudiad at gyfrifiaduron tabled a thechnolegau eraill mewn ysgolion yn cynnig cyfleoedd yn ogystal â heriau. Yn ei hanfod, mae’r cyfleoedd yn ymwneud ag addysgu a dysgu; mae’r heriau yn ymwneud â rheoli’r newid addysgol hwn yn llwyddiannus, a thywys staff, rhieni a disgyblion trwy’r newidiad technolegol hwn. Wrth wraidd y newid hwn, mae symudiad oddi wrth ddyfeisiau neu systemau lle caiff gwybodaeth ei storio'n lleol, at ddyfeisiau a all gyrchu data a storir 'yn y cwmwl'. Yn union fel mae angen i gyfrifiadur personol fod wedi’i gysylltu â’r rhwydwaith i gyrchu data sydd wedi’i storio, mae angen cysylltu’r dyfeisiau symudol a’r cyfrifiaduron tabled hyn â’r cwmwl. Darperir y cysylltiad hwn trwy fynediad diwifr.

 © Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

Gellir cadw meddalwedd yn y cwmwl hefyd, sy'n golygu nad oes angen gosod rhaglenni ar y cyfrifiaduron eu hunain. Mae apiau yn cynnig cyfle i greu cyfleoedd dysgu rhad a hyblyg, a gellir eu defnyddio ar amrywiaeth o ddyfeisiau ac maen nhw'n gallu creu cyfleoedd dysgu personol ar lefel newydd.

Mae ysgolion sy'n defnyddio llwyfan dysgu Hwb+ eisoes wedi cael Office 365 sy'n cynnig rhaglen e-bost, calendr a chyfleusterau storio yn y cwmwl yn ogystal ag MS Office. Oherwydd ei natur, mae Office 365 ar gael ar unrhyw ddyfais sydd wedi'i chysylltu â'r rhyngrwyd, sy'n golygu y gellir defnyddio'r gwasanaethau cwmwl hyn yn yr ysgol neu gartref ar ffonau clyfar, cyfrifiaduron tabled, gliniaduron, nodfyrddau a chyfrifiaduron personol. Efallai bydd yr ysgol yn dymuno annog dull gweithredu 'Dewch a'ch Dyfais Eich Hun', a fydd yn golygu gorfod cryfhau'r Polisi/Cytundeb Defnydd Derbyniol presennol o leiaf.

Yn union fel mae gan ysgol gyfrifoldebau yn ymwneud â data ar ei rhwydwaith ffisegol, mae'r un cyfrifoldebau yn bodoli wrth ddelio â data a gedwir yn y cwmwl h.y. rhaid eu diogelu yn yr un modd yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (DDD) a gellir gwneud ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â'r data hynny.

## Rhyddid Gwybodaeth

Efallai gall rhyddid gwybodaeth fynnu fod unrhyw beth a ysgrifennir gennych mewn perthynas â swyddogaeth broffesiynol yn cael ei ddatgelu'n gyhoeddus. Gallai hynny olygu fod rhaid i chi ystyried am faint mae angen storio cynnwys a pha mor rhwydd yw adfer  y gwaith o archif cwmwl.
Nid yw llawer o wasanaethau cwmwl wedi cael eu cynllunio i storio cynnwys dros y tymor hir, yn enwedig cyfathrebiadau niferus iawn megis e-byst. Dylai ysgolion ystyried sut gallant ddiogelu system leol a chreu copïau wrth gefn o ddata y gellid eu hystyried yn sensitif neu bwysig.

Mae crynodeb o arferion da o ran delio â cheisiadau ar gael yma

### Y Ddeddf Diogelu Data

Fel unrhyw sefydliad arall, mae'n rhaid i ysgolion gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data (DDD) a'i hwyth egwyddor sylfaenol. Mae'r DDD yn cyfeirio at 'ddata personol' – gellir disgrifio hyn yn gyffredinol fel gwybodaeth sy'n datgelu pwy yw unigolyn ac sy'n bersonol i unigolyn.

Mae'r DDD yn cynnwys wyth 'Egwyddor Diogelu Data' ac mae'n cynnwys y gofynion canlynol ynghylch yr egwyddorion hynny:

- Rhaid prosesu'n deg a chyfreithlon
- Dylid casglu at ddibenion penodedig a chyfreithlon
- Dylai fod yn ddigonol a pherthnasol, ond nid yn ormodol
- Dylai fod yn gywir a chyfoes
- Ni ddylai cadw am gyfnod sy'n fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol
- Rhaid prosesu yn unol â hawliau 'gwrthrychau data' (hawliau'r unigolion)
- Rhaid ei gadw'n ddiogel
- Ni ellir trosglwyddo i wlad arall heb ei ddiogelu'n ddigonol

Er nad yw pob darn o wybodaeth yn 'bersonol', mae'n werth cofio y bydd lefelau sensitifrwydd gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn bersonol yn amrywio yn ôl yr effeithiau a allai ddeillio o dramgwyddo'r wybodaeth honno.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi llunio adroddiad i gynorthwyo ysgolion i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu data; gallwch ddarllen yr adroddiad sy'n cynnwys cyngor ynghylch diogelu data i ysgolion yma ac mae crynodeb syml o'r wybodaeth ar gael yma.

### Diogelu

Mae cyfrifoldebau hefyd ynghylch diogelu mewn perthynas â'r defnydd o dechnoleg sy'n cynnwys (efallai mewn partneriaeth â darparwr eich gwasanaeth):

- Monitro'r defnydd o systemau yn effeithiol i ganfod anawsterau diogelu posibl a gwirioneddol
- Monitro, rhybuddio ac ymateb i weithgarwch anghyfreithlon
- Sicrhau fod darpariaeth diogelu cyson ar gael o fewn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol os bydd dyfeisiau/gwasanaethau yn gadael y safle

### Gweithgarwch Troseddol


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

Mae gan ysgolion gyfrifoldeb i hysbysu'r Heddlu am unrhyw weithgarwch anghyfreithlon neu droseddol yn syth. Mae crynodeb fanwl o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu ac ysgolion ar gael mewn rhan arall o'r ddogfennaeth hon.

Bydd gwasanaethau eraill fel Facebook a Twitter yn offer defnyddiol pan ddefnyddir cwmwl yn y dosbarth ac oddi allan i'r dosbarth, ond mae'n bwysig cofio am gyfyngiadau oedran yn y cyd-destun hwn hefyd. Mae Cyfraith yr Unol Daleithiau yn mynnu fod unrhyw gwmni sy'n gweithredu o fewn yr UD yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Preifatrwydd Ar-lein Plant (COPPA) sy'n deddfu yn erbyn cwmnïau sy'n storio, prosesu a rheoli gwybodaeth ynghylch plant sy'n 13 mlwydd oed neu'n iau, ac unrhyw farchnata sy'n targedu'r grŵp oedran hwnnw.

## Ble mae'r cwmwl?

Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o systemau addysgol ddefnyddio gwybodaeth bersonol i allu gwneud eu gwaith. Mae'r DDD (Egwyddor 8) yn datgan na ellir trosglwyddo data personol i unrhyw wlad arall heb sefydlu dulliau digonol o'u diogelu. Gall gofynion diogelu data amrywio'n sylweddol ar draws y byd. Mae gwledydd yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn mynd i'r afael â diogelu data yn wahanol i'r gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE, ac maent efallai yn fwy caeth o ran manylion a chyfrifoldebau defnyddwyr data nag yn yr Unol Daleithiau. Cedwir Microsoft Office 365 mewn canolfannau data yn Amsterdam a Dulyn.

## Pryderon ynghylch diogelwch

A all unrhyw un weld y data yn y ganolfan ble lleolir y cwmwl? Mae angen i ganolfannau data sicrhau fod ganddynt ymyriadau ffisegol trylwyr yn eu lle i warchod rhag tramgwyddo data yn sgil cyrchu mewnol neu allanol. Mae mecanweithiau diogelu soffistigedig yn eu lle i atal unigolion allanol rhag hacio'r data. Er na ellir gwarantu bob tro fod hyn yn hollol ddiogel, bydd y diogelwch hwn yn aml iawn y tu hwnt i allu ysgol unigol, ac felly gellir ystyried fod hyn yn enghraifft o ddyletswydd gofal rhesymol.

Mae tramgwyddo data trwy ddyfeisiau yn llawer mwy tebygol bellach o gofio fod dyfeisiau'n cael eu cludo i'r ysgol ac oddi yno mewn bagiau ac ar fysys, neu'n cael eu gadael heb eu goruchwylio adref neu yn yr ysgol, felly mae diogelwch bellach yn fater llawer pwysicach ar lefel y defnyddiwr nag oedd yn flaenorol. Os collir neu torrir dyfais, mantais fawr systemau cwmwl, ac eithrio gosodiadau lleol syml, yw'r ffaith fod cynnwys yn cael ei gadw yn y cwmwl, felly ni 'chollir' data yn yr un modd â phe bai eich gliniadur yn cael ei golli neu pe bai ei ddisg galed yn methu. Gall gwasanaethau cwmwl gynnig systemau rheoli dyfeisiau a all gloi neu leoli dyfais os aiff ar goll.

Mae cyfrineiriau a dilysu yn hollbwysig ar unrhyw adeg i sicrhau y gellir cyrchu'r data yn ddiogel, yn enwedig yn achos data a gedwir yn y cwmwl. Dyma rai pwyntiau y dylid eu hystyried:

- A yw cyfrineiriau yn gryf?
- A yw defnyddwyr yn gwybod beth yw cyfrinair cryf?
- A fyddwch yn mynnu fod defnyddwyr yn newid eu cyfrineiriau yn rheolaidd? Bob 60 diwrnod? Bydd llawer o fusnesau'n gwneud hynny fel arfer da.
- A addysgir defnyddwyr am arferion da mewn perthynas â chyfrineiriau? A gefnogir hyn â pholisi eglur a dibynadwy ynghylch cyfrineiriau?

Os oes arnoch angen templed, gellir canfod un fel rhan o'r casgliad hwn o bolisïau.

Mae'n bwysig sicrhau hefyd fod diwylliant eglur a dibynadwy yn bodoli ynghylch materion y dylid adrodd yn eu cylch megis peryglu a cholli data neu arferion anfoesegol. Ni fydd hyn yn digwydd yn awtomatig a rhaid addysgu defnyddwyr amdano. Unwaith eto, mae'r arferion da synnwyr cyffredin a beunyddiol yn ymwneud â mewngofnodi i systemau ac allgofnodi ar ôl gorffen, bod â chynllun rheoli yn ei le rhag ofn i rywbeth fynd o'i le, a sicrhau fod mecanweithiau adrodd sydd yn eu lle hefyd yn berthnasol i dechnolegau cwmwl.
Er enghraifft, mae Grid Dysgu'r De-orllewin wedi cynhyrchu Cwricwlwm Llythrennedd Digidol a Dinasyddiaeth o'r Cyfnod Sylfaen i Flwyddyn 10+ sy'n cynnwys amrywiaeth o adrannau, ac mae un ohonynt yn canolbwyntio ar Breifatrwydd a Diogelwch. Bydd disgyblion a myfyrwyr yn dysgu strategaethau i reoli eu gwybodaeth ar-lein a'i ddiogelu rhag peryglon ar-lein megis dwyn hunaniaeth a gwe-rwydo. Byddan nhw'n dysgu sut i greu cyfrineiriau cryf, sut i osgoi sgamiau a chynllwynion, a sut i ddadansoddi polisïau preifatrwydd. Mae'r fersiwn o'r adnodd hwn i Gymru ar gael trwy law Hwb (Tachwedd 2014).

## Monitro defnyddwyr

Mae gan rwydweithiau lleol sydd ar y safle y fantais o fod yn eithaf rhwydd i'w hidlo a'u monitro am ddefnydd anaddas neu anghyfreithlon, ac mae'r systemau hyn eisoes yn eu lle mewn nifer o ysgolion. Gellir darparu meddalwedd hidlo fel rhan o ddarpariaeth rhyngrwyd ysgol, yn enwedig os caiff y gwasanaeth hwnnw ei ddarparu trwy awdurdod lleol/unedol. Gall ysgol ddewis darparu ei meddalwedd hidlo ei hun trwy amrywiaeth o atebion masnachol.

 © Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

Fodd bynnag, pan symudir gwasanaethau i amgylchedd cwmwl ehangach a gaiff ei letya gan bartner allanol, bydd yn anoddach gwybod beth fydd defnyddwyr yn ei storio neu'n ei gyrchu, yn enwedig os byddant yn cysylltu â'r system oddi allan i'r ysgol yn eu cartref.
O gofio'r holl ffolderi defnyddwyr a'r portffolios a'u cyfrineiriau unigol a'u cynnwys amrywiol iawn, sut allwch sicrhau na chânt eu defnyddio i storio deunyddiau anaddas? Deunyddiau anghyfreithlon? Mae'r ysgol yn darparu offer megis Office 365, felly disgwylir y dylai'r ysgol sicrhau fod defnyddwyr yn gweithio mewn amgylchedd sydd mor ddiogel ag y bo modd.

Mae Microsoft yn datgan yn eu cytundebau defnyddwyr eu bod yn cadw'r hawl i fynd ati i archwilio ffeiliau sydd wedi'u storio.
Mae hyn yn golygu hefyd fod rhaid i'r ysgol fod yn eglur ynghylch y disgwyliadau sy'n ymwneud â chynnwys anghyfreithlon ac anaddas, a sut mae'n bwriadu sicrhau y caiff y disgwyliadau hynny eu cyflawni. Gallai'r rhain gynnwys:

- Cytundeb eglur ac effeithiol trwy Bolisi Defnydd Derbyniol neu ragsgrin cyfrifiadur sy'n cynnwys botwm "cytuno"
- Datganiadau positif ynghylch y defnydd o dechnoleg sydd i'w gweld yn y mannau ble gellir defnyddio'r dechnoleg honno (mae posteri wedi'u cynllunio gan fyfyrwyr yn neilltuol o effeithiol)
- Addysg weithredol i wella ymwybyddiaeth o ystyron anghyfreithlon neu anaddas
- Hyfforddi staff i adnabod cynnwys anghyfreithlon a hysbysu eu rheolwyr am hynny
- Atgoffa defnyddwyr fod Darparwyr Gwasanaethau Cwmwl yn gallu sganio cynnwys sydd wedi'i storio ar eu gweinyddwyr a byddant yn gwneud hynny, a bod archif yn bodoli
- Archwilio dyfeisiau symudol yn ddirybudd yn rheolaidd a hysbysu'r ffaith y caiff dyfeisiau'r ysgol a chyfryngau cludadwy eu harchwilio
- Egluro a chyfathrebu y caiff One Drives a ddarperir fel rhan o ddarpariaeth cwmwl ysgol eu harchwilio'n ddirybudd ar hap trwy ailosod cyfrineiriau rhagosod er mwyn caniatáu archwilio, neu ddatgan y disgwylir i ddefnyddwyr rannu eu ffolderi ar-lein â'u hathro. Darperir y system at ddibenion addysgol, felly ni ddylai gynnwys unrhyw beth nad yw'n gysylltiedig â dysgu.

### Rheoli cyfrifon a defnyddwyr

Mae bod yn gyfrifol am eich cyfrif eich hun ar gyfrifiadur tabled neu ffôn clyfar yn brofiad grymusol; gallwch wneud dewisiadau ynghylch y gosodiadau a'r apiau y dymunwch eu defnyddio; y gwasanaethau y dymunwch danysgrifio iddynt a faint o luniau neu ddogfennau y dymunwch eu storio arno. Gall gosod degau o ddyfeisiau a ddefnyddir gan gannoedd o ddefnyddwyr arwain at ystyriaethau cwbl wahanol:

- Dosbarthu ac amserlennu dyfeisiau sy'n eiddo i'r ysgol (yn enwedig y rhai y gellir mynd â hwy adref?)
- A all ddefnyddwyr storio cynnwys yn lleol ar y cyfrifiadur tabled e.e. lluniau?
- A all rhwydwaith a chysylltedd yr ysgol gynnal y defnydd o nifer fawr o ddyfeisiau?
- A oes un proffil safonol i bawb neu a all pob defnyddiwr addasu hynny?
- Sut caiff y proffiliau hynny eu rheoli neu eu cyfnewid?
- A ganiateir i ddyfeisiau personol gael eu defnyddio i gyrchu system yr ysgol (BYOD)?

Gall haen Rheoli Dyfeisiau Symudol fod yn hollbwysig er mwyn sefydlu hawliau i gyrchu'r technolegau hyn. Efallai bydd angen i chi ymgynghori â darparwr eich gwasanaeth i weld pa ddewisiadau sydd ar gael i chi.

### Os aiff pethau o'u lle

Fel unrhyw fater sy'n ymwneud â diogelu, rhaid sefydlu arferion rheoli digwyddiadau sy'n glir a thrwyadl, ac yn gyson â pholisïau diogelu eraill:

- Polisi eglur a gyfathrebir yn dda
- Trefniadau effeithiol i warchod a chofnodi tystiolaeth
- Llwybrau adrodd sydd wedi ennill eu plwyf ac a gyfathrebir yn dda, ac mae pawb yn eu parchu ac wedi cytuno i'w dilyn
- Cosbau a gyfathrebir yn glir y mae pob defnyddiwr wedi cytuno iddynt ac wedi cael gwybod amdanynt
- Llwybrau archwilio a ddefnyddir i lywio ymyriadau ac arferion y dyfodol

## Pa bolisïau a gweithdrefnau a ddylid eu sefydlu ar gyfer defnyddwyr unigol gwasanaethau cwmwl?


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

Mae'r ysgol yn gyfrifol yn y pen draw am y cytundeb â darparwr y system.  Mae Atodiad C6 yn cynnig crynodeb o faterion sy'n ymwneud ag Office 365, ac ysgrifennwyd y rhain â chymorth Microsoft:

Mae'r ddogfen yn canolbwyntio ar Office 365, ond mae'n cyfeirio at faterion pwysig i'w hystyried os bydd yr ysgol yn ystyried prynu gwasanaethau gan ddarparwr arall.

## Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig

Dylai ysgol gofio fod Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig wedi newid, a bydd rhaid iddynt ystyried y gofynion hyn yng nghyd-destun rheoli eu gwefannau.

## Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Mae'n rhaid i bob ysgol sefydlu Polisi Rhyddid Gwybodaeth sy'n amlinellu sut bydd yn delio â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Yn y polisi hwn, dylai'r ysgol:

- Dirprwyo cyfrifoldeb dydd i ddydd am y polisi rhyddid gwybodaeth i'r Pennaeth, a darparu cyngor, arweiniad, cyhoeddusrwydd a dehongliad o bolisi'r ysgol.
- Ystyried clustnodi unigolyn sydd â chyfrifoldeb am faterion rhyddid gwybodaeth, darparu un pwynt cyswllt, cydlynu polisïau a gweithdrefnau rhyddid gwybodaeth a rhai cysylltiedig, rhoi sylw i feysydd a allai fod yn sensitif, ac ystyried pa hyfforddiant y mae ar staff ei angen.
- Ystyried trefniadau i oruchwylio mynediad at wybodaeth a dirprwyo hynny i'r corff llywodraethu priodol.
- Mynd ati i gyhoeddi gwybodaeth sy'n cynnwys manylion sut gellir ei gyrchu trwy Gynllun Cyhoeddi (gweler y Model Cynllun Cyhoeddi isod) a dylid adolygu hyn yn flynyddol.
- Sicrhau fod system rheoli cofnodion a gwybodaeth sydd wedi'i rheoli'n dda yn bodoli er mwyn cydymffurfio â cheisiadau.
- Dylid sicrhau fod cofnod o wrthodiadau a rhesymau dros wrthodiadau yn cael ei gadw, a fydd yn caniatáu i Ymddiriedolaeth yr Academi adolygu ei pholisi mynediad yn flynyddol.

## Model Cynllun Cyhoeddi

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu model cynllun cyhoeddi ar gyfer ysgolion a dylent ei lenwi. Cafodd ei ddiwygio yn 2009, felly dylai unrhyw ysgol a luniodd gynllun cyn hynny ei adolygu ar frys. Dylid adolygu cynllun cyhoeddi'r ysgol yn flynyddol.

Mae canllawiau ynghylch y model cynllun cyhoeddi ar gael yn:
http://www.ico.gov.uk/for_organisations/freedom_of_information/guide/publication_scheme.aspx
Mae Templed y Model Cynllun Cyhoeddi ar gyfer Ysgolion ar gael yn:

http://www.ico.gov.uk/upload/documents/library/freedom_of_information/detailed_specialist_guides/schools_engl and_mps_final.pdf

## Rhagor o Arweiniad

Mae canllawiau'r ICO ar gael trwy droi at y ddolen ganlynol – yn cynnwys fersiwn pdf – diweddarwyd y canllawiau ym Medi 2012:
http://www.ico.gov.uk/for_organisations/freedom_of_information/guide.aspx

## B3 Templed Polisi 'Dewch â'ch Dyfais Eich Hun' (BYOD) Ysgol

**Bydd perchnogion dyfeisiau sy'n eu cludo i'r ysgol yn gwneud hynny ar eu menter eu hunain, a defnyddwyr a'u rhieni/gofalwyr sy'n gyfrifol yn llwyr am gostau unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o'u defnydd o unrhyw ddyfais yn yr ysgol.**

**Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd dros ddyfeisiau a gaiff eu colli, eu dwyn neu eu difrodi yn yr ysgol, neu wrth wneud gweithgareddau a drefnir gan yr ysgol.**

**Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddiffygion mewn unrhyw ddyfais oherwydd newidiadau a wneir i'r ddyfais tra bydd ar rwydwaith yr ysgol.**

Mae'r ysgol yn argymell y dylid sicrhau fod y dyfeisiau yn hawdd i'w hadnabod a bod ganddynt flwch amddiffynnol i'w ddiogelu wrth eu cludo o amgylch yr ysgol. Dylid gosod codau mynediad neu rif adnabod personol ar ddyfeisiau personol i gynorthwyo i'w diogelu.

Nid yw'r ysgol yn gyfrifol am gynnal a chadw dyfeisiau personol defnyddwyr, megis gwefru unrhyw ddyfais, gosod diweddariadau meddalwedd na datrys problemau caledwedd.

**Ni chaniateir mynediad BYOD heb awdurdodi hynny trwy ddychwelyd bonyn caniatâd y Cytundeb Defnydd Derbyniol wedi'i gydlofnodi gan rieni/gofalwyr y myfyriwr.**

Mae disgwyl i ddefnyddwyr ymddwyn yn gyfrifol, diogel a pharchus yn unol â Chytundebau Defnydd Derbyniol presennol.
Mae defnyddwyr yn gyfrifol am sicrhau y caiff eu dyfais ei diweddaru trwy gyfrwng diweddariadau meddalwedd, diogelwch ac apiau
Mae defnyddwyr yn gyfrifol am wefru eu dyfeisiau eu hunain ac am ddiogelu a gofalu am y dyfeisiau hyn tra byddant yn yr ysgol

## B4 Templed Polisi Ysgol - Cylch Gorchwyl Pwyllgor e-Ddiogelwch Ysgol

### 1. PWRPAS

I ddarparu grŵp ymgynghorol sydd â chynrychiolaeth eang o'r gymuned [ysgol], gyda chyfrifoldeb am faterion sy'n ymwneud â e-Ddiogelwch a monitro'r polisi e-Ddiogelwch gan gynnwys effaith cynlluniau.

### 2. AELODAETH

2.1 Bydd y pwyllgor e-Ddiogelwch yn ceisio cynnwys cynrychiolaeth gan holl rhanddeiliaid
Dylai cyfansoddiad y grŵp gynnwys

- Aelod/au'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth
- Swyddog Diogelu
- Aelod o'r staff dysgu
- Aelod o'r staff cefnogol
- Cydlynydd e-Ddiogelwch (nid y cydlynydd TGCh yn awtomatig)
- Llywodraethwr
- Rhiant / Gofalwr
- Staff Cefnogol Technolegol TGCh (lle gall wneud hynny)
- Defnyddwyr cymunedol (ble'n addas)
- Cynrychiolaeth myfyrwyr / disgyblion – i gael cyngor ac adborth. Mae llais y myfyrwyr / disgyblion yn hanfodol yng nghyfansoddiad y Pwyllgor e-Ddiogelwch, ond dim ond mewn cyfarfodydd pwyllgor ystyrir yn berthnasol disgwylir i fyfyrwyr / disgyblion gymryd rhan.

2.2 Efallai bydd pobl eraill yn cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfodydd ar gais y Cadeirydd ar ran y pwyllgor i ddarparu cyngor a chymorth ble mae'n angenrheidiol.
2.3 Mae'n rhaid i aelodau'r Pwyllgor ddatgan gwrthdaro buddiannau os oes unrhyw ddigwyddiadau yn cael eu trafod sydd yn ymglymu nhw neu aelodau eu teulu yn uniongyrchol.
2.4 Bydd angen i aelodau'r pwyllgor fod yn ymwybodol bod llawer o'r materion trafodir gan y grŵp yma yn gallu bod o natur sensitif neu gyfrinachol.
2.5 Pan fydd aelodau unigol yn teimlo'n anghyffyrddus am beth sy'n cael ei drafod dylid caniatáu iddynt adael y cyfarfod a bydd camau yn cael eu cyflawni gan aelodau eraill i ganiatáu am y sensitifeddau yma.


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## 3. CADEIRYDD

Dylai'r Pwyllgor ddewis Cadeirydd addas o'r grŵp. Bydd y cyfrifoldebau yn cynnwys:

- Trefnu cyfarfodydd a hysbysu aelodau'r pwyllgor;
- Gwahodd pobl eraill i fynychu cyfarfodydd pan fydd y pwyllgor angen;
- Arwain y cyfarfod yn ôl yr agenda a'r amser sydd ar gael;
- Sicrhau bod holl eitemau trafod yn gorffen gyda phenderfyniad, gweithrediad neu ganlyniad pendant;
- Sicrhau bod nodiadau yn cael eu cymryd yn y cyfarfodydd a bod y rhain, ynghyd ag unrhyw bwyntiau gweithredu yn cael eu dosbarthu fel sy'n angenrheidiol

## 4. CYFNOD Y CYFARFODYDD

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn flynyddol am gyfnod o 1 awr. Gellir galw cyfarfod arbennig neu anghyffredin pan, ac os, tybir bod hynny'n angenrheidiol.

## 5. SWYDDOGAETHAU

Mae'r rhain i gynorthwyo'r Cydlynydd e-Ddiogelwch (neu berson perthnasol arall) gyda'r canlynol: [ychwanegu/dileu ble'n berthnasol]

- I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau newydd mewn e-Ddiogelwch
- I adolygu a datblygu'r polisi e-Ddiogelwch yn flynyddol (o leiaf) yn unol â thechnolegau a digwyddiadau newydd
- I fonitro'r trosglwyddiad a'r effaith o bolisi e-Ddiogelwch
- I fonitro'r cofnodion o ddigwyddiadau e-Ddiogelwch wedi'u hadrodd (dienw) i oleuo ardaloedd athrawiaeth / dysg / hyfforddi'r dyfodol.
- I gydlynu ymgynghoriad gyda chymuned yr ysgol gyfan i sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r wybodaeth, hyfforddiant ac/neu ddatblygiadau diweddaraf mewn e-Ddiogelwch. Gall hyn gael ei gyflawni drwy [ychwanegu/dileu fel sy'n berthnasol]:

    - Cyfarfodydd staff
    - Fforymau myfyrwyr / disgyblion (ar gyfer cyngor ac adborth)
    - Cyfarfodydd llywodraethwyr
    - Arolygon / holiaduron i fyfyrwyr / disgyblion, rhieni / gofalwyr a staff
    - Nosweithiau rhieni
    - Gwefan / RhAD / Cylchlythyrau
    - Digwyddiadau e-Ddiogelwch
    - Diwrnod Diogelwch y Rhyngrwyd (yn cael ei gynnal yn flynyddol ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Chwefror)
    - Dulliau eraill

- I sicrhau bod monitro o'r safweoedd defnyddir ledled yr ysgol yn cael ei gyflawni (os yn bosib)
- I fonitro hidlo / newid cofnodion rheolaeth (ee. cais i flocio / dadflocio gwefannau)
- I fonitro'r defnydd diogel o ddata ar draws yr [ysgol]
- I fonitro digwyddiadau sy'n ymwneud â seibrfwlio i staff a disgyblion

## 6. GWELLIANNAU

Bydd y cylch gorchwyl yn cael ei adolygu'n flynyddol o'r dyddiad cymeradwyo. Gallent gael eu haltro i gyrraedd anghenion cyfoes holl aelodau'r pwyllgor, gyda chytundeb y mwyafrif.

Mae'r Cylch Gorchwyl uchod i AO wedi cael ei gytuno

Arwyddwyd gan (Uwch Dîm Arweinyddiaeth):
Dyddiad: 19/09/15
Dyddiad i adolygu: 20/09/16

Mae'r Cylch Gorchwyl uchod i EF wedi cael ei gytuno

Arwyddwyd gan (Uwch Dîm Arweinyddiaeth):
Dyddiad: 20/09/16



© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

Dyddiad i adolygu: 20/09/17

## Cydnabyddiaeth

## C1 Ymateb i ddigwyddiadau camddefnydd - siart llif


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014






© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## C2 Cofnod o ddyfeisiau / gwefannau adolygu / (yn ymateb i ddigwyddiadau o gamddefnydd)

| | |
|---|---|
| Grŵp | |
| Dyddiad | |
| Rheswm am yr archwiliad | |

### Manylion o'r person adolygu cyntaf

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Swydd | |
| Llofnod | |

### Manylion yr ail berson adolygu

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Swydd | |
| Llofnod | |

### Enw a lleoliad y cyfrifiadur defnyddir i bwrpas yr adolygiad (ar gyfer gwefannau)

| |
|---|
| |

| Cyfeiriad gwefan(nau ) / dyfais | Rheswm am y pryder |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

### Casgliad a Gweithred cynigwyd neu cymerwyd

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

# C3 Templed Log Adrodd

Log Adrodd
Grŵp ..............................................................

| Dyddiad | Amser | Digwyddiad | Gweithred cymerwyd | | Digwyddiad Adroddwyd gan | Llofnod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Beth? | Gan bwy? | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## C4 Archwiliad Anghenion Hyfforddiant

Log Archwiliad Anghenion Hyfforddiant
Grŵp........................................ Dyddiad........................

| Enw | Swydd | Hyfforddiant perthnasol yn y 12 mis diwethaf | Angen hyfforddiant canfyddadwy | I gael ei ddiwallu gan: | Cost | Dyddiad adolygu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## C5 Crynodeb o Ddeddfwriaeth

Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r fframwaith deddfwriaeth cafodd ei ddefnyddio i gynhyrchu'r templed Polisi e-Ddiogelwch a'r arweiniad yma. Mae'n bwysig nodi, yn gyffredinol, bod gweithred sydd yn anghyfreithlon os cyflawnir all-lein hefyd yn anghyfreithlon wrth ei gyflawni ar-lein.

Awgrymir i chi chwilio am gyngor cyfreithiol gyda dyfodiad mater neu sefyllfa e-Ddiogelwch

### Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990

Mae'r Ddeddf yma yn ei gwneud yn drosedd i:

- Dileu neu newid data neu raglenni heb awdurdod;
- Cael mynediad anawdurdodedig i gyfrifiadur;
- "Clustfeinio" ar gyfrifiadur;
- Gwneud defnydd anawdurdodedig o amser cyfrifiadur neu gyfleusterau;
- Llygru neu ddileu data neu raglenni yn faleisus;
- Gwrthod mynediad i ddefnyddwyr awdurdodedig.

### Deddf Diogelu Data 1998

Mae hwn yn amddiffyn hawliau a phreifatrwydd data unigolyn. I gydymffurfio â'r gyfraith rhaid casglu gwybodaeth am unigolion a'i ddefnyddio'n deg, ei storio'n ddiogel a pheidio datgelu i drydydd parti yn anghyfreithlon. Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid i ddata person fod yn:

- Prosesu yn deg ac yn gyfreithlon
- Prosesu ar gyfer pwrpasau cyfyngedig
- Yn ddigonol, yn berthnasol a ddim yn ormodol
- Cywir
- Ddim yn cael ei gadw yn hirach nag sydd angen
- Prosesu yn unol â hawliau'r gwrthrych data
- Diogel
- Ddim yn cael ei drosglwyddo i wledydd eraill heb amddiffyniad digonol

### Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i unigolion wneud cais am wybodaeth sydd yn cael ei gadw gan awdurdodau cyhoeddus. Mae gan yr holl awdurdodau cyhoeddus, a chwmnïau mae awdurdodau cyhoeddus yn berchen llawn arnynt, oblygiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Wrth ymateb i geisiadau, mae'n rhaid iddynt ddilyn nifer o weithdrefnau cadarn.

### Deddf Cyfathrebiadau 2003

Mae person sydd yn gyrru neges neu fater arall sydd yn llwyr ymosodol neu o gymeriad anweddus, anllad neu fygythiol trwy'r Rhyngrwyd; neu yrru neges ffug trwy'r Rhyngrwyd, neu'n gwneud defnydd parhaus o'r Rhyngrwyd er mwyn achosi poen, anhwylustod neu bryder diangen, yn euog o drosedd gellir ei chosbi gyda charchar os ceir euogfarn. Mae'r geirio yma yn bwysig oherwydd mae trosedd wedi'i gwblhau cyn gynted ag y mae'r neges wedi cael ei yrru: nid oes rhaid profi diben na phwrpas.

### Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988

Mae'n drosedd gyrru llythyr, cyfathrebiad electroneg neu erthygl arall anweddus, ymosodol, neu fygythiol i berson arall. Mae hefyd yn drosedd gyrru gwybodaeth sydd yn ffug a bod yr un sydd yn ei yrru yn gwybod neu'n credu ei fod yn anwir.

### Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

Mae'n drosedd i unrhyw berson rhyng-gipio unrhyw gyfathrebiadau yn fwriadol a heb awdurdod cyfreithlon. Caniateir monitro neu gadw cofnod o unrhyw ffurf o gyfathrebiadau electroneg gyda chaniatâd rheolwr y system, er mwyn:

- Sefydlu'r ffeithiau;
- Canfod cydymffurfiad gydag arferion neu weithdrefnau hunanreoleiddiol;


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

- Arddangos safonau, sydd yn, neu dylai, cael eu cyflawni gan bersonau sy'n defnyddio'r system;
- Archwilio neu ganfod defnydd anawdurdodedig o'r system cyfathrebu;
- Atal neu ganfod trosedd neu rywbeth sydd o ddiddordeb i ddiogelwch gwladol;
- Sicrhau gweithred effeithiol o'r system.
- Caniateir monitro, nid cofnodi, hefyd er mwyn:
- Canfod os yw'r cyfathrebiad yn fusnes neu'n bersonol;
- Amddiffyn neu gefnogi staff llinell cymorth

## Deddf Nodau Masnach 1994

Mae hyn yn darparu amddiffyniad i Nodau Masnach Gofrestredig, gallai fod yn unrhyw symbol (geiriau, siapiau neu ddelweddau) sydd yn gysylltiedig â set o nwyddau neu wasanaethau penodol. Ni ddylai defnyddio Nodau Masnach Gofrestredig heb ganiatâd. Gall hyn hefyd godi o ddefnyddio Nod sydd yn ddryslyd o debyg i Nod presennol.

## Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988

Mae'n drosedd i gopïo holl, neu ran sylweddol, o waith dan hawlfraint. Ond, mae yna ganiatâd defnyddiwr cyfyngedig penodol, fel deliad teg, sydd yn golygu nad oes angen caniatâd mewn rhai amodau i gopïo darnau bach ar gyfer ymchwil anfasnachol neu astudiaeth breifat. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu i Hawliau Moesol, ble gall awdur siwio os nad yw ei enw yn cael ei gynnwys mewn gwaith sydd wedi'i ysgrifennu ganddynt, neu os yw'r gwaith wedi cael ei newid mewn ffordd gall roi amheuaeth i'w enw da. Mae hawlfraint yn berthnasol i ddeunydd mewn print ac ar ffurf electroneg, ac yn cynnwys geiriau, delweddau, a sain, delweddau sy'n symud, darlledIad teledu a chyfryngau eraill (ee. YouTube).

## Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 / Deddf Trefn Cyhoeddus 1986

Mae hyn yn diffinio trosedd o aflonyddu bwriadol, sydd yn gymwys i bob ffurf o aflonyddu, gan gynnwys rhywiol. Mae person yn euog o drosedd os ydynt, gyda bwriad o achosi aflonyddwch, braw neu drallod, yn:

- Defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus, neu ymddygiad afreolus; neu
- Yn arddangos unrhyw ysgrifen, arwydd neu gynrychiolaeth weledol arall, sydd yn fygythiol, ymosodol neu sarhaus, a thrwy hynny yn achosi aflonyddwch, braw neu drallod i'r person yna neu rywun arall

## Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006 / Deddf Trefn Cyhoeddus 1986

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn drosedd i fygwth pobl am eu ffydd, neu i ysgogi casineb crefyddol wrth arddangos, cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd ysgrifenedig sydd yn fygythiol. Mae cyfreithiau eraill yn amddiffyn pobl o fygythiadau oherwydd eu hil, cenedligrwydd neu gefndir ethnig yn barod.

## Deddf Amddiffyniad rhag Aflonyddwch 1997

Ni ddylai person ymddwyn mewn ffordd sydd yn golygu ei fod yn aflonyddu rhywun arall, a'i fod yn ymwybodol neu dylai fod yn ymwybodol fod hyn yn aflonyddu'r llall. Mae person sydd yn ymddwyn mewn ffordd sydd yn achosi un arall i ofni, ar o leiaf dau achlysur, bod trais am gael ei ddefnyddio yn ei erbyn, yn euog o drosedd os yw'n gwybod neu dylai wybod fod ymddwyn yn y ffordd yma yn achosi'r llall i ofni ar bob achlysur yma.

## Deddf Amddiffyn Plant 1978

Mae'n drosedd i gymryd, caniatáu i rywun gymryd, gwneud, meddiannu, dangos, dosbarthu neu hysbysu delweddau anweddus o blant yn y Deyrnas Unedig. Mae plentyn yn unrhyw un o dan 18 oed yn yr achos yma. Mae delwedd o blentyn hefyd yn golygu ffug-luniau (wedi'u coladu'n ddigidol neu fel arall). Mae person sy'n cael euogfarn am y fath yma o drosedd yn atebol i garchariad am gyfnod o ddim mwy nag 10 mlynedd, neu ddirwy neu'r ddau..

## Deddf Troseddau Rhywiol 2003

Mae'r trosedd newydd o baratoi i bwrpas rhyw (grooming) yn cael ei gyflawni os ydych chi dros 18 oed ac wedi cyfathrebu gyda phlentyn o dan 16 o leiaf ddwywaith (gan gynnwys ar y ffôn neu'n defnyddio'r Rhyngrwyd). Mae'n drosedd i gyfarfod gyda nhw, neu deithio i gyfarfod gyda nhw unrhyw le yn y byd, gyda'r bwriad o gyflawni trosedd rhywiol. Mae achosi plentyn o dan 16 oed i wylio gweithred rywiol yn anghyfreithlon, gan gynnwys edrych ar ddelweddau fel fideos, lluniau neu we gamerâu, ar gyfer boddhad eich hun. Mae hefyd yn drosedd i berson sydd â swydd o ffydd i

gymryd rhan mewn gweithred rywiol gyda pherson o dan 18, pan fydd y person yna yn ymddiried ynddynt. (Fel arfer, mae athrawon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol, staff Gyrfa Cymru yn y categori yma o ffydd). Bydd cyfathrach rywiol gyda phlentyn o dan 13 oed yn cyflawni'r drosedd o drais rhywiol (rêp).

## Deddf Trefn Gyhoeddus 1986

Mae'r Ddeddf yma yn ei wneud yn drosedd i ysgogi casineb hiliol wrth arddangos, cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd ysgrifenedig sydd yn fygythiol. Fel y Ddeddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006 mae hefyd yn gwneud trosedd o feddiant deunydd llidus gyda'r bwriad o'i ryddhau.

## Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959 a 1964

Mae cyhoeddi erthygl "anllad" yn drosedd. Mae cyhoeddi yn cynnwys trosglwyddiad electroneg.

## Deddf Hawliau Dynol 1998

Nid yw hwn yn ymdrin ag unrhyw fater penodol yn bendant nac unrhyw faes pwnc arwahanol o fewn y gyfraith. Mae'n fath o "uwch gyfraith", sydd yn effeithio'r cyfreithiau eraill i gyd. Yng nghyd-destun yr ysgol, dyma rhai o'r hawliau dynol dylai bod yn ymwybodol ohonynt:

- Yr hawl i dreial teg
- Yr hawl i barch tuag at fywyd, cartref a chyfathrebiad preifat a bywyd teuluol
- Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
- Rhyddid mynegiant
- Rhyddid i ymgynnull
- Gwaharddiad gwahaniaethu
- Yr hawl i addysg
- Yr hawl i beidio gorfod dioddef triniaeth greulon neu ddiraddiol neu gosb

Mae gorfodaeth ar yr ysgol i barchu'r hawliau a'r rhyddidau yma, ond dylai cydbwyso'r rhain yn erbyn yr hawliau, dyletswyddau a rhwymedigaethau sydd yn codi o ddeddfwriaethau perthnasol eraill.

## Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006

Awdurdodi Penaethiaid, i ehangder rhesymol, i reoli ymddygiad myfyrwyr / disgyblion pan i ffwrdd o safle'r ysgol a rhoi grym i aelodau staff i osod cosbau disgyblaethol am ymddygiad anaddas.

## Deddf Diogelu Rhyddidau 2012

Mae ysgolion yn gorfod cael caniatâd rhiant / gofalwr i ddefnyddio systemau Biometrig


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

## C6 Office 365 – manylion pellach

### Ble mae'r data yn cael ei gadw?

Mae data i Ysgolion y DU yn cael ei letya o fewn yr UE. Mae'r prif ganolfan data Microsoft sydd yn lletya'r gwasanaeth yma wedi'i leoli yn Nulyn ac mae'r system eilaidd yn Amsterdam.

### Pa mor aml mae'r data yn cael ei ategu?

Mae'r syniad o "ategu" yn wahanol iawn gydag Office 365 nag y mae i wasanaethau traddodiadol sy'n cael eu lletya yn lleol. Rydym yn defnyddio rhwydwaith o ganolfannau data diangen byd-eang ac yn dyblygu data ar sawl gweinyddwr ar draws y ddau ganolfan data. Ar unrhyw dro, mae 3 copi o ddata ysgolion yn cael ei gadw ar draws y ddau ganolfan data crybwyllwyd (Dulyn ac Amsterdam).

### Oes gan y darparwr gwasanaeth e-bost broses clir i adfer data?

Oes. Gall defnyddwyr eu hunain adfer data am 30 diwrnod ar ôl dileu eitem. Yna mae gan weinyddwyr 30 diwrnod ychwanegol unwaith i'r eitem gael ei ddileu o'r ffolder eitemau wedi'u dileu. Mae yna hefyd wasanaethau archifo ychwanegol gellir talu amdanynt ar gael gydag Office 365, ond gyda mewnflwch 25GB i bob person nid oes cymaint o bwysau ar ddefnyddwyr i archifo e-bost o gymharu â systemau e-bost presennol.

### Sut mae'r darparwr e-bost yn amddiffyn eich preifatrwydd?

3 peth allweddol: Dim hysbysebu, dim "cymysgu" o ddata Office 365 gyda'n gwasanaethau defnyddwyr (fel Hotmail) a chludadwyedd data llawn, rhag i chi fod eisiau gadael y gwasanaeth.

### Pwy sydd yn berchen ar y data rydych chi'n ei gadw ar y platfform e-bost?

Mae ysgolion yn berchen ar y data, nid Microsoft. Chi sy'n berchen ar eich data, ac yn cadw holl hawliau, teitlau a diddordeb yn y data rydych chi'n ei gadw gydag Office 365. Gallwch lawrlwytho copi o'r holl ddata unrhyw adeg ac am unrhyw reswm, heb unrhyw gymorth gan Microsoft.

### Pwy sydd â mynediad i'r data yma?

Nid oes gan neb fynediad i ddata cwsmer o fewn gwasanaeth Office 365. Mae gweithwyr Microsoft sydd ddim wedi cwblhau gwiriadau cefndir addas, ac efo angen dilys, yn gallu codi cynnydd am fynediad cyfyngedig i ddata Cwsmer. Mae mynediad yn cael ei archwilio, ei gofnodi a'i wireddu trwy'r Tystysgrifo ISO 27001 yn rheolaidd.

Fel manylir mewn cyflwyniad achrediad diweddar i Lywodraeth y DU, mae unrhyw sefydliad sydd yn nodi'r "DU" fel eu gwlad yn ystod creu tenant yn cael darpariaeth a chadw data yng nghanolfannau data'r UE (Dulyn ac Amsterdam).

Mae Microsoft wedi cael achrediad hyd at, ac yn cynnwys, sicrwydd "Lefel Effaith 2" (LE2) llywodraeth y DU ar gyfer Office 365. Ers Chwefror 2013 Microsoft ydy'r unig ddarparwr gwasanaeth cwmwl cyhoeddus cenedlaethol i lwyddo ennill y lefel yma o achrediad ac, yn wir, dyma'r lefel uchaf o achrediad sydd yn bosib gyda gwasanaethau sydd yn cael eu letya y tu allan i'r DU (ond o fewn y AEE).

Efallai bydd ysgolion eisiau ystyried faint mae cyfreithiau perthnasol yn yr Unol Daleithiau - sydd yn gymwys i wasanaethau sy'n cael eu rheoli gan gwmnïoedd wedi'u cofrestru yn yr Unol Daleithiau, ee. Microsoft a Google - yn effeithio ar addasrwydd y gwasanaethau yma. Er esiampl mae'r Ddeddf Gwladgarwr yr Unol Daleithiau yn darparu ffordd gyfreithiol i asiantaethau sydd yn gorfodi cyfraith i gael mynediad i ddata sy'n cael ei gadw o fewn y gwasanaethau yma heb fod angen caniatâd nac ymwybyddiaeth y cwsmer o reidrwydd. Er nad yw SWGfL yn bwriadu rhwystro neb o gael gwerth o'r gwasanaethau buddiol yma, teimlwn dylem rannu ein gwybodaeth amdanynt.

### Ydy gwybodaeth bersonol yn cael ei rannu gydag unrhyw un arall?

Nid yw gwybodaeth bersonol yn cael ei rannu.

### Ydy'r darparwr e-bost yn rhannu cyfeiriadau e-bost gyda hysbysebwyr trydydd parti? Neu yn cyflwyno hysbysebion i ddefnyddwyr?

Na. Nid oes hysbysebion ar Office 365.


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

### Pa gamau mae'r darparwr e-bost yn ei gymryd i sicrhau fod eich gwybodaeth yn ddiogel?

Mae Microsoft yn defnyddio 5 haen o ddiogelwch - data, cais, lletya, rhwydwaith a chorfforol. Gallwch ddarllen am hyn mewn llawer mwy o fanylder yma.

Mae Office 365 wedi'i ardystio ar gyfer ISO 27001, un o'r meincnodau diogelwch gorau sydd ar gael ledled y byd. Office 365 oedd y gwasanaeth cwmwl cyhoeddus cyntaf i gynhyrchaeth busnes mawr i weithredu'r set gaeth o reolyddion corfforol, rhesymegol, prosesu a rheoli diffiniwyd gan ISO 27001.

Cymalau Model yr UE. Yn ogystal â'r 'EU Safe Harbor', Office 365 ydy'r darparwr gwasanaeth cwmwl cyhoeddus cynhyrchaeth busnes mawr i arwyddo'r cymalau cytundebol safonol sydd wedi'u creu gan yr Undeb Ewropeaidd ("EU Model Clauses") gyda holl gwsmeriaid. Mae Cymylau Model yr UE yn cyfeirio at drosglwyddo data yn rhyngwladol.

Mae Cytundeb Prosesu Data Microsoft yn cynnig Cytundeb Prosesu Data (CPD) safonol cynhwysfawr i holl gwsmeriaid. Mae'r CPD yn cyfeirio at breifatrwydd, diogelwch a thrin data cwsmer. Mae ein Cytundeb Prosesu Data safonol yn caniatáu i gwsmeriaid gydymffurfio â'r rheolau lleol. Ymwelwch yma i gael copi o'r CPD wedi'i arwyddo.

### Pa mor ddibynadwy ydy'r gwasanaeth e-bost?

Mae yna 99.9% o ymrwymiad amser mynd gyda Chytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) sydd â chefnogaeth ariannol ar gyfer unrhyw wasanaethau sy'n cael eu talu amdanynt yn Office 365 (er bydd y mwyafrif o ysgolion yn defnyddio gwasanaethau 'am ddim' ac felly ddim yn derbyn y CLG sydd â chefnogaeth ariannol).

### Pa lefel o gefnogaeth sydd yn cael ei gynnig fel rhan o'r gwasanaeth?

Mae Microsoft yn cynnig cefnogaeth ffôn uniongyrchol 24/7 i ysgolion ar gyfer gweinyddwyr TG ac mae yna hefyd amrywiaeth mawr o wasanaethau cymorth ar-lein, gellir darllen amdanynt yma. Ein hawgrymiad ydy bod ysgolion yn defnyddio partner Microsoft neu sefydliad cefnogol gydag arbenigedd penodol i'r diwydiant mewn gwasanaethau cwmwl i ysgolion.

### Adnoddau Ychwanegol

Mae yna gyfoeth o wybodaeth am Office 365 yn yr 'Office 365 Trust Centre'. Gellir hefyd ddarllen erthyglau am Office 365, cael adnoddau adleoli a chysylltu gydag arbenigwyr Cwmwl Microsoft yn uniongyrchol ar eu Blog Cwmwl Ysgolion y DU.

## C7 Cysylltiadau i sefydliadau a dogfennau eraill

Gallai'r dolenni canlynol helpu'r rhai sydd yn datblygu neu'n adolygu polisi e-Ddiogelwch ysgol.

## Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU

- Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel
- South West Grid for Learning
- Childnet
- Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein Pobl Broffesiynol
- Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd (IWF)

## CEOP

- http://ceop.police.uk/
- ThinkUKnow

## Eraill

- INSAFE - http://www.saferinternet.org/ww/en/pub/insafe/index.htm
- Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrwyd (UKCCIS) - www.education.gov.uk/ukccis
- Netsmartz - http://www.netsmartz.org/index.aspx

## Cefnogaeth i Ysgolion

- Cymorth a chefnogaeth arbenigol - BOOST SWGfL

## Seibrfwlio

- Gwasanaeth Gwrth-Fwlio Yr Alban, Respectme - http://www.respectme.org.uk/
- Llywodraeth Yr Alban - Perthnasau gwell, dysgu gwell, ymddygiad gwell
- Llywodraeth Cymru - Parchu Eraill
- Rhwydwaith Gwrth-Fwlio - http://www.antibullying.net/cyberbullying1.htm
- Cyberbullying.org - http://www.cyberbullying.org/
-

## Rhwydweithio Cymdeithasol

- Digizen – Rhwydweithio Cymdeithasol
- SWGfL - Facebook - Rheoli risg i staff a gwirfoddolwyr yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc
- Connectsafely - Canllaw Facebook i Rieni
- Canllaw Facebook i Addysgwyr

## Cwricwlwm

- Cwricwlwm Llythrennedd Digidol a Dinasyddiaeth SWGfL
- Alberta, Canada - pdf canllaw datblygu polisi dinasyddiaeth ddigidol
- Teach Today – www.teachtoday.eu/
- Insafe - Adnoddau Addysg
- Somerset - deunydd e-Sense i ysgolion

## Dyfeisiau Symudol / Dewch â'ch dyfais eich hun (BYOD)

- Adroddiad Cloudlearn - Ymarfer effeithiol i ysgolion sydd yn symud i roi diwedd ar gloi a blocio
- NEN - Nodyn Arweiniad - BYOD

## Diogelu Data

- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO):

  - Eich hawliau i'ch gwybodaeth - Adnoddau i ysgolion - ICO
  - Tudalennau'r ICO i bobl ifanc
  - Canllaw i'r Ddeddf Diogelu Data - Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
  - Canllaw i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth - Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth
  - Arweiniad yr ICO ar y Cynllun Cyhoeddiad Model Rhyddid Gwybodaeth
  - ICO - Canllaw Cyhoeddiad Model Rhyddid Gwybodaeth - Templed i Ysgolion (Lloegr) (England)

- ICO - Arweiniad rhoddom i ysgolion - Medi 2012 (Lloegr) (England)
- Arweiniad yr ICO ar Dewch â'ch dyfais eich hun
- Arweiniad yr ICO ar Wasanaethau Cynhelir ar y Cwmwl
- Nodyn ymarfer da Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar dynnu lluniau mewn ysgolion
- Arweiniad yr ICO - Diogelu Data - Canllaw Ymarferol i Ddiogelwch TG
- ICO - Pecyn Cymorth TH!NK PRIVACY
- ICO - Gwybodaeth Bersonol Ar-lein - Cod Ymarfer
- ICO - Pecyn Cymorth Access Aware
- ICO - Cod Ymarfer Mynediad Gwrthrych
- ICO - Arweiniad ar Reoli Tramgwyddau Diogelwch Data

- SWGfL - Arweiniad i Ysgolion ar Wasanaethau Cynhelir ar y Cwmwl
- LGfL - Rhestr Gwirio Cydymffurfiad Trin Data
- Somerset - Siart Llif Storio Data Personol
- NEN - Nodyn Arweiniad - Amddiffyn Data Ysgolion

## Safonau Proffesiynol / Hyfforddiant Staff

- Adran Addysg - Ymarferiadau Gweithio Mwy Diogel i Oedolion sydd yn Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc
- Kent - Ymarfer Mwy Diogel gyda Thechnoleg
- Childnet / TDA - Rhwydweithio Cymdeithasol - canllaw i athrawon Hyfforddedig ac ANG
- Childnet / TDA - Athrawon a Thechnoleg - rhestr gwirio i athrawon hyfforddedig ac ANG
- Llinell Gymorth Diogelwch ar Lein i Bobl Broffesiynol - Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU

## Isadeiledd / Cefnogaeth Dechnegol

- Somerset - Cwestiynau i Gefnogaeth Dechnegol
- NEN - Guidance Note - esecurity SWGfL / Common Sense Media Digital Literacy & Citizenship Curriculum

## Gweithio gyda rhieni a gofalwyr

- Cyflwyniadau SWGfL BOOST - cyflwyniad rhieni
- Connect Safely - Canllaw Rhieni i Facebook
- Cylchgrawn Digital Parents Vodafone
- Tudalennau Gwe Childnet i Rieni a Gofalwyr
- DirectGov - Diogelwch y Rhyngrwyd i rieni
- Get Safe Online - adnoddau i rieni
- Teach Today - adnoddau ar gyfer gweithdai / addysg rhieni
- The Digital Universe of Your Children - fideos i rieni wedi'u hanimeiddio (Insafe)
- Cerebra - Anableddau Dysgu, Awtistiaeth a Diogelwch y Rhyngrwyd - Canllaw i Rieni
- Insafe - Canllaw i rieni - addysg a chyfryngau newydd
- Sefydliad Cybersmile (seibrfwlio) - cyngor i rieni

## Ymchwil

- Adroddiad EU Kids Online - "Risks and Safety on the Internet" - Ionawr 2011
- Futurelab - "Digital Participation - its not chalk and talk any more!"

# C8 Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| AA | Awdurdod Addysg |
| ALl | Awdurdod Lleol |


© Cedwir pob hawl gan SWGfL 2014

| | |
|---|---|
| CEOP | Canolfan Cam-fanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (rhan o Heddlu'r DU, wedi ymrwymo i amddiffyn plant o gamdriniaeth rywiol, darparwyr o'r rhaglen Think U Know. |
| Cyfeiriad IP | Y label sydd yn adnabod pob cyfrifiadur i gyfrifiaduron eraill yn defnyddio'r IP (protocol rhyngrwyd) |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaol |
| GPPI | Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (mewn Awdurdodau Lleol) |
| HMS | Hyfforddiant Mewn Swydd |
| ICO | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth |
| ISP | Darparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd |
| ISPA | Cymdeithas Darparwyr Gwasanaeth Rhyngrwyd |
| IWF | Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd (Internet Watch Foundation) |
| MarcTGCh | Safon Ansawdd i ysgolion darparwyd gan NAACE |
| MIS | System Gwybodaeth Reoli |
| NEN | Rhwydwaith Addysg Genedlaethol - yn gweithio gyda'r Consortia Band Llydan Rhanbarthol (ee. SWGfL) i roi darpariaeth band llyfan diogel i ysgolion ledled Prydain. |
| Ofcom | Swyddfa Cyfathrebiadau (rheolydd sector cyfathrebiadau annibynnol) |
| PDD | Polisi Defnydd Derbyniol - gweler templedi cynt yn y ddogfen yma |
| RhAD | Rhith Amgylchedd Dysgu (system meddalwedd wedi'i ddylunio i gefnogi athrawiaeth a dysgu mewn gosodiad addysgiadol.) |
| RhALl | Rhwydwaith Ardal Leol |
| SDAT | Sefydliad Diogelwch Ar-lein Teulu |
| SWGfL | Ymddiriedolaeth South West Grid for Learning – y Consortiwm Band Llydan Rhanbarthol Awdurdodau Lleol y De-orllewin - mae'n darparu band llydan a gwasanaethau eraill i ysgolion a sefydliadau eraill yn y De-orllewin |
| TGCh | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| TUK | Think U Know – rhaglenni e-Ddiogelwch addysgiadol i ysgolion, pobl ifanc a rhieni. |
| WAP | Protocol Rhaglen Ddiwifr |

Mae hawlfraint y Templedi Polisi e-Ddiogelwch Ysgolion SWGfL  yn cael ei gadw gan SWGfL. Mae caniatâd i ysgolion a sefydliadau addysgiadol eraill i ddefnyddio'r templedi yma am ddim. Dylai unrhyw berson neu sefydliad arall sydd eisiau defnyddio'r ddogfen at bwrpas arall chwilio am ganiatâd gan SWGfL a chydnabod ei ddefnydd.

Mae pob ymdrech wedi'i wneud i sicrhau bod y wybodaeth sydd yn y templed hwn yn gywir, ar y dyddiad cyhoeddi o fis Hydref 2014. Ond, nid all SWGfL warantu ei gywirdeb, nac yn gallu derbyn atebolrwydd am ddefnyddio'r deunydd llawn, neu ran ohono, bod hyn wedi'i addasu neu beidio. Dylai chwilio am gyngor cyfreithiol / proffesiynol addas os oes unrhyw anawsterau yn codi yn ymwneud ag unrhyw agwedd o'r ddeddfwriaeth newydd neu gydag ymddygiad neu ddisgyblaeth yn yr ysgol yn gyffredinol.